


Adroddiad interim yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Ebrill 2018



Adroddiad interim yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Ebrill 2018

Adroddiad y Panel Ymchwilio

Yr Athro Alexis Jay OBE

Yr Athro Syr Malcolm Evans KCMG OBE

Ivor Frank

Drusilla Sharpling CBE

© Hawlfraint y Goron 2018

Gall testun y ddogfen hon (mae hyn yn eithrio, lle bo'n bresennol, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol neu asiantaeth) gael ei atgynhyrchu am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu ac heb fod mewn cyd-destun camarweiniol.

Mae'n rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint y Goron a chyfeirio'n benodol at deitl y ddogfen. Lle bo'r deunydd trydydd parti wedi cael ei adnabod, mae'n rhaid ceisio caniatâd gan ddeilydd yr hawlfraint.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at contact@iicsa.org.uk neu Freepost IICSA INDEPENDENT INQUIRY.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn: www.iicsa.org.uk/key-documents

ISBN 978-1-5286-0344-7

CCS0418469878 04/18

Wedi ei argraffu ar bapur â lleiafswm cynnwys 75% o ffibr wedi ei ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan y Grŵp APS ar ran Reolwr Swyddfa Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Rhagair

Cefais fy mhenodi yn Gadeirydd ym mis Awst 2016. Ym mis Rhagfyr 2016, wedi cwblhau adroddiad ar raglen waith yr Ymchwiliad, cyhoeddais y byddwn yn creu adroddiad interim ym mis Ebrill 2018. Ers hynny, mae'r Ymchwiliad wedi cynnal pum gwrandawriad cyhoeddus, cyhoeddi nifer o adroddiadau ar rannau penodol o'i waith – gan gynnwys darganfyddiadau dau wrandawriad cyhoeddus – a chynnal cyfres o seminarau i drafod materion sy'n berthnasol i gam-drin plant yn rhywiol. Mae dros 1,000 o ddiodefwyr a goroeswyr camriniaeth rywiol yn blant wedi rhannu eu profiadau gyda Phrosiect Gwirionedd yr Ymchwiliad.

Mae'r adroddiad interim hwn yn cyfuno'r gwaith a ddisgrifiwyd uchod, ac yn crybwyll y cynnydd rydyn ni'n ei wneud. Mae'n darparu trosolwg o'r gwrandawriadau cyhoeddus sydd wedi archwilio i ymddygiad sefydliadau penodol. Mae e hefyd yn nodi dadansoddiad yr Ymchwiliad o ymchwil cyfredol a thrafodaethau seminarau'r Ymchwiliad am faterion allweddol sy'n ymwneud â chwmpas yr Ymchwiliad.

Rydyn ni hefyd yn cynnwys yr hyn mae'r Ymchwiliad yn ei ddysgu gan y Prosiect Gwirionedd. Mae hyn yn adlewyrchu dymuniadau'r nifer o ddiodefwyr a goroeswyr sydd wedi cymryd rhan yn y Prosiect Gwirionedd sydd am i'w profiadau gael eu defnyddio gan yr Ymchwiliad yn ei waith.

Pan fo'r Panel a minnau yn credu y gellir gwneud newidiadau i warchod plant rhag camdriniaeth rywiol yn well, rydyn ni'n nodi hynny, ac rydyn ni'n gwneud nifer o argymhellion. Rydyn ni'n disgwyl i sefydliadau weithredu ar ein hargymhellion ac – er budd tryloywder a gonestrwydd – yn gofyn i bob sefydliad gyhoeddi manylion o'r camau y byddant yn eu cymryd mewn ymateb i'r argymhelliad, gan gynnwys yr amserlen.

Mae'r adroddiad hefyd yn crybwyll y themâu allweddol sy'n codi o waith yr Ymchwiliad hyd yn hyn. Mae hyn wedi codi materion pwysig am amharodrwydd y gymdeithas i drafod cam-drin plant yn rhywiol, ac rydyn ni'n ei ystyried yn fater y dylid mynd i'r afael ag ef os ydym ni am i sefydliadau warchod plant rhag y cam-drin hwn yn well yn y dyfodol. Rydyn ni hefyd yn ystyried y dylai uwch-arweinwyr o fewn sefydliadau fod yn fwy agored a gonest wrth adnabod methiannau i warchod plant rhag cam-drin rhywiol yn y gorffennol.

Mae yna lawer o dystiolaeth i'w chlywed o hyd – gan gynnwys wyth gwrandawriad cyhoeddus arall dros y 12 mis nesaf yn unig – felly disgwylwch ragor o themâu i godi wrth i'r Ymchwiliad fynd yn ei flaen. Mae meysydd eraill hefyd sydd wedi codi ar gyfer ymchwiliad posibl. Bydd yr Ymchwiliad yn ystyried y rhain yn ofalus wrth i'n gwaith fynd yn ei flaen.

Dynodais ym mis Rhagfyr 2016 fy mod i'n disgwyl i'r Ymchwiliad wneud cynnydd sylweddol erbyn 2020. Credaf ein bod ni ar y trywydd iawn i gyflawni hyn.

Yr Athro Alexis Jay OBE

Cadeirydd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Adroddiadau'r dioddefwyr a goroeswyr

Mae'r Ymchwiliad yn cydnabod bod rhai pobl sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn adnabod eu hunain yn ddioddefwyr, ac eraill yn oroeswyr cam-drin yn rhywiol. Am y rheswm hwn, mae'n defnyddio'r term 'dioddefwr a goroeswr' wrth gyfeirio at unigolyn sy'n dynodi ei fod wedi cael ei gam-drin yn rhywiol. Fodd bynnag, mae'r term 'achwynydd' yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun gwrandawiadau cyhoeddus yr Ymchwiliad wrth gyfeirio at ddioddefwr neu oroeswr pan nad yw ffaith y cam-drin wedi'i sefydlu'n ffurfiol.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nifer o adroddiadau gan ddioddefwyr a goroeswyr. Mae'r adroddiadau hyn wedi cael eu gwneud yn ddiennw neu mae enwau ffug wedi cael eu defnyddio i sicrhau nad yw a goroeswyr yn gallu cael eu hadnabod.

Mae cam-drin rhywiol yn peri i chi amau eich bod o unrhyw werth – roeddwn i'n meddwl y byddai'r byd yn well hebda i

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

Mae cam-drin rhywiol pan yn blentyn yn difetha eich bywyd.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

Mae'r cam-drin rhywiol y dioddefais pan yn naw oed wedi effeithio ar fy holl berthnasau gyda phobl eraill: teulu, gwaith, rhamantaidd, cymdeithasol a fy mherthynas gyda fi fy hun. Mae ei effaith wedi bod, ac o hyd, yn drychinebus.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

Pan oeddwn i'n blentyn, roeddwn i eisiau cariad yn unig, ac i wneud pethau arferol fel gwisgo lan, pobi cacennau a bod yn ddiniwed. Ni ddylai plentyn ofni byw.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

Cynnwys

1	Cyflwyniad	2
2	Trosolwg o'r Ymchwiliad	4
2.1	Y Prosiect Gwirionedd	4
2.2	Ymchwiliadau a gwrandawladau cyhoeddus	8
2.3	Ymchwil	9
2.4	Seminarau ac ymgysylltiad	10
2.5	Adolygiad o adroddiadau ac archwiliadau blaenorol	13
2.6	Operation Hydrant	14
3	Natur ac effeithiau cam-drin plant yn rhywiol	18
3.1	Beth yw cam-drin plant yn rhywiol?	18
3.2	Effeithiau cam-drin plant yn rhywiol	22
3.3	Graddfa cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr	30
4	Ymatebion sefydliadau i gam-drin plant yn rhywiol	36
4.1	Astudiaeth achos i raglenni mudo plant (rhan o'r archwiliad 'Plant tu allan i'r Deyrnas Unedig')	37
4.2	Cambridge House, Knowl View a Rochdale ('Rochdale')	43
4.3	Astudiaeth achos i Gynulleidfa Benedictaidd Lloegr (rhan o archwiliad yr 'Eglwys Gatholig Rufeinig')	46
4.4	Astudiaeth achos i Esgobaeth Chichester (rhan o archwiliad yr 'Eglwys Anglicanaidd')	48
5	Ymarferion presennol i daclo cam-drin plant yn rhywiol	52
5.1	Y rhyngrwyd	52
5.2	Cyfiawnder troseddol	56
5.3	Cyfiawnder sifil	60
5.4	Y sector iechyd	62
6	Themâu sy'n ymddangos	68
6.1	Diwylliannol	68
6.2	Proffesiynol a gwleidyddoll	71
6.3	Strwythurol	74
6.4	Ariannol	78

7	Rhestr o argymhellion	84
8	Rhaglen Waith yr Ymchwiliad ar gyfer 2018-19	90
8.1	Gwrandawriadau cyhoeddus	90
8.2	Ymchwil a seminarau	91
8.3	Y Truth Project	91
	Atodiadau	93
	Atodiad A – Diweddariad ar ymchwiliadau	94
	Atodiad B – Diweddariad ar brosiectau ymchwil	101
	Atodiadau	105
	Atodiad 1: Rhaglenni mudo plant: Adroddiad astudiaeth achos	106
	Atodiad 2: Cambridge House, Knowl View a Rochdale: Adroddiad ymchwiliad	107

Pennod 1

Cyflwyniad

1 Cyflwyniad

Sefydlwyd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol ('yr Ymchwiliad') yn ymchwiliad statudol annibynnol dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005 ar 12 Mawrth 2015 gan yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd. Amlinellir bwriad a chwmpas yr Ymchwiliad yn ei Amodau Gorchwyl,¹ sy'n nodi ei fod:

i ystyried helaethder methiant sefydliadau'r Wladwriaeth a sefydliadau nad sy'n ymwneud â'r Wladwriaeth yn eu dyletswydd i warchod plant rhag cam-drin rhywiol ac ecsbloetiaeth; i ystyried i ba raddau yr ymdriniwyd â'r diffygion ers hynny; i adnabod camau gweithredu pellach i fynd i'r afael ag unrhyw fethiannau sydd wedi'u hadnabod; i ystyried y camau y mae'n rhaid i sefydliadau'r Wladwriaeth a sefydliadau nad sy'n ymwneud â'r Wladwriaeth eu cymryd i warchod plant rhag cam-drin tebyg yn y dyfodol; a chyhoeddi adroddiad gydag unrhyw argymhellion.

Cadeirydd yr Ymchwiliad yw'r Athro Alexis Jay OBE ac mae yna dri Phanel o aelodau: yr Athro Syr Malcolm Evans KCMG OBE, Ivor Frank a Drusilla Sharpling CBE.

Mae Amodau Gorchwyl yr Ymchwiliad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gyhoeddi adroddiad interim erbyn diwedd 2018. Mae cyhoeddi'r adroddiad hwn yn cyflawni'r dyletswydd hwnnw.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut mae'r Ymchwiliad wedi ymgymryd â'i waith (Pennod 2) ac yn disgrifio natur ac effaith cam-drin plant yn rhywiol (Pennod 3). Mae'n darparu diweddariad ar y gwrandawladau cyhoeddus a gynhaliwyd gan yr Ymchwiliad hyd yn hyn (Pennod 4) ac ar waith yr Ymchwiliad, gan ystyried yr ymatebion cyfredol i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol (Pennod 5). Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried yr hyn mae'r Ymchwiliad wedi dysgu hyd yn hyn, o ran pedair thema strategol allweddol (Pennod 6) ac yn gorffen drwy nodi rhaglen waith yr Ymchwiliad dros y flwyddyn sydd i ddod (Pennod 8).

Mae argymhellion i newid yn cael eu gwneud drwy gydol yr adroddiad hwn – maen nhw hefyd yn cael eu rhestru yn (Pennod 7) er hwylustod cyfeirio. Mae pob argymhelliad yn cyfeirio at sefydliad. Mae'r Ymchwiliad yn disgwyl i sefydliadau weithredu ar eu hargymhellion ac – er budd tryloywder a gonestrwydd – yn gofyn i bob sefydliad gyhoeddi manylion o'r camau gweithredu y byddant yn eu cymryd mewn ymateb i'r argymhelliad, gan gynnwys yr amserlen. Dylai hynny gael ei wneud o fewn chwech mis o'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi, oni bai bod yr argymhelliad yn nodi fel arall.

¹ *Terms of Reference*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/terms-reference

Pennod 2

Trosolwg o'r Ymchwiliad

2 Trosolwg o'r Ymchwiliad

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn disgrifio sut mae'r Ymchwiliad wedi cynnal ei waith. Mae'r sylwadau a'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn wybodus o holl agweddau gwaith yr Ymchwiliad.

Panel Ymgynghorol y Dioddefwyr a'r Goroeswyr

Sefydlodd yr Ymchwiliad Banel Ymgynghorol y Dioddefwyr a'r Goroeswyr (VSCP) i ddarparu cymorth ac argymhellion ar agweddau o'i waith.

Mae aelodau'r VCSP yn cynnwys May Baxter-Thornton, Sheila Coates MBE, Lucy Duckworth, Emma Lewis, Fay Maxted OBE, Peter Saunders FRSA, Chris Tuck MAAT ACMA a Daniel Wolstencroft.

2.1 Y Prosiect Gwirionedd

Mae Cylch Gorchwyl yr Ymchwiliad² yn eu ofyn i:

ystyried profiad goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol; gan eu darparu â chyfleoedd iddynt fod yn dystion i'r Ymchwiliad, gan ystyried yr angen i ddarparu cefnogaeth briodol wrth wneud hynny.

Sefydlodd yr Ymchwiliad y Prosiect Gwirionedd fel un o'r ffyrdd o gyflawni'r rhwymedigaeth hon. Mae'n darparu dioddefwyr a goroeswyr o gam-drin plant yn rhywiol â chyfle i ddatgelu'r cam-drin a ddioddefon nhw a chyfrannu at waith yr Ymchwiliad. Mae'r Prosiect Gwirionedd ar agor i unrhyw ddioddefwr neu oroeswr o gam-drin plant yn rhywiol sydd wedi cael ei siomi gan sefydliad yn Lloegr a Chymru. Mae mentrau fel y Prosiect Gwirionedd wedi cael eu sefydlu o'r blaen – er enghraifft, gwnaethant gyfranogiad pwysig i ymchwiliadau cam-drin plant yn Awstralia³ a Gogledd Iwerddon⁴.

Gall dioddefwyr a goroeswyr ddewis sut ydynt yn dweud wrth yr Ymchwiliad am y cam-drin rhywiol a ddioddefon nhw (er enghraifft, yn bersonol neu o bell). Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi penderfynu mynychu sesiwn preifat yn bersonol, tra bod eraill wedi cyflwyno adroddiad ysgrifenedig. Beth bynnag fo'r ffordd y maen nhw'n ei chymryd, yr unigolion sy'n penderfynu beth i'w ddweud wrth yr Ymchwiliad. Nid ydynt yn cael eu cwestiynau neu eu herio, ac nid yw'r wybodaeth sy'n cael ei darparu yn cael ei gwirio neu ei phrofi.

Pan fo dioddefwyr a goroeswyr wedi cytuno i'w hadroddiadau gael eu defnyddio gan yr Ymchwiliad at bwrpas ymchwil, mae'r Ymchwiliad yn eu dadansoddi i ddod o hyd i themâu a phatrymau i ffurfio'r gwaith a dod at ganlyniadau ac argymhellion.

² *Terms of Reference*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/terms-reference

³ *Final report*. Royal Commission into Institutional Responses to Child Sexual Abuse (2017) www.childabuseroyalcommission.gov.au/our-inquiry

⁴ *Report of the Historical Institutional Abuse Inquiry*. Inquiry into Historical Institutional Abuse (2017) www.hiainquiry.org/sites/hiainquiry/files/media-files/C1%20-%20Cover%20%26%20Contents%20Page.pdf

Er mwyn sicrhau bod yr Ymchwiliad yn gallu cadw gwybodaeth dioddefwyr a goroeswyr yn gyfrinachol, mae yna Orchymyn Cyfyngu yn ei le i warchod anhysbysrwydd yr unigolion sy'n ymwneud â'r Prosiect Gwirionedd a'r profiadau yr ydynt yn eu rhannu. Tra bod yr Ymchwiliad yn cadw'r wybodaeth hon yn gyfrinachol, mae ei Amodau Gorchwyl yn gofyn iddo gyfeirio holl honiadau cam-drin plant at yr heddlu. Ac eithrio o dan yr amgylchiadau hynny, ni fydd gwybodaeth dioeddefwyr a goroeswyr yn cael ei rhannu oni bai bod yr llys yn ein gorchymyn i wneud hynny.

Dioeddefwyr a goroeswyr sydd wedi cymryd rhan yn y Prosiect Gwirionedd.

- Mae **1,040** o adroddiadau o gam-drin plant yn rhywiol wedi cael eu rhannu â'r Prosiect Gwirionedd hyd yn hyn
- Mae **787** o sesiynau preifat wedi cael eu cynnal
- Mae **253** o adroddiadau ysgrifennedig wedi cael eu derbyn

Cytunodd **520** o ddioddefwyr a goroeswyr i'r wybodaeth a ddarparwyd gael ei defnyddio am resymau ymchwil rhwng mis Mehefin 2016 a mis Rhagfyr 2017:


- Roedd **53%** o gyfranogwyr yn fenywaidd, **46%** yn wrywaidd ac 1% wedi nodi 'arall'
- Roedd y cyfranogwr cyfartalog yn **52** oed – roedd y cyfranogwr ieuengaf yn 21 oed a'r hynaf yn **95** oed
- Roedd 94% ohonynt wedi cael eu cam-drin yn rhywiol gan ddynion
- Dywedodd tua **chwech ym mhob deg** eu bod nhw wedi cael eu cam-drin am y tro cyntaf pan oeddent yn 4-11 oed (61%) a tua chwarter pan oeddent yn 12-15 oed (24%)
- Roedd dros draean (36%) wedi adrodd am achosion lluosog o gam-drin (sy'n cynnwys mwy nag un troseddwr neu sefydliad)

Mae'r Ymchwiliad yn cymryd ymagwedd a hysbyswyd gan drawma tuag at ei waith. Yn y Prosiect Gwirionedd, golyga hyn fod yr Ymchwiliad yn gweithio gyda phob dioeddefwr a goroeswr cyn ei sesiwn preifat i:


- sicrhau ei fod yn deall beth i ddisgwyl er mwyn iddo wneud penderfyniad gwybodus am gymryd rhan yn y Prosiect Gwirionedd
- ddarparu cymorth emosiynol a cheisio sicrhau ei fod yn teimlo'n ddiogel drwy gydol y broses
- sicrhau bod profiad y diwrnod yn gefnogol – mae nifer yn penderfynu dod â rhywun gyda nhw
- sicrhau bod cymorth emosiynol a chwnsela ar gael ar y diwrnod (mae'r Ymchwiliad hefyd yn cysylltu â dioeddefwyr a goroeswyr ar ôl y sesiwn i ofyn sut maent yn teimlo, i wirio eu lles ac egluro sut allent gael mynediad at gefnogaeth yn eu hardal leol), a

- ofyn a hoffai i'r Ymchwiliad ddefnyddio ei wybodaeth mewn gwaith arall, gan gynnwys ymchwil a datblygu argymhellion i newid.

Siart 1 Derbyniad y cymorth emosiynol a chwsela gan gyfranogwyr y Prosiect Gwirionedd (Mehefin 2017 - Ionawr 2018)



Siart 2 Ymateb gan gyfranogwyr y Prosiect Gwirionedd ar ddefnyddioldeb y cymorth emosiynol a chwsela (Mehefin 2017 - Ionawr 2018)



Ar ôl eu sesiynau, rhoddir cyfle i ddioeddefwyr a goroeswyr adael sylwad gyda'r Ymchwiliad am eu cyfranogiad yn y Prosiect Gwirionedd, neu faterion y maent yn dymuno eu hamlygu yn yr Ymchwiliad. Gelwir y rhain yn negeseuon 'Dweud eich dweud' ac mae nifer ohonynt wedi cael eu cynnyws yn yr adroddiad.

Adborth dioddefwyr a goroeswyr ar y Prosiect Gwirionedd

Roedd y cymorth a roddwyd i'm helpu i deimlo'n gyfforddus a mewn rheolaeth yn rhagorol; nid oedd unrhyw beth yn ormod o drafferth ac roedd fy lles yn hollbwysig drwy'r amser. Roeddwn i'n teimlo fy mod yn cael gwrandawriad, fy nghlywed, a bod fy marn a stori yn cael eu gwerthfawrogi ar adegau. Dysgais bethau amdanaf fy hun mewn gwirionedd hefyd. Roedd hon yn broses ystyrlon ac rwyf mor falch y gwnes i hyn.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

Y peth gorau rydw i wedi'i wneud. Rhoddodd lais i mi a chaniatáu i mi sôn am fy mhrofiad mewn amgylchedd diogel a chydymdeimladol iawn. Ymddiriedwch yn y broses – does dim byd i'w ofni. Byddwch chi YN cael eich credu ac mae eich stori'n bwysig. Does dim modd dysgu unrhyw wersi os nad ydyn ni'n dweud wrthyn nhw lle aeth pethau o'u lle.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

Roeddwn i'n teimlo'n bryderus am ddweud wrth sefydliad am fy nghamdrin mewn sefydliad, ond ar ôl hynny, roeddwn i'n teimlo'n well am ddweud wrth sefydliad, gan fod yr un hwn wedi gwrandawro.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

Ers fy nghyfarfod gyda IICSA, roeddwn i'n teimlo rhyddhad mawr. Roedd y bobl yn garedig ac yn amyneddgar a theimlais fod rhywun yn credu fy mhrofiadau o'r diwedd. Ar ôl fy nghyfarfod, teimlais yn iawn ond diwrnod wedyn, teimlais yn ddris a theimlais fy mod i wedi colli fy nghryfder i barhau i wynebu pobl, gan feddwl am werth dadlwytho fy ngorffennol i ddiethriaid ac ystyried pa fantais oedd i ddweud wrth bobl. Pum diwrnod yn hwyrach, sylweddolais fy mod i wedi gwneud y peth cywir. Byddai rhannu fy mhrofiadau yn helpu plant eraill.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

Mae'r Ymchwiliad yn cyhoeddi amryw o adroddiadau am y Prosiect Gwirionedd. Hyd yn hyn, mae e wedi cyhoeddi crynodeb diennw o adroddiadau personol am gamdrin plant yn rhywiol i helpu i godi ymwybyddiaeth am y pwnc a'i effeithiau.⁵ Mae e hefyd wedi cyhoeddi adroddiad⁶ a fideo⁷ am ddadansoddiad cyntaf data'r Prosiect Gwirionedd i ddangos graddfa, cwmpas a natur cam-drin plant yn rhywiol, yn ôl cyfranogwyr y Prosiect Gwirionedd.

Mae Pennod 3 yr adroddiad hwn yn amlinellu'r hyn mae'r Ymchwiliad wedi'i ddysgu am gamdrin plant yn rhywiol a'i effaith ar ddioddefwyr a goroeswyr.

⁵ Truth Project: Experiences shared – victims and survivors speak out. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2016) www.iicsa.org.uk/key-documents/923/view/truth-project-experiences-shared.pdf

⁶ Victim and survivor voices from the Truth Project. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/3304/view/Victim%20and%20survivor%20voices%20from%20the%20Truth%20Project.pdf

⁷ Videos. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/videos

2.2 Ymchwiliadau a gwrandawiadau cyhoeddus

Hyd yn hyn, mae'r Ymchwiliad wedi sefydlu 13 ymchwiliad i archwilio arweiniad sefydliadau yn Lloegr a Chymru ac i ystyried a ydynt wedi methu eu dyletswydd i warchod plant rhag cam-drin rhywiol.

Cynhelir pob ymchwiliad drwy ddefnyddio amryw o ddulliau. Mae'r rhain yn cynnwys defnydd o bwerau statudol i gael tystiolaeth berthnasol, megis casglu datganiadau tystion ac adolygu cofnodion swyddogol. Defnyddir papurau materion a seminarau i gasglu gwybodaeth a safbwyntiau, ac i gynorthwyo wrth adnabod pwyntiau i'w hystyried ymhellach. Mae ymchwiliadau'n gorffen gyda gwrandawriad cyhoeddus ac adroddiad sy'n amlinellu darganfyddiadau'r Ymchwiliad ac unrhyw argymhellion i newid.

Gwrandawiadau cyhoeddus a gynhelir gan yr Ymchwiliad

- Rhaglenni mudo plant (astudiaeth achos yn ymchwiliad 'Plant y tu allan i'r DU') (27 Chwefror – 10 Mawrth 2017 a 10–21 Gorffennaf 2017)⁸
- Ymchwiliad 'Cambridge House, Knowl View a Rochdale' (9-27 Hydref 2017)⁹
- Cynulleidfa Benedictine Lloegr (astudiaeth achos yn ymchwiliad yr 'Eglwys Gatholig Rufeinig')¹⁰
- Gwrandawriad rhagarweiniol ar yr ymchwiliad y 'Rhynggrwyd a cham-drin plant yn rhywiol' (22-26 Ionawr 2018)¹¹
- Esgobaeth Chichester (astudiaeth achos yn archwiliad yr 'Eglwys Anglicanaidd') (5-23 Mawrth 2018)¹²

Mae cyfranogwyr craidd yn cael eu dynodi gan y Cadeirydd os yw hi'n ystyried bod ganddynt ddiddordeb penodol yn y materion dan ymchwiliad gan yr Ymchwiliad. Fel arfer maen nhw'n gweld dogfennau cyn iddynt gael eu defnyddio mewn gwrandawriad ac yn gallu awgrymu trywyddau ymholiad. Gall cyfranogwyr craidd ymgeisio am gyllid gan yr Ymchwiliad i dalu am gostau cyfreithiol ac ati.

Gofynna'r Ymchwiliad i dystion ddarparu datganiad os oes ganddynt dystiolaeth sy'n berthnasol i ymchwiliad penodol ac yn gallu helpu'r Ymchwiliad gyflawni ei Amodau Gorchwyl – er enghraifft, pe bai nhw wedi cael eu hesgeuluso gan, neu wedi gweithio mewn, sefydliad dan ymchwiliad. Mae tystion yn rhoi tystiolaeth yn bersonol, oni bai bod amgylchiadau eithriadol sy'n golygu bod rhaid iddynt roi tystiolaeth yn ddiennw (er enghraifft,

⁸ *Protection of children outside the United Kingdom: Hearings*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/the-protection-of-children-overseas?tab=hearing

⁹ *Cambridge House, Knowl View and Rochdale: Hearings*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/sexual-abuse-of-children-in-institutions-supervised-by-rochdale-borough-council?tab=hearing

¹⁰ *Child sexual abuse in the Roman Catholic Church: Hearings*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/investigation-into-failings-by-the-catholic-church?tab=hearing

¹¹ *The internet and child sexual abuse: Hearings*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/child-sexual-abuse-facilitated-by-the-internet?tab=hearing

¹² *Child sexual abuse in the Anglican Church: Hearings*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/investigation-into-failings-by-the-anglican-church?tab=hearing

i warchod eu hunaniaeth tra bod yr heddlu'n ymchwilio'r cam-drin rhywiol a ddiodefwyd). Gall rhai tystion rhoi tystiolaeth drwy linc fideo (er enghraifft, os ydynt yn eiddil neu dramor) neu gael eu tystiolaeth wedi'i darllen ar eu rhan.

Gallddarparu tystiolaeth mewn gwrandawriad cyhoeddus fod yn brofiad brawychus ac anodd, os yw'n cael ei wneud yn ddiennw neu beidio. Am y rheswm hwn, mae'r Ymchwiliad yn sicrhau bod cefnogaeth emosiynol ar gael i dystion a chyfranogwyr craidd cyn, ac ar ôl, iddynt roi tystiolaeth. Hyd yn hyn, mae'r Ymchwiliad wedi darparu cefnogaeth i 96 o dystion a chyfranogwyr craidd (gan eithrio cefnogaeth sydd wedi cael ei darparu yn ystod gwrandawriadau cyhoeddus). Mae'r Ymchwiliad yn ddiolchgar i dystion a chyfranogwyr craidd sydd wedi helpu'r Ymchwiliad yn ei waith hyd yn hyn.

2.3 Ymchwil

Mae rhaglen ymchwil yr Ymchwiliad yn cyfuno'r swm sylweddol o dystiolaeth ymchwil sy'n bodoli am gam-drin plant yn rhywiol yn ogystal â chynnal ymchwil sylfaenol mewn meysydd allweddol a nodwyd gan yr Ymchwiliad.

Ymchwil sydd wedi'i gyhoeddi gan yr Ymchwiliad

*'Mae'r hyn y gellir ei ddysgu o awdurdodaethau eraill ynghylch atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol'*¹³

- Yn crynhoi'r dystiolaeth ddiweddaraf ar sut mae awdurdodaethau y tu allan i Gymru a Lloegr yn atal, adnabod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.
- Yn archwilio 88 darn o ymchwil sy'n bodoli eisoes.

*'Effeithiau cam-drin plant yn rhywiol'*¹⁴

- Yn ystyried yr effeithiau lluosog o gam-drin plant yn rhywiol ar ddiodefwyd yr goroeswyr.
- Yn archwilio 205 darn o ymchwil sy'n bodoli eisoes.

*'Cam-drin plant yn rhywiol o fewn yr Eglwysi Catholig ac Anglicanaidd'*¹⁵

- Yn ystyried natur a graddfa cam-drin plant yn rhywiol o fewn y ddwy eglwys, a pha effeithiau a allai wedi cyfrannu at y cam-drin rhywiol yn digwydd.
- Yn archwilio 160 darn o ymchwil sy'n bodoli eisoes.

¹³ *What can be learnt from other jurisdictions about preventing and responding to child sexual abuse: a rapid evidence assessment.* University of Central Lancashire for the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/1370/view/Learning%20from%20best%20practice%20overseas%20-%20Rapid%20Evidence%20Assessment%20-%20Full%20Report%20%28English%29.pdf

¹⁴ *The impacts of child sexual abuse: a rapid evidence assessment.* Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/1534/view/IICSA%20Impacts%20of%20Child%20Sexual%20Abuse%20Rapid%20Evidence%20Assessment%20Full%20Report%20%28English%29.pdf

¹⁵ *Child sexual abuse within the Catholic and Anglican Churches: a rapid evidence assessment.* Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/3361/view/IICSA%20REA%20Child%20sexual%20abuse%20in%20the%20Anglican%20and%20Catholic%20Churches%20Nov%202017.pdf

Y we a cham-drin plant yn rhywiol: 'Ymddygiad a nodweddion throreddwyr cam-drin ac ecploetio plant yn rhywiol wedi'i hwyluso ar-lein',¹⁶ 'Nodweddion a gwendidau dioddefwyr cam-drin ac ecploetio plant yn rhywiol wedi'i hwyluso ar-lein',¹⁷ a 'Meintioli cam-drin plant yn rhywiol wedi'i hwyluso ar-lein'¹⁸

- Yn ystyried ymddygiad a nodweddion cyflawnwyr ar-lein, agoredrwydd i niwed a nodweddion dioddefwyr ar-lein, a natur ac ehanger cam-drin plant yn rhywiol ar-lein.
- Yn archwilio 323 darn o ymchwil sy'n bodoli eisoes.

'Gwyrriad, gwrthodiad ac anghrediniaeth: trafodaethau cymdeithasol a gwleidyddol am gam-drin plant yn rhywiol a'u dylanwad ar ymatebion sefydliadol'¹⁹

- Yn ystyried sut mae dadleuon o'r 1940au hyd heddiw wedi ffurfio deallusrwydd y gymdeithas o gamdrin plant yn rhywiol, ymarferion i warchod plant ac ymatebion sefydliadau.
- Yn archwilio 340 darn o ymchwil sy'n bodoli eisoes.

'Cam-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau carcharol'²⁰

- Yn ystyried graddfa cam-drin plant yn rhywiol o fewn y sefydliad diogel ieuencid ac ymatebion sefydliadau i'r cam-drin rhywiol hwn.
- Yn archwilio 237 darn o ymchwil sy'n bodoli eisoes.

Mae Atodiad B yn darparu trosolwg o ymchwil a wnaed gan yr Ymchwiliad.

2.4 Seminarau ac ymgysylltiad

Mae gan yr Ymchwiliad nifer o wahanol ddulliau i ymgysylltu â phobl sydd â diddordeb yn ei waith. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal seminarau ar faterion allweddol a gweithio gyda'r Fforwm Dioddefwyr a Goroeswyr.

¹⁶ *Behaviour and characteristics of perpetrators of online-facilitated child sexual abuse and exploitation: a rapid evidence assessment.* NatCen Social Research for the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/3720/view/Rapid%20Evidence%20Assessment%20Behaviour%20and%20Characteristics%20of%20Perpetrators%20of%20Online-facilitated%20Child%20Sexual%20Abuse%20and%20Exploitation.pdf

¹⁷ *Characteristics and vulnerabilities of victims of online-facilitated child sexual abuse and exploitation: a rapid evidence assessment.* Lancaster University for the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/3719/view/Rapid%20Evidence%20Assessment%20Characteristics%20and%20Vulnerabilities%20of%20Victims%20of%20Online%20Facilitated%20Child%20Sexual%20Abuse%20And%20Exploitation.pdf

¹⁸ *Quantifying online facilitated child sexual abuse.* University of Huddersfield for the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/3722/view/Rapid%20Evidence%20Assessment%20Quantifying%20The%20Extent%20Of%20Online%20Facilitated%20Child%20Sexual%20Abuse.pdf

¹⁹ *Deflection, denial and disbelief: social and political discourses about child sexual abuse and their influence on institutional responses.* Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) [www.iicsa.org.uk/key-documents/3848/view/Social%20and%20political%20discourses%20about%20child%20sexual%20abuse%20and%20their%20influence%20on%20institutional%20responses%20\(full%20report\).pdf](http://www.iicsa.org.uk/key-documents/3848/view/Social%20and%20political%20discourses%20about%20child%20sexual%20abuse%20and%20their%20influence%20on%20institutional%20responses%20(full%20report).pdf)

²⁰ *Child sexual abuse in custodial institutions: a rapid evidence assessment.* Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/5197/view/Child%20sexual%20abuse%20in%20custodial%20institutions%20REA%20-%20Full%20report.pdf

Seminarau

Mae'r Ymchwiliad yn cynnal seminarau i gasglu gwybodaeth a safbwyntiau am faterion pwysig ynghylch cam-drin plant yn rhywiol. Mae'n gwahodd unigolion a sefydliadau ag arbenigedd ac ystod o safbwyntiau ar y materion dan ystyriaeth yn y seminar i gyfranogi a chyfrannu at drafodaeth gyhoeddus. Mae myn ychwy'r wedi cynnwys aelodau o'r Fforwm Dioddefwyr a Goroeswyr, gweithwyr proffesiynol, gwneuthurwyr polisiâu ac academyddion. Mae seminarau yn cael eu mynychu gan y Cadeirydd a'r Panel, maen nhw'n cael eu cynnal mewn man cyhoeddus ac mae ffrwd fyw yn cael ei rhoi ar wefan yr Ymchwiliad.

Seminarau sydd wedi'u cynnal gan yr Ymchwiliad

- Y system cyfiawnder sifil (29-30 Tachwedd 2016)²¹
- lawndal anafiadau troseddol (21 Chwefror 2017)²²
- Atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol: dysgu o arferion gorau tramor (12 Ebrill 2017)²³
- Profiadau dioddefwyr a goroeswyr: effeithiau a gwasanaethau cefnogi (4-5 Gorffennaf 2017)²⁴
- Y sector iechyd (26-27 Medi 2017)²⁵
- Y system cyfiawnder troseddol (21-22 Tachwedd 2017)²⁶
- Naratifau cymdeithasol a gwleidyddol am gam-drin plant yn rhywiol (26 Chwefror 2018)²⁷

Y Fforwm Dioddefwyr a Goroeswyr

Sefydlwyd y Fforwm Dioddefwyr a Goroeswyr gan yr Ymchwiliad i wneud hi'n haws i ddiodefwyr a goroeswyr ymgysylltu â, bod yn rhan o, a chyfrannu at waith yr Ymchwiliad.²⁸ Mae e hefyd yn rhoi cyfle i aelodau'r Fforwm gwrdd ag aelodau eraill. Mae dros 270 o ddiodefwyr a goroeswyr wedi ymuno â'r Fforwm, ac mae e ar agor i bob diodefwyr a goroeswr o gam-drin plant yn rhywiol.

²¹ *The civil justice system*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/research-seminars/civil-justice-system

²² *Criminal injuries compensation*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/research-seminars/criminal-injuries-compensation

²³ *Preventing and responding to child sexual abuse: learning from best practice overseas*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/research-seminars/preventing-and-responding-child-sexual-abuse-learning-best-practice-overseas

²⁴ *Victims and survivors' experiences: impacts, support services and redress*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/research-seminars/victims-and-survivors%E2%80%99-experiences-impacts-support-services-and-redress

²⁵ *The health sector*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/research-seminars/health-sector

²⁶ *The criminal justice system*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/research-seminars/criminal-justice-system

²⁷ *Social and political narratives about child sexual abuse*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/research-seminars/social-and-political-narratives-about-child-sexual-abuse

²⁸ *The Victims and Survivors' Forum*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/victims-and-survivors/attend-forum

Mae aelodau'r Fforwm wedi ymgysylltu â gwaith yr Ymchwiliad mewn ffyrdd gwahanol. Maen nhw wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd y Fforwm a thrafodaethau grwpiau ffocws am feysydd penodol, gan gynnwys yr effeithiau ar gam-drin plant yn rhywiol, a chael mynediad at a gwella cefnogaeth i ddiodefwyr a goroeswyr. Maen nhw hefyd wedi cymryd rhan yn seminarau'r Ymchwiliad ar brofiadau diodefwyr a goroeswyr, a'r system cyfiawnder sifil. Mae canlyniadau'r trafodaethau hyn wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn.

Y Fforwm Dioddefwyr a Goroeswyr

- Mae dros 270 o ddiodefwyr a goroeswyr wedi ymuno â'r Fforwm
- Mae 4 cyfarfod Fforwm wedi cael eu cynnal yn Llundain (5 Awst 2016 a 15 Mawrth 2017), Caerdydd (24 Tachwedd 2016) a Manceinion (23 Mawrth 2017)
- Mae 8 grwp trafod y Fforwm wedi cael eu cynnal yn Lerpwl (17 Awst 2017), Birmingham (dau gyfarfod ar 24 Awst 2017), Caerdydd (7 Medi 2017), Llundain (dau gyfarfod ar 14 Medi 2017), Exeter (4 Hydref 2017) a Darlington (11 Hydref 2017)

Mae aelodau'r Fforwm hefyd wedi darparu adborth a chynghor ar ddyluniad a datblygiad gwefan yr Ymchwiliad, a'r hyn y gall yr Ymchwiliad ei wneud i godi ymwybyddiaeth o'r Prosiect Gwirionedd. Maen nhw wedi cymryd rhan mewn fideos a chyfweiliadau'r cyfryngau.

Mae'r Ymchwiliad hefyd wedi ymgynghori ag aelodau'r Fforwm am eu safbwyntiau ar sut all y Fforwm ddatblygu yn y dyfodol. Mae'n ddiolchgar i aelodau'r Fforwm am eu cyfranogiad at ei waith hyd yn hyn.

Ymgynghoriad ar-lein

Rhwng mis Mehefin a mis Medi 2017, cynhaliodd yr Ymchwiliad ymgynghoriad ar-lein a ofynnodd i ddiodefwyr a goroeswyr a'u perthnasau a ffrindiau i eglurio sut maen nhw wedi cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol. Derbyniodd yr Ymchwiliad 197 o ymatebion.

Gofynnodd yr ymgynghoriad ar-lein am ragor o wybodaeth am sut mae cam-drin plant yn rhywiol wedi effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol, perthnasau rhyngpersonol, addysg a phrofiadau bywyd hwyrach y diodefwyr a goroeswyr. Hefyd, gofynnodd i ddiodefwyr a goroeswyr os oeddent wedi ceisio am gefnogaeth, os oeddent wedi gallu cael mynediad at y gefnogaeth gywir a beth ellir ei wneud i wella gwasanaethau cefnogi.

Cafodd y cwestiynau a ofynwyd yn yr ymgynghoriad hwn ar-leinhefyd eu harchwilio'n fanylach gan Fforwm y Dioddefwyr a Goroeswyr mewn cyfres o gyfarfodydd dilynol. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad hwn a chyfarfodydd y Fforwm wedi cyfrannu at yr adroddiad hwn – yn enwedig Pennod 3.

Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Hyd yn hyn, mae'r Ymchwiliad wedi cwrdd â 80 o blant a phobl ifanc rhwng 9 a 25 oed i drafod eu profiadau a safbwyntiau ar sut all y gymdeithas a sefydliadau eu gwarchod rhag cam-drin rhywiol.

Mae'r plant a phobl ifanc hyn wedi trafod nifer o faterion â'r Ymchwiliad, gan gynnwys pwysigrwydd cadw'n ddiogel ar-lein (sydd wedi cael ei godi'n aml gyda'r Ymchwiliad ac yn cael ei ystyried ymhellach yn adran 'y we' yr adroddiad hwn), a phwysigrwydd addysg rhyw a pherthnasau effeithiol yn yr ysgol. Bydd yr Ymchwiliad yn parhau i drafod i blant a phobl ifanc wrth i'w waith barhau.

2.5 Adolygiad o adroddiadau ac archwiliadau blaenorol

Mae Amodau Gorchwyl yr Ymchwiliad yn eu ofyn i:

ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael o'r amryw o adolygiadau cyhoeddus ac anghyhoeddus, achosion llys, ac ymchwiliadau sydd wedi'u cwblhau hyd yn hyn.

O ganlyniad, mae'r Ymchwiliad yn ystyried yr hyn a all gael ei ddysgu o'r amryw o adolygiadau ac ymchwiliadau sydd wedi'i ragflaenu. Mae rhan o'r gwaith hwn wedi cynnwys adolygu argymhellion nifer o adroddiadau cyhoeddus blaenorol i gam-drin plant yn rhywiol i adnabod a oes materion cyson yn codi a ddylai fod yn sail i waith yr Ymchwiliad. I gyd, mae 211 o adolygiadau ac adroddiadau – sy'n cynnwys 3,004 o argymhellion – wedi cael eu dadansoddi.

Mae'r Ymchwiliad wedi trefnu'r argymhellion sy'n cael eu gwneud gan yr adroddiad i nifer o feysydd thematig (Tabl 1) i gynorthwyo'r Ymchwiliad wrth adnabod materion allweddol sydd wedi codi mewn adroddiadau ac adolygiadau blaenorol. Mae'n nodedig bod y materion sy'n codi'n amlaf hefyd wedi codi'n aml mewn rhannau arall o waith yr Ymchwiliad ac yn cael eu trafod ym Mhennod 6 yr adroddiad hwn: yr angen am newid diwylliannol ynghylch agweddau tuag at gam-drin plant yn rhywiol, y rôl o arweinyddiaeth wrth gefnogi'r newid diwylliannol hwn, a materion sy'n ymwneud ag arferion staff a recriwtio'n ddiogel.

Tabl 1 Categoriadau argymhellion yn yr adolygiad o adroddiadau ac ymchwiliadau blaenorol

Meysydd o argymhelliaid	Nifer o argymhellion
Staffio (gan gynnwys ymarfer, goruchwyliaeth a recriwtio)	826 (27.5%)
Systemau a phrosesau rheoli cofnodion (gan gynnwys rhannu gwybodaeth)	501 (16.7%)
Methiannau, materion ac agweddau wrth weithio neu gefnogi plant a/neu ddioddefwyr a goroeswyr	413 (13.7%)
Arweinyddiaeth a goruchwyliaeth	396 (13.2%)
Gweithio rhyngasiantaethol	318 (10.6%)
Argymhellion eraill (gan gynnwys polisi a gweithdrefn gweithredol, a chwynion)	550 (18.3%)

Mae'r Ymchwiliad yn ystyried a yw'r argymhellion a wnaed mewn adroddiadau ac ymchwiliadau blaenorol am gam-drin plant yn rhywiol wedi cael eu gweithredu fel rhan o ymchwiliad 'Ecsbloetiaeth plant yn rhywiol gan rwydweithiau trefnus.'


2.6 Operation Hydrant

Gofynnir i'r Ymchwiliad gyfeirio holl honiadau cam-drin plant mae'n eu derbyn at yr heddlu er mwyn iddynt gael eu harchwilio.²⁹ Mae atgyfeiriadau'n cael eu trosglwyddo i 'Operation Hydrant' – corff sy'n annibynnol o'r Ymchwiliad ac a sefydlwyd gan Gyngor Penaeithiad yr Heddlu i gyd-lynu ymchwiliadau heddlu i gam-drin plant yn rhywiol sydd ddim yn ddiweddar. Mae Operation Hydrant yn derbyn atgyfeiriadau gan amryw o sefydliadau, gan gynnwys yr Ymchwiliad, ac yn eu pasio ymlaen at yr heddlu berthnasol i'w harchwilio.

Mae Operation Hydrant wedi darparu'r Ymchwiliad â'r wybodaeth gan heddluoedd yn Lloegr a Chymru am ganlyniadau atgyfeiriadau'r Ymchwiliad rhwng mis Mawrth 2015 a mis Mehefin 2017. Dros y cyfnod hwn, cafodd 1,575 o atgyfeiriadau eu gwneud i Operation Hydrant gan yr Ymchwiliad. Gan fod Operation Hydrant yn gallu pasio'r atgyfeiriadau ymlaen at fwy nag un heddlu neu asiantaeth, mae 2,402 o atgyfeiriadau wedi cael eu gwneud i heddluoedd neu asiantaethau gorfodi'r gyfraith i gyd.

Dangosa Siart 3 y math o sefydiad lle dywedwyd bod cam-drin wedi digwydd.

Siart 3 Sefydliadau lle digwyddodd cam-drin yn atgyfeiriadau'r Ymchwiliad at Operation Hydrant



²⁹ Terms of Reference. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/terms-reference

Bydd Operation Hydrant yn pasio atgyfeiriad at yr heddlu mwyaf priodol i'w archwilio. Mewn rhai achosion, bydd yr un gwybodaeth wedi cael ei hadrodd i'r heddlu mewn ffordd wahanol.

Gall faint o wybodaeth a manylion a gynhwysir mewn atgyfeiriad amrywio'n sylweddol, ac mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar allu'r heddlu i ymchwilio ymhellach. Y dioddefwr neu oroeswr sy'n penderfynu ar ba wybodaeth i rannu â'r Ymchwiliad. Mae'r Ymchwiliad ond yn rhannu manylion dioddefwr neu oroeswr â'r heddlu os ydynt yn cytuno i'r Ymchwiliad wneud hynny, neu os yw'r Ymchwiliad yn poeni bod plentyn neu oedolyn mewn perygl o niwed difrifol.

Mae pob ymchwiliad yn wahanol ac nid yw pob un yn symud cyn belled ag erlyniad troseddol. Fodd bynnag, mae cyfran fach o atgyfeiriadau a wnaed gan yr Ymchwiliad wedi arwain at euogfarnau (Tabl 2).

Tabl 2 Canlyniad atgyfeiriadau'r Ymchwiliad at Operation Hydrant yn Lloegr a Chymru*

Canlyniad	Lloegr	Cymru
Dim camau pellach	1,749	117
Ymchwiliad parhaol	457	15
Wedi'i gyhuddo ac yn aros am dreial	14	0
Euogfarnedig	14	0
Heb euogfarn	20	0
Tramgwydd wedi digwydd tu allan i Loegr neu Gymru	3	1

* Mae heddluoedd ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith wedi hysbysu Operation Hydrant o ganlyniadau atgyfeiriadau'r Ymchwiliad. Lle bo un atgyfeiriad yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â mwy nag un unigolyn, heddlu a / neu asiantaeth gorfodi'r gyfraith, bydd mwy nag un canlyniad.

Hyd at fis Mawrth 2018, arweiniodd nifer fawr o atgyfeiriadau (78%) a wnaed gan yr Ymchwiliad at 'dim gweithred pellach' yn dilyn ystyriaeth gan yr heddlu neu asiantaeth a dderbyniodd yr atgyfeiriad. Gall y rhesymau dros hyn gynnwys diffyg tystiolaeth, methu ag olrhain neu adnabod troseddwr, troseddwr sydd wedi marw, neu ddiodeffwr nad ydynt am barhau â'r broses droseddol bellach. Mae pedwar ar ddeg o atgyfeiriadau o'r Ymchwiliad i Operation Hydrant wedi ymwneud â throseddau lle mae'r troseddwr wedi cael ei gollfarnu wedyn. Mae 14 atgyfeiriad arall o'r Ymchwiliad yn ymwneud ag ymchwiliadau lle bod unigolyn wedi cael ei gyhuddo a bellach yn disgwyl treial.

Collfarn yn dilyn atgyfeiriad Ymholiad i Operation Hydrant

Adroddod dioddefwr a goroeswr am y cam-drin rhywiol a gafodd brofiad ohono i'r Ymchwiliad. Eglurodd ei fod wedi dioddef cam-drin yn ystod ei blentyndod yn y 1960au a'r 1970au wrth fynychu addoliad gyda Thystion Jehovah yn Kingdom Hall.

Arweiniodd hyn at ymchwiliad gan yr heddlu ac arweiniodd at euogfarnu'r troseddwr o naw achos o ymosod yn anwedus ar blentyn. Cafodd y troseddwr ei ddedfrydu i 30 mis yn y carchar, a derbyniodd Hysbysiad Troseddwr Rhyw amhenodol a Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol nes rhybudd pellach.

Pennod 3

Natur ac effeithiau cam-drin plant yn rhywiol

3 Natur ac effeithiau cam-drin plant yn rhywiol

Mae adran hon yr adroddiad yn egluro'r hyn mae'r Ymchwiliad wedi dysgu am gam-drin plant yn rhywiol a'i effaith ar ddioddefwyr a goroeswyr – yn ystod eu plentyndod ac yn hwyrach yn eu bywydau. Mae hi hefyd yn amlinellu yr hyn a wyddir am pa mor eang yw cam-drin plant yn rhywiol yn Lloegr a Chymru.

3.1 Beth yw cam-drin plant yn rhywiol?

Cam-drin plant yn rhywiol

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn golygu gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gyfranogi mewn gweithgareddau rhywiol, os yw'r plentyn yn ymwybodol o beth sy'n digwydd neu beidio.³⁰

Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys cam-drin drwy dreiddiad neu weithgareddau eraill (megis mastyrbiad, cusanu, rhwbio a chyffwrdd tu allan i'r dillad). Gallant hefyd gynnwys cyswllt corfforol, a gweithgareddau heb gyswllt megis cynnwys plant wrth edrych ar, neu wrth gynhyrchu, delweddau rhywiol, gwyllo gweithgareddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol, neu baratoi plentyn i bwrpas rhyw cyn ei gam-drin gan gynnwys trwy'r rhyngwyd. Mae cam-drin plant yn rhywiol yn cynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant.

Camfanteisio'n rhywiol ar blant

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn fath o gam-drin plant yn rhywiol. Mae'n digwydd pan fod unigolyn neu grŵp yn cymryd mantais o anghydbwysedd pŵer drwy orfodi, trin neu dwyllo plentyn neu berson ifanc dan 18 oed i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol (a) yn gyfnewid am rywbeth sydd eisiau neu angen ar y dioddefwr, a/neu (b) er budd ariannol neu statws uwch y troseddwr neu hwylusydd.³¹

Gall y dioddefwr fod wedi cael ei ecsbloetio'n rhywiol, hyd yn oed oes yw'r gweithgaredd rhywiol yn ymddangos yn gydsyniol. Nid yw ecsbloetio plant wastad yn cynnwys cyswllt corfforol, gall e hefyd ddigwydd drwy ddefnydd o dechnoleg.

³⁰ *Working together to safeguard children: A guide to inter-agency working to safeguard and promote the welfare of children.* Department for Education (2015) www.gov.uk/government/publications/working-together-to-safeguard-children-2

³¹ *Child sexual exploitation: definition and guide for practitioners.* Department for Education (2017) www.gov.uk/government/publications/child-sexual-exploitation-definition-and-guide-for-practitioners

Mae adran hon yr adroddiad yn cyfuno'r hyn mae dioddefwyr a goroeswyr wedi dweud wrth y Prosiect Gwirionedd, ymgynghoriad ar-lein a chyfarfodydd y Fforwm am y cam-drin rhywiol a ddioddefon nhw yn blant. Mae hi hefyd yn cynnwys tystiolaeth a ddarparwyd i waith yr Ymchwiliad, ynghyd ag adolygiad yr Ymchwiliad o ymchwil sy'n bodoli eisoes am effeithiau cam-drin plant yn rhywiol.

Creulondeb, trais a bygythiadau

Mae dioddefwyr a goroeswyr wedi dweud wrth yr Ymchwiliad y gall cam-drin yn rhywiol, yn aml, fod yn greulon ac yn dreisiol. Gall y cam-drin rhywiol gael ei wneud gan fwy nag un hwylusydd, ac yn gallu gadael dioddefwyr â chleisiau, esgyrn wedi'u torri, llosgiadau a thoriadau, ac anafiadau mewnol.

O mor ifanc ag y gall hi gofio a hyd nes ei bod yn un ar bymtheg oed, roedd mam Suzanne a theulu ei mam yn ei cham-drin 'ym mhob ffordd y gallent feddwl amdano'. O dair neu bedair oed mae hi'n cofio cael ei churo 'mor galed na allai hi deimlo ymhellach' ac o chwech mlwydd oed, dechreuodd ei thaid ar ochr ei fam ei cham-drin yn rhywiol. 'Roedd fy mywyd yn werth dim byd o gwbl' meddai.

Crynodeb anhysbys gan ddioddefwr a goroeswr, y Truth Project

... dyna pryd digwyddodd y prif ymosodiad, lle ces i fy nghodi ger cornel y briffordd, gan ... yrrwr a gynigiodd roi lifft i mi. Ond, yn amlwg, wnaeth e ddim troi allan fel hynny, fe aeth â fi i mewn i'w dŷ a gwahoddodd e bedwar o bobl eraill yno. Felly, gyda'i dilydd, roedd naw dyn y noson honno.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Mae'r Ymchwiliad wedi clywed bod rhai troseddwr yn defnyddio trais i gymell ofn a stopio plant rhag siarad am y cam-drin rhywiol maen nhw wedi dioddef. Mae hyn yn eu galluogi i barhau i gam-drin ac yn lleihau'r perygl o gael eu dal.

Cefais fy nghuro'n aml drwy gydol fy neg mlynedd yn Fairbridge. Roedd peth ohono'n gosb, ond roedd llawer yn ffordd o sicrhau fy mod i'n gwybod fy lle ac yn gwybod pwy oedd yn rheoli'r sefyllfa.

Tyst a chyn-blentyn mudol a anfonwyd i Awstralia yn y 1950au yn chwech oed

Gall rhieni, brodyr a chwiorydd hefyd gael eu bygwth yn gorfforol neu'n emosiynol er mwyn i'r plant ofni diogelwch eu rhieni, yn ogystal â diogelwch eu hunain.

Ecsbloetio bregusrwydd

Trwy gydol y Prosiect Gwirionedd a'u hymchwiliadau, mae'r Ymchwiliad wedi gweld bod troseddwr yn gallu gwneud ymdrechion bwriadol sydd wedi'u cynllunio'n fwriadol i greu cyfleoedd i gam-drin plant yn rhywiol. Gallant dargedu plant maen nhw'n ystyried i fod yn agored i niwed, megis yr unigolion sydd wedi cael profiad o drawma emosiynol eisoes (er enghraifft, colli rhiant neu gam-drin yn y cartref), neu unigolion y gall eu hamgylchiadau wneud iddynt fod yn fwy agored i niwed (er enghraifft, plant mewn sefydliadau preswyl ac yn agos at oedolion sy'n gyfrifol dros eu diogelwch a lles).

Mae Sarah yn cofio pa mor anodd oedd y cyfnod hwn yn ei bywyd, wrth ymdopi â cholled ei mam, y diffyg cynhesrwydd a hoffter a theimlo fel ei bod yn cael ei gadael allan o'r teulu. Dechreuodd ei llysfrawd ddangos sylw a hoffter tuag ati, y mae hi bellach yn ei hadnabod fel ei fod wedi bod yn magu perthynas amhriodol, cyn ei gam-drin yn rhywiol.

Crynodeb anhysbys gan ddiodeffwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Yn edrych yn ôl, dywedodd Jessica ei fod wedi dewis hi oherwydd ei bod hi'n agored i niwed ac yn cael profiad o anhawsterau yn ei bywyd cartref, arhosodd ymhell i ffwrdd o'r merched hyderus â chefnogaeth. Cred hi bod hyfforddwy'r a rheni wedi sylwi ar arwyddion o'i ymddygiad amhriodol, ond ni chafon nhw eu codi.

Crynodeb anhysbys gan ddiodeffwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Bydd rhai plant wastad yn ddibynnol ar yr oedolion o'u cwmpas am ofal a chefnodaeth – er enghraifft, plant ag anableddau dysgu neu gorfforol. Gall troseddwy'r dargedu'r plant hyn oherwydd eu bod nhw'n credu bod eu hanableddau'n gwneud iddynt fod yn llai tebygol o adrodd am gam-drin rhywiol, neu nad ydynt yn gallu gwneud hynny.

Meithrin perthnasau amhriodol ac ennill ymddiriedaeth

Gall ymosodwyr drin a meithrin perthynas amhriodol â phlant i ennill eu hymddiriedaeth a'u cydymffurfiaeth dros amser. Gall hyn gynnwys rhoi anrhegion, darparu alcohol neu gyffuriau, neu ddefnyddio canmoliaeth i wneud iddynt deimlo'n arbennig ac yn eisiau.

Gwaith am dâl; ie, byddwn i'n cael ychydig, ie felly efallai y byddai gennym brynhawn Sadwrn ... byddai e'n cael pâr o jîns neis neu rywbeth tebyg i ni felly roedd rhywbeth fel tâl am dâl ond yna'n amlwg fe wnaeth arwain at ffafrau rhywiol, wyddoch chi. Wel, nid ffafrau rhywiol oedd e, roedd yn arw...

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Dywedwyd wrth yr Ymchwiliad bod plant yn gallu teimlo eu bod nhw'n 'ddyledus' i'r troseddwr am yr anrhegion a sylw maent wedi eu derbyn. Dywedodd rhai wrth yr Ymchwiliad eu bod nhw wedi camgymryd y cam-drin rhywiol a ddiodeffon nhw am gariad oherwydd nad oedd ganddynt fawr o brofiad o berthnasau cynnes a chariadus. Yn drychinebus, dywedodd rhai diodeffwyr a goroeswyr eu bod nhw'n meddwl mai eu bai nhw oedd y cam-drin rhywiol.

Yr hyn a oedd yn fy nharo i oedd, yn enwedig o ran peidio adrodd am gamdriniaeth, yw'r ffaith bod y goroeswr yn aml iawn yn teimlo mai'r unig un sy'n dangos gofal yn y lle cyntaf yw'r person sy'n eu cam-drin.

Cyfranogwr, seminar y system cyfiawnder troseddol

Nid plant yw'r unig dargedau i feithrin perthynas amhriodol gan droseddwy'r cam-drin plant yn rhywiol – gallant hefyd drin a chyfeillio ffrindiau agos a theulu eu diodeffwyr. Gwneir hyn i ennill eu hymddiriedaeth, a chynnal mynediad at blant a'u cyfleoedd i gam-drin.

Ta beth, aethom ni i'r ... eglwys lle roeddwn i hefyd yn mynd i'r ysgol yno. Ond daeth... offeiriad ifanc newydd i'n plwyf, ac fe wnaeth fy mam fath o'i fabwysiadu e, daeth i'n tŷ sawl gwaith, fe ddaeth i ginio dydd Sul weithiau hyd yn oed. Ddaeth e ddim ar Ddydd

Nadolig ond fe ddaeth ar Ddydd San Steffan. Ac fe drefnwyd iddo fod yn rhan o'r teulu, roedd yn ddifyr iawn, yn blentynaid iawn, iawn, wyddoch chi, roedd e'n hoffi gêm, ac yn arfer adrodd straeon ysbrydion wrthom ni, a phethau felly, ac yn chwarae o gwmpas. Math o, fel pethau diniwed. Ac roedd e'n boblogaidd iawn ... yn y plwyf, oherwydd ei fod yn waed ifanc, mae'n debyg.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Wrth drafod y cam-drin a dioddefwyd o fewn yr Ymchwiliad, mae dioddefwyr a goroeswyr wedi cyfeirio at gynllunio manwl a chamau bwriadol rhai troseddwyr er mwyn iddynt allu parhau i gam-drin – er enghraifft, creu rhesymau credadwy i fod mewn cyswllt â'r plentyn, rhag ofn i bryderon gael eu codi.

Roeddwn i'n meddwl, 'Mae hi wedi'i gwarchod ei hunan'. Mae hi eisoes wedi dweud bod angen help arna i i ymolchi a phethau eraill. Nawr, mae hynny'n eu clirio am fy nghyffwrdd i. Wel, mae'n rhywbeth efallai na fyddwn i wedi ei ddeall fel plentyn pe byddwn i wedi darllen y cofnodion hynny, ond fel oedolyn ... ac mae'r cofnodion hyn gan yr heddlu. Yna dywedodd hi fy mod i'n adrodd straeon. Doeddwn i ddim yn adrodd straeon."

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Cam-drin ymddiriedaeth ac awdurdod

Gall troseddwyr mewn swyddi neu safleoedd o ymddiriedaeth ddefnyddio eu hawdurdod i greu cyfleoedd i fod ar ben eu hunain gyda phlant a gwarchod eu hunain rhag unrhyw amheuaeth. Maen nhw'n ymwybyddol y gellir defnyddio eu henw da a'u hawdurdod i wyro a thaflu amheuaeth ar gyhuddiadau os codir pryderon.

Roedd y person yr wyf wedi'i ddisgrifio yn uchel ei barch ac yn un o hoelion wyth y sefydliad lleol – yn Brifathro, Ynad Heddwch ac yn Saer Rhydd. Roedd yn gyfrinach agored ei fod yn ymyrryd â bechgyn yn ei ofal. Ond fel Jimmy Savile, fe cuddiodd mewn golwg amlwg. Byddai unrhyw un a allai fod wedi gwrthwynebu ei ymddygiad wedi cael y dasg frawychus o herio rhywun â ffrindiau pwerus a dylanwad sylweddol. Mae pob ymyrrwr plentyn yn berson gwarthus. Ond mae rhai yn bobl gwarthus mewn safleoedd uchel.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

Roedd cam-drin rhywiol yn gyffredin yn yr ysgol breswyl roeddwn i'n ei mynychu. Bu'r brif swyddogion yn defnyddio'u hawdurdod dros y bechgyn iau (11 oed ac yn hŷn) i gam-drin bwy bynnag oedden nhw eisiau yn rhywiol. Wrth i'r brif swyddogion adael yr ysgol, bu'r athrawon yn parhau gyda beth wnaeth y bechgyn ac roedd yna gyflenwad diddiweddedd o fechgyn a oedd wedi cael eu paratoi i fodloni eu priodoldebau rhywiol. Yr athrawon a oedd yn byw yn yr ysgol gyda ni oedd y gwaethaf – roedd ganddynt astudfeydd ac ystafelloedd gwely i fwynhau eu hunain heb ofn gael eu haflonyddu.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

Mae cyfran sylweddol o'r dioddefwyr a'r rhai sy'n goroesi sy'n cymryd rhan yn y Prosiect Gwirioneddol wedi dweud eu bod wedi cael eu cam-drin gan bobl mewn sefyllfa o ymddiriedaeth. Cafodd bron un ym mhob tri (28%) eu cam-drin gan aelodau'r teulu a thua

chwarter (23%) eu bod nhw wedi cael eu cam-drin gan staff dysgu neu addysgiadol. Cafodd pumped arall (20%) eu cam-drin gan droseddwyr megis ffrindiau'r teulu neu aelodau yr oedd y gymuned yn ymddiried ynddynt, a nododd bron i un ym mhob wyth (12%) eu bod nhw wedi cael eu cam-drin gan bobl broffesiynol eraill fel ymarferwyr meddygol, gweithwyr cymeithasol a'r heddlu.

Felly, cefais chwistrelliad, a chredaf mai pigiad Largactil oedd e. Ac roeddwn i'n, fel, ei wrthod ond doedd dim dewis gen i. ... Ond mae gen i atgofion clir o ddeffro yn y nos gyda'r dyn hwn, a'r nyrs ar fy men i yn fy nhreasio. Ac rwy'n ymwybodol ei fod wedi digwydd. Ac rwy'n gwybod fy mod i wedi cael fy effeithio'n fawr gan y cyffuriau, ond rwy'n gwybod yn glir ei fod wedi digwydd.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

3.2 Effeithiau cam-drin plant yn rhywiol

Mae'r Ymchwiliad wedi clywed y gall cam-drin plant rhywiol gael canlyniadau eang a difrifol.³² I rai o'r dioddefwyr a goroeswyr, mae'r effeithiau hyn yn parhau drwy gydol eu bywydau fel oedolion. Gall cam-drin plant yn rhywiol effeithio ar eu lles seicolegol a chorfforol, teulu a pherthnasau agos, ffydd, ac addysg a gyrfa. Gall dioddefwyr a goroeswyr fod yn ddwy i bedair gwaith mwy tebygol o fod yn ddiodesdwr o gam-drin rhywiol, corfforol neu emosiynol eto yn eu bywyd.³³

Effaith ar berthnasau rhyngpersonol

Un o effeithiau mwyaf difrifol cam-drin plant yn rhywiol yw'r effaith niweidiol y gall ei chael ar y gallu i ffurfio a chynnal perthnasau agos, cariadus – yn agos iawn ac yn blatonig. Mae'n gallu effeithio ar berthnasau y dioddefwyr a goroeswyr yn ystod cyfnod y cam-drin rhywiol ac am weddill eu bywydau. Gallant ei ffeindio hi'n anodd siarad â phartneriaid, teulu a ffrindiau am y cam-drin rhywiol, gan atal eraill rhag gallu helpu a chynnig cefnogaeth. Dywedodd pedwar-deg-dau y cant o ddiodesdwr a goroeswr a gymerodd ran yn y Prosiect Gwirionedd fod cam-drin plant yn rhywiol wedi effeithio'n anffafriol ar eu perthnasau â phobl eraill.

Perthnasoedd agos

Gall cam-drin plant yn rhywiol achosi trafferthion wrth ffurfio perthnasau agos ac ymddiriedus.³⁴ Gall perthnasau atgoffa diodesdwr a goroeswr o gam-drin rhywiol, a gall rwystrau emosiynol godi sy'n gwneud hi'n anodd trafod cam-drin rhywiol gyda phartneriaid.

³² *Victim and survivor voices from the Truth Project*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/3304/view/Victim%20and%20survivor%20voices%20from%20the%20Truth%20Project.pdf

³³ *The impacts of child sexual abuse: a rapid evidence assessment*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/1534/view/IICSA%20Impacts%20of%20Child%20Sexual%20Abuse%20Rapid%20Evidence%20Assessment%20Full%20Report%20%28English%29.pdf

³⁴ *The impacts of child sexual abuse: a rapid evidence assessment*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/1534/view/IICSA%20Impacts%20of%20Child%20Sexual%20Abuse%20Rapid%20Evidence%20Assessment%20Full%20Report%20%28English%29.pdf

Oherwydd pan fyddaf yn siarad amdano, gallaf ei weld, ei deimlo, ei glywed a'i flasau ... byddaf yn ceisio dweud y geiriau. Rwy'n teimlo'n fudr ar y tu mewn, rwy'n teimlo'n fwy budr yn dweud wrthy ch chi amdano am ei fod yn fy mrifo i ar y tu mewn, mae'n wirioneddol boenus.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Mae tua traean (28%) o ddiodefwyr a goroeswyr wedi dweud wrth y Prosiect Gwirionedd eu bod nhw wedi cael trafferthion wrth ymddiried mewn pobl a bod yn agos at bobl. Roedd yr ymatebion i ymgynhoriad ar-lein yr Ymchwiliad a thrafodaethau grwpiau ffocws y Fforwm hefyd wedi adleisio hyn.

Mae hyn wedi codi cywilydd arnaf drwy gydol fy mywyd oherwydd hyn. Rydw i byth, byth wedi dweud wrth unrhyw un yn fy nheulu. Dywedais wrth fy ngwraig llynedd, tua 66, 67 - 70 mlynedd yn hwyrach, dywedais wrth fy ngwraig. I fod yn onest gyda chi, pan briodais i, am y ddwy flynedd gyntaf, yn lle mynd i'r gwely a charu â fy ngwraig, roeddwn i'n mynd lawr i'r gwesty a meddwi a dod adref a mynd i'r gwely, oherwydd roeddwn i'n meddwl am [y fenyw a wnaeth ei gam-drin yn rhywiol] bob tro i mi gael rhyw gyda fy ngwraig, ac mae e wedi fy siomi fy holl fywyd.

Tyst a chyn-blentyn mudol a anfonwyd i Awstralia

Perthnasau gyda rhieni, brodyr a chwiorydd

Mae'r Ymchwiliad wedi clywed bod rhai diodefwyr a goroeswyr yn teimlo bod y cam-drin plant yn rhywiol a ddiodeffon nhw wedi difrod eu perthnasau gyda'u rhieni neu frodyd a chwiorydd. Gallai hyn fod oherwydd bod y troseddwr yn aelod teuluol neu ffrind agos at y teulu, neu efallai eu bod nhw wedi datgelu'r cam-drin a ddiodeffon nhw i aelod o'r teulu neu frawd neu chwaer a theimlai nad oeddent wedi cael eu credu.

Fe wnes i adael gofal ... ceisies i ddweud wrth fy mam beth ddigwyddodd. Fe wnaeth hi fy nharo o naill ben yr ystafell i'r llall a dywedodd nad oedd wedi digwydd. Es i i'r gwely, ac roeddwn i wedi'i gloi i ffwrdd. Wnes i ddim cofio o'r diwrnod hwnnw ymlaen. Fe wnaeth fy meddwl gau'n llwyr ... Fel y dyweddes i, fe wnaeth fy mam fy nharo a dweud nad oedd wedi digwydd; felly, wnaeth e ddim digwydd.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Mae effeithiau cam-drin plant arnaf i ar fy nheulu wedi arwain at gael fy niarddel gan fy nheulu felly achosodd hynny ddadl fawr yn y teulu, ac nid ydynt yn fy nghredu. Hyd heddiw, mae fy mrawd yn gwrthod siarad am dy "salwch" ond nawr rwy'n gwybod pam.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

Mae'r Ymchwiliad wedi clywed bod hyn yn gallu gwneud i ddiodefwyr a goroeswyr deimlo'n gyfrifol dros newid mewn dymmeg teuluol a lles aelodau'r teulu. Mae hefyd yn gallu effeithio ar grwpiau o ffrindiau ac arwain at fwlio neu gyfoedion yn siarad am y peth, gan achosi unigrwydd neu ynysiaeth.

Nid oedd Dorothy yn chwarae â phlant eraill yn yr ysgol, doedd hi ddim yn meddwl ei bod hi'n ddiogel iddynt fod yn ffrind iddi. Byddai swyddogion yr iard yn gofyn iddi pam nad oedd hi am chwarae â'r plant eraill ond dywedodd bod hi am fod ar ben ei hun ac yn gwrthod dweud unrhyw beth.

Crynodeb anhysbys gan ddiodeffwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Mae rhai diodeffwyr a goroeswyr wedi gweld perthnasau eu teulu yn diodeff oherwydd bod eu rhieni, brodyr a chwirydd, neu aelodau eraill y teulu'n ymwybodol o'r cam-drin rhywiol ond wedi methu ag ymyrryd.

Mae Gabriela yn siŵr bod ei mam yn gwybod bod ei thad yn ei cham-drin oherwydd cyn i'w mam adael, aeth hi â Gabriela mewn i'w hystafell, a dangos arddurn mawr trwm iddi a dweud wrthi 'os yw unrhyw yn ceisio gwneud unrhyw beth i chi, bwria ef gyda hwn'. Roedd hi'n meddwl ei fod yn beth rhyfedd i'w ddweud ond sylweddolodd hi fod ei mam yn gwybod beth all ei thad ei wneud. Mae Gabriela yn grac gyda'i mam am hynny; bod hi wedi methu i amdiffyn hi a'i brodyr a chwirydd rhag camdriniaeth gan eu tad.

Crynodeb anhysbys gan ddiodeffwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

gall cam-drin plant yn rhywiol hefyd effeithio ar rieni'r diodeffwyr a goroeswyr.³⁵ Gall effeithio ar iechyd meddwl rhieini oherwydd eu bod nhw'n teimlo'n gyfrifol am fod yn analluog wrth warchod eu plentyn.

"Mae iechyd meddwl fy mam yn dal i fod yn ddrwg iawn, ie, rydym ni wedi cymodi ond mae'r effeithiau parhaol arni wedi bod yn arwyddocaol... mae'n effeithio ar ei gallu i fod yn, fath o, ffigur mamgu hefyd, tydy, oherwydd bod hynny'n eich cyfyngu chi.

Diodeffwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Perthnasoedd â phlant ac wyrion

Efallai un o ganlyniadau mwyaf trist cam-drin plant yn rhywiol yw'r effaith niweidiol y gall ei gael ar fod yn rhiant. Mae rhai diodeffwyr a goroeswyr yn ofni y bydd y cam-drin rhywiol y maent wedi ddiodeff fel plentyn yn golygu na fyddant yn rieni diogel – neu y bydd bobl eraill yn eu hystyried yn berygl i'w plant eu hunain. Mae rhai diodeffwyr a goroeswyr wedi sôn am beidio â gallu newid cewynnau neu hyd yn oed gofleidio'u plant eu hunain.

Yn bersonol, doeddwn i ddim am adrodd am fy mod wedi darllen flynyddoedd yn ôl, os cawsoch eich cam-drin, byddwch yn cam-drin, a phan ddywedais wrth gynghorydd, fe ofynnais a phlediodd yn gyntaf, "Rwy'n addo i chi, wnes i ddim byd i fy mhlant ", ac roeddwn i'n dweud- o, roedd hi'n erchyll, oherwydd roeddwn i'n poeni pe bawn i'n rhannu fy stori eu bod yn mynd i fynd â'm plant i ffwrdd oddi wrthyf.

Diodeffwr a goroeswr, seminar system cyfiawnder troseddswyr

³⁵ *The impacts of child sexual abuse: a rapid evidence assessment*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/1534/view/IICSA%20Impacts%20of%20Child%20Sexual%20Abuse%20Rapid%20Evidence%20Assessment%20Full%20Report%20%28English%29.pdf

A'r materion ynghylch ymddiriedaeth sydd wedi dod o hynny: roeddwn i'n casáu unrhyw un yn cyffwrdd â mi. Doeddwn i ddim yn gallu cofleidio fy mhlant...

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Gall cam-drin plant yn rhywiol hefyd arwain at rai dioddefwyr a goroeswyr fod yn enwedig o amddiffynol o'u plant ac wyrion eu hunain.³⁶ Maen nhw'n benderfynol o sicrhau bod eu plant ac wyrion yn teimlo eu bod yn cael eu caru a'u gofalu amdanynt, a bod eu cam-drin eu hunain ddim yn cael effaith negyddol arnynt.

Mewn ffyrdd eraill, dw i'n ymateb yn ormodol oherwydd dw i wedi meddwl, 'Wel, dydy hyn ddim yn mynd i fy atal rhag symud ymlaen ... rwy'n gwybod beth mae'n ei olygu i ofalu am blentyn, dw i'n gwybod sut ddylid gofalu am blant a'u meithrin ...

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Effaith ar lles emosiynol ac iechyd y meddwl

Mae dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol yn ymdopi ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol mewn ffyrdd gwahanol, a gall eu hymatebion newid dros amser.³⁷ I rai, gall y niwed seicolegol fod o leiaf mor ddifrifol – ac ar adegau'n fwy parhaol – na'r anafiadau corfforol a ddiodefir yn ystod y cam-drin rhywiol.

Tua amser y cam-drin rhywiol, gall plant brofi ystod o emosiynau, gan gynnwys ofn, tristwch, dicter, euogrwydd, hunan-fai a dryswch.^{38,39} Gall dioddefwyr a goroeswyr deimlo sarhâd neu'n hunan-ymwybodol, ac yn aml ni fyddant yn teimlo'n gymwys nac yn gallu siarad am yr hyn sydd wedi digwydd.

Deuthum yn ochelgar iawn a thawedog. Credaf ei fod wedi effeithio ar weddill fy mywyd. Roeddwn i'n poeni ac yn bryderus drwy'r amser. Doeddwn i ddim wedi gwneud ffrindiau neu siarad ag unrhyw un ac roeddwn i'n wylidwrus o bobl a all fy mrifo. Fe wnaeth nifer ohonyn nhw fy mrifo drwy gydol fy mhentyndod.

Tyst a chyn-blentyn mudol a anfonwyd i Awstralia yn y 1940au yn ddeg oed

Dywedwyd wrth yr Ymchwiliad y gallai cam-drin plant yn rhywiol gael effaith seicolegol fawr sy'n para hyd at fod yn oedolyn, a thrwy gydol bywyd fel oedolyn. Mae ymchwil sy'n bodoli wedi cysylltu cam-drin plant yn rhywiol gyda hunan-barch isel a chyflyrau iechyd meddwl.⁴⁰ Mae'r adroddiadau a ddarparwyd i'r Prosiect Gwirionedd wedi cefnogi hyn: mae dioddefwyr a goroeswyr wedi adrodd am amrywiaeth o faterion iechyd meddwl sydd o ganlyniad i'r cam-drin rhywiol y bu iddyn nhw ei ddiodef.

³⁶ *The impacts of child sexual abuse: a rapid evidence assessment*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/1534/view/IICSA%20Impacts%20of%20Child%20Sexual%20Abuse%20Rapid%20Evidence%20Assessment%20Full%20Report%20%28English%29.pdf

³⁷ *The impacts of child sexual abuse: a rapid evidence assessment*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/1534/view/IICSA%20Impacts%20of%20Child%20Sexual%20Abuse%20Rapid%20Evidence%20Assessment%20Full%20Report%20%28English%29.pdf

³⁸ Foster JM and Hagedorn WB. (2014) Through the eyes of the wounded: a narrative analysis of children's sexual abuse experiences and recovery process. *Journal of Child Sexual Abuse* 23(5) 538-557

³⁹ *Making noise: Children's voices for positive change after sexual abuse*. University of Bedfordshire for the Children's Commissioner for England (2017) www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2017/06/UniBed_MakingNoise-20_4_17-1.pdf

⁴⁰ *The impacts of child sexual abuse: a rapid evidence assessment*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/1534/view/IICSA%20Impacts%20of%20Child%20Sexual%20Abuse%20Rapid%20Evidence%20Assessment%20Full%20Report%20%28English%29.pdf

Y materion mwyaf cyffredin yr adroddwyd amdanynt oedd iselder (33%), diffyg ymddiriedaeth mewn awdurdod (32%), meddwl am hunanladdiad (28%), gor-bryder (28%), hunan-niweidio (22%) a cheisio hunanladdiad (22%). Dywedodd cyfranogwyr yn yr ymgynghoriad ar-lein eu bod yn fwyaf tebygol o brofi gor-bryder ac ofn, iselder, hunan-niweidio a meddyliau am hunanladdiad. Adroddwyd hefyd am byliau o banig, hunan-hyder isel, obsesiynau, anwylderau bwyta, a defnyddio alcohol a chyffuriau gan aelodau'r Fforwm.

Mae ôl-fflachiau mor wirioneddol yn eich pen, roeddwn i'n gallu ei deimlo'n llythrennol ar ben i mi ac yn gallu aroglu ei anadl, ac yn deffro a cheisio ei wthio i ffwrdd. Ac roedd hynny'n flynyddoedd wedyn.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Mae'n hanesyddol – cam-drin rhywiol, ydy, mae'n gorfforol, ond mae'r cam-drin meddyliol yn para am byth. Mae'r cam-drin corfforol yn mynd a dod, mewn rhyw ffordd. Rydych chi'n anghofio'r ochr gorfforol ohono, ond me'r cam-drin meddyliol nes y diwrnod fydda' i'n marw – y diwrnod fydda' i'n marw, rwy'n – rwy'n ddiodefwr, fel petai, oherwydd waeth pa sefyllfa fydda' i ynddi – gallwn fod mewn parti ac yn cael yr amser gorau erioed, ond gallwn ogleuo rhywbeth neu gallai rhywun ddweud rhywbeth neu gallai rhywun gyffwrdd ynof fi a rwy'n nôl yn y ca-mdrin, a nes y diwrnod fydda' i'n marw, ni wnaiff hynny newid.

Dioddefwr a goroeswr, seminar system cyfiawnder troseddwy

Rydw i dal yn cael hunllefau ac yn gorfod cysgu gyda'r golau ymlaen. Roeddwn i eisoes fel 'na erbyn yr amser wnes i adael Clontarf, llanastr o nerfau. Cefais fy nerbyn i'r ysbyty ddwywaith gyda rhywbeth, a chredaf bellach mai pyliau o banig oedd y rhain.

Tyst a chyn-blentyn mudol a anfonwyd i Awstralia yn y 1950au

Fodd bynnag, mae'r Ymchwiliad wedi cael ei daro gan y ffordd mae diodefwr a goroeswr wedi bod yn falch o'u gwytnwch a'u gallu i adfer. Mae nifer yn mynd ymlaen i fyw bywydau llwyddiannus – ond maen nhw wedi dweud na fyddan nhw'n gadael y gamdriniaeth y gwnaethon nhw ei phrofi y tu ôl iddynt yn llwyr ac y byddan nhw'n mynd drwy gyfnodau anodd yn eu bywydau o ganlyniad. Gall y cyfnodau hyn o emosiynau negyddol gael eu hysgogi gan ddyddiadau neu ddigwyddiadau penodol, neu gallant fod ar hap ac yn gwbl anrhagweladwy. Mae ymchwil yn dangos bod agweddau penodol ar fywyd – y mwyaf nodedig yw geni plant^{41, 42} a gweithgarwch rhywiol⁴³ – yn ysgogwyr rheolaidd.

Dyweddodd Julia iddi feddwl am hunanladdiad dros y blynyddoedd fel ffordd o ddianc a daeth i benllanw pan y diodefodd o iselder ôl-enedigaeth yn dilyn genedigaeth ei phlant. Fe wnaeth hyn achosi iddi feddwl am y camdriniaeth ac achosi iselder dyfnach, dim ond meddwl am ei phlant a'i chariad tuag atyn nhw wnaeth ei chadw hi'n fyw.

Crynodeb dienw gan ddiodefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

⁴¹ Leeners B, Gorres G, Block E, et al. (2016) Birth experiences in adult women with a history of childhood sexual abuse. *Journal of Psychosomatic Research* 83 27-32

⁴² *Responding sensitively to survivors of child sexual abuse: an evidence review.* University of Bedfordshire for Victim Support (2016) www.beds.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0009/504891/AACSA-evidence-review-13-06-16.pdf

⁴³ Kristensen E and Lau M. (2011) Sexual function in women with a history of intrafamilial childhood sexual abuse. *Sexual and Relationship Therapy* 26(3) 229-241

Mae nifer o ddiodefswyr a goroeswyr yn ceisio therapi neu gwnsela, ond maen nhw wedi adrodd am anawsterau difrifol wrth geisio manteisio ar wasanaethau a thriniaeth. Lle maen nhw wedi gallu manteisio ar gefnogaeth a thriniaeth, mae adroddiadau gan ddiodefswyr a goroeswyr yn gymysg. Mae'n amlwg bod y gefnogaeth neu'r driniaeth iawn ar yr adeg iawn o fudd mawr i ddiodefswyr a goroeswyr, ond mae rhai wedi adrodd am dderbyn ymatebion amhriodol neu ymatebion nad ydynt yn ddefnyddiol gan weithwyr proffesiynol.

Wyddoch chi, oherwydd nad oedd unrhyw beth ... fe wnaethon nhw fynd â fi i weld seicolegydd plant a dywedon nhw, 'Oes unrhyw beth yr hoffech chi siarad amdano?': A dyweddes i, 'Wel, beth ydych chi'n ei olygu?' ... fe wnes i dewi a dweud dim byd. A ches i, fel, fy symud i ffwrdd."

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Mae hi wedi bod yn wych, yn hollol wych ... y tro cyntaf i mi gael - llwyddodd hi i'm cael yn ôl fel plentyn ac roedd hynny mor anodd. Roedd hyn dair blynedd yn ôl, wedi bod yn ei gweld hi ers tair blynedd bellach ... dw i'n sicr bod gen i'r gefnogaeth gywir ... mae hi'n rhyfeddol ... mor wahanol i unrhyw un o bobl y GIG dw i erioed wedi delio â nhw."

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Mae wedi dod i'r amlwg bod ymatebion cefnogol a chadarnhaol gan deuluoedd, ffrindiau, rhoddwyr gofal a gweithwyr proffesiynol yn helpu adferiad.⁴⁴ Nododd y cyfranogwyr yn yr ymgynghoriad ar-lein pa mor bwysig oedd bod pobl yn eu credu ac yn eu parchu pan fyddan nhw'n cael cefnogaeth. Fodd bynnag, pan fydd dioddefwr a goroeswr yn datgelu camdriniaeth rywiol maen nhw wedi'i dioddef ac yn derbyn diffyg cefnogaeth, gall hyn gynyddu'r teimladau o euogrwydd a chywilydd a'u hatal rhag ceisio cefnogaeth yn y dyfodol.

Hefyd, mae pryderon bod nifer o wasanaethau yn cael eu tynnu'n ôl a bod cost triniaeth yn aml yn uchel, a gall hyn fod yn rwystr gwirioneddol i'r rhai hynny heb swydd neu ar incymau isel. Mae argaeledd cefnogaeth a thriniaeth yn fater arwyddocaol ac ystyrir hyn yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn (gweler Pennod 6 am ragor o wybodaeth).

Effaith ar iechyd corfforol

Mae ymchwil yn dangos y gallai dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol ddiodefwr o iechyd corff gwaeth na'r rhai hynny nad ydynt wedi cael eu cam-drin.⁴⁵

Gall plant ddiodefwr anafiadau corfforol yn ystod cam-drin rhywiol. Dywedodd dioddefwyr a goroeswyr sy'n rhan o'r Prosiect Gwirionedd eu bod wedi profi anaf corfforol (12%) fel niwed mewnol o ganlyniad i'r cam-drin rhywiol. Gall plant hefyd ddal heintiau a drosglwyddir yn rhywiol o ganlyniad i'r cam-drin.⁴⁶

⁴⁴ *The impacts of child sexual abuse: a rapid evidence assessment*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/1534/view/IICSA%20Impacts%20of%20Child%20Sexual%20Abuse%20Rapid%20Evidence%20Assessment%20Full%20Report%20%28English%29.pdf

⁴⁵ *The impacts of child sexual abuse: a rapid evidence assessment*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/1534/view/IICSA%20Impacts%20of%20Child%20Sexual%20Abuse%20Rapid%20Evidence%20Assessment%20Full%20Report%20%28English%29.pdf

⁴⁶ Heger A, Ticson L, Velasquez O, et al. (2012) Children referred for possible sexual abuse: medical findings in 2,384 children. *Child Abuse and Neglect* 26 645-659

Hefyd, mae effeithiau hirdymor i gam-drin plant yn rhywiol sy'n cynnwys amrywiaeth o anhwylderau ac anabledau. Mae pwysedd gwaed uchel, blinder cronig, diffyg mae, a phroblemau gyda systemau atgynhyrchu a geni plant i gyd yn gysylltiedig i gam-drin plant yn rhywiol.⁴⁷

Wel, pan oeddwn i'n ifanc, gor-ddefnyddiais alcohol ac roedd gen i anhwylderau bwyta, sydd dal i fod yn anodd i mi, nid i'r un graddau, ond yr hyn maen nhw wedi'i greu ynof yw llawer o anoddefiadau ac anawsterau o gwmpas bwyd. Nid ydw i'n gallu yfed alcohol o gwbl nawr oherwydd nad ydw i'n gallu ei fetaboli. A phethau eraill: mae fy iechyd corfforol i gyd wedi cael ei beryglu'n fawr mewn gwahanol ffyrdd ... ac mae fy nealltwriaeth o'r ffordd mae fy nghorff wedi mynd yn sownd yn ymwneud yn fawr â'r ffaith fy mod yn dal rhywbeth i lawr nad oeddwn - ni allaf wedi rhoi enw iddo ...

Tyst a chyn-blentyn mudol a anfonwyd i Rhodesia Deheuol (Simbabwe yn awr) yn y 1950au yn 9 oed

Dywedodd deg y cant o ddiodefwyr a goroeswyr benywaidd wrth y Prosiect Gwirionedd iddyn nhw ddisgyn yn feichiog o ganlyniad i'r cam-drin rhywiol.

Roedd y gamdriniaeth wedi gwaethygu'n raddol a phan oeddwn i'n 14 oed, roedd y grŵp, wyth ohonyn nhw ... ac fe wnaethon nhw i gyd gael rhyw gyda fi, ac fe wnaethon nhw fi'n feichiog â babi'n fwriadol.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Effaith ar grefydd a ffydd

Wrth ystyried yr effaith mae cam-drin plant yn rhywiol yn ei gael ar grefydd neu gredoau ysbrydol dioddefwr neu oroeswr, mae dau thema bnodol wedi'u hamlygu i'r Ymchwiliad drwy'r Prosiect Gwirionedd. Gall diodefwyr a goroeswyr amau eu crefydd a'u credoau ysbrydol, yn enwedig lle'r oedd eu troseddwr yn gysylltiedig â'u crefydd neu eu ffydd. Gallant hefyd ddefnyddio crefydd a ffydd fel mecanwaith ymdopi ar gyfer cadernid a gwellhad.

Mae ymchwil yn awgrymu y gallai fod yn gyffredin i ddiodefwyr a goroeswyr deimlo siom gyda chredoau ysbrydol a chrefydd wedi iddyn nhw gael eu cam-drin yn rhywiol.⁴⁸ Gallant deimlo eu bod wedi cael eu hesgeuluso neu eu cosbi gan dduw a dechrau cwestiynu eu dealltwriaeth o'r byd. Mae astudiaethau'n dangos bod hyn yn hynod debygol pan fydd y troseddwr yn rhywun sy'n cynrychioli Duw yn llygaid y diodefwr,⁴⁹ neu sydd wedi defnyddio crefydd neu gredoau ysbrydol i gyfiawnhau'r cam-drin rhywiol.

⁴⁷ *The impacts of child sexual abuse: a rapid evidence assessment*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/1534/view/IICSA%20Impacts%20of%20Child%20Sexual%20Abuse%20Rapid%20Evidence%20Assessment%20Full%20Report%20%28English%29.pdf

⁴⁸ Gall TL, Basque V, Damasceno-Scott M, et al. (2007) Spirituality and the current adjustment of adult survivors of childhood sexual abuse. *Journal for the Scientific Study of Religion* 46(1) 101-117

⁴⁹ *The impacts of child sexual abuse: a rapid evidence assessment*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/1534/view/IICSA%20Impacts%20of%20Child%20Sexual%20Abuse%20Rapid%20Evidence%20Assessment%20Full%20Report%20%28English%29.pdf

Rwy'n teimlo mai'r peth arall yr hoffwn i ei ddweud ydy faint o niwed mae wedi'i wneud i fy ffydd.... Hefyd, ni allaf fynd i mewn i'r capel am fy mod wedi colli fy ffydd i gyd, wyddwn i ddim p'un a ydw i'n creud mewn duw bellach.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Mae sgrinio'r rhai hynny sy'n dymuno mynd mewn i'r offeiriadaeth a dod yn ficeriaid yn bwysig iawn – gall unigolyn gyda sgiliau rhyngbersonol da fynd i mewn i rywle. Mae coler ci fel allwedd o ystafell fyw pawb yn y plwyf.

Argymhelliad gan ddioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Mae'r Ymchwiliad wedi clywed bod rhai dioddefwyr a goroeswyr yn parhau i arfer eu crefydd neu eu credoau ysbrydol i sicrhau bod eu plant yn tyfu i gael ffydd. Mae eraill yn ceisio defnyddio eu crefydd neu eu credoau ysbrydol fel ffordd o ddelio gyda'r cam-drin rhywiol y bu iddyn nhw ei ddioddef fel plentyn ond gall hyn fod yn heriol a'u gadael yn siomedig.

Rydw i'n mynd i'r eglwys ac rwy'n gofyn am bŵer crefydd am help a chredwch fi mae'n broses araf iawn ar gyfer iachau.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

Effaith ar addysg a bywyd diweddarach

Mae'r Ymchwiliad wedi clywed bod dioddefwyr a goroeswyr yn ymateb i gam-drin plant yn rhywiol mewn ffyrdd gwahanol. Mae rhai dioddefwyr a goroeswyr wedi egluro bod eu haddysg wedi bod yn strategaeth ymdopi ar gyfer delio gyda'r cam-drin rhywiol – neu ddianc rhagddo. Fodd bynnag, i eraill, mae eu cyrhaeddiad yn yr ysgol, y coleg a'r brifysgol yn dioddef ac mae eu rhagolygon cyflogaeth yn cael eu heffeithio. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ymchwil perthnasol.^{50,51}

Mae rhai dioddefwyr a goroeswyr wedi dweud wrth y Prosiect Gwirionedd eu bod wedi cael trafferth yn yr ysgol, a'u bod wedi'u hymddieithrio yn yr ysgol ac yn teimlo bod eu dyfodol wedi cael ei ddwyn. Roedd rhai yn anhapus yn yr ysgol (16%) neu'n cael anawsterau academaidd (16%) a bu i eraill adael yr ysgol yn fuan (8%).

Dywedes i wrthyn nhw nad oeddwn i'n hapus â phethau ond dywedon nhw fod hynny'n digwydd oherwydd roeddwn i'n cael trafferth yn yr ysgol, ond doedd hynny ddim yn wir. Mewn gwirionedd roeddwn i'n eithaf clyfar ond doeddwn i ddim yn gallu canolbwyntio, felly dyna pam roeddwn i'n methu. Dw i'n credu, erbyn imi adael roedd gen i'r un, wyddoch, fel, system lefelau? Roedden nhw'n arfer defnyddio lefel 1, 2 a 3. Roeddwn i ar yr un lefel pan adawes i yn 16 oed â phan oeddwn i'n wyth oed. Cyn hynny, roeddwn i

⁵⁰ *The impacts of child sexual abuse: a rapid evidence assessment*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/1534/view/IICSA%20Impacts%20of%20Child%20Sexual%20Abuse%20Rapid%20Evidence%20Assessment%20Full%20Report%20%28English%29.pdf

⁵¹ *Victim and survivor voices from the Truth Project*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/3304/view/Victim%20and%20survivor%20voices%20from%20the%20Truth%20Project.pdf

mewn gwirionedd, dw i'n meddwl, yn flwyddyn o flaen y gweddill ... felly, yn y bôn, efallai y gallech chi ddweud na ches i fy addysgu o pan oeddwn i'n wyth oed tan oeddwn i'n 16 oed.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Awgrymodd yr ymatebion i ymgynghoriad ar-lein yr ymchwiliad bod dioddefwyr a goroeswyr wedi cael eu heffeithio gan gyrrhaeddiad addysgol isel, diweithdra ac anawsterau ariannol o ganlyniad i gam-drin rhywiol.

Mae gan gam-drin plant ganlyniadau pellgyrhaeddol gydol oes. Ar ôl gyfnod o dros flwyddyn o gam-drin rhywiol niferus gan bedofilydd a oedd yn ffugio bod yn ffrind i'r teulu. Deuthum i fod yn berson swil tawedog mewndroëdig. Fe wnaeth hyn achosi imi gael fy mwlio yn yr ysgol lle wnes i hefyd tangyflawni ym mhob pwnc. Rwy'n dal i gael trafferth deugain mlynedd yn ddiweddarach, gyda dynion dwi ddim yn adnabod. Dydw i ddim yn hoffi cwmni dynion. Gwnaeth fy nhangyflawniad yn yr ysgol effeithio ar fy rhagolygon cyflogaeth a photensial enill arian am weddill fy mywyd.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

Mae ymchwil wedi cysylltu cam-drin plant yn rhywiol â mwy o ddiweithdra, mwy o dderbyn budd-daliadau'r wladwriaeth, llai o incwm a mwy o ansefydlogrwydd ariannol. Mae⁵² ymchwil^{53,54} ac adroddiadau gan ddioddefwyr a goroeswyr yn awgrymu y gallai iechyd meddwl neu iechyd corfforol gwaeld fod yn reswm dros hyn gan y gallai effeithio ar addysgu ac ennill cymwysterau, anawsterau wrth ymdopi gyda threfn bywyd o ddydd i ddydd, cymryd rhan mewn ymddygiad troseddol, neu beidio â chael lle diogel a sefydlog i fyw.⁵⁵

3.3 Graddfa cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr

Nid oes unrhyw un yn gwybod – ac ni fydd unrhyw un byth yn gwybod – graddfa wirioneddol cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr. Bydd bob amser yn cael ei guddio.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cael syniad cywir o'r nifer o ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr gan ei fod yn cynnig sail i lunio polisi ar lefelau cenedlaethol a lleol. Mae'n llywio dyluniad, cyflwyniad ac ariannu gwasanaethau sydd â'r nod o atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, ac ar gyfer cefnogi dioddefwyr a goroeswyr. Gall cyhoeddiadau amcangyfrifon am gam-drin plant yn rhywiol hefyd helpu dioddefwyr a goroeswyr i sylweddoli nad ydynt ar eu pen eu hunain a'u hannog i gamu ymlaen.

⁵² *The impacts of child sexual abuse: a rapid evidence assessment*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/1534/view/IICSA%20Impacts%20of%20Child%20Sexual%20Abuse%20Rapid%20Evidence%20Assessment%20Full%20Report%20%28English%29.pdf

⁵³ Barrett A, Kamiya Y and Sullivan VO. (2014) Childhood sexual abuse and later-life economic consequences. *Journal of Behavioral and Experimental Economics* 53 10-16

⁵⁴ *Survivors' voices: breaking the silence on living with the impact of child sexual abuse in the family environment*. One in Four (2015) www.oneinfour.org.uk/wp-content/uploads/2015/11/Survivors_Voices_Report_November_2015-2.pdf

⁵⁵ *The impacts of child sexual abuse: a rapid evidence assessment*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/1534/view/IICSA%20Impacts%20of%20Child%20Sexual%20Abuse%20Rapid%20Evidence%20Assessment%20Full%20Report%20%28English%29.pdf

Daw gwybodaeth am raddfa cam-drin plant yn rhywiol o ddwy fath o ffynhonnell: arolygon a gynhelir gyda'r cyhoedd sy'n cynnwys cwestiynau am gam-drin plant yn rhywiol, a data gweithredol a gesglir gan asiantaethau yn y systemau diogelu plant a chyfiawnder troseddol neu gan sefydliadau sy'n cefnogi dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol.

Yn ôl Arolwg Trosedd 2015-16 ar gyfer Cymru a Lloegr, dywedodd 7% o bobl rhwng 16 a 59 mlwydd oed eu bod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol pan yn blant. Er nad oedd hyn yn cynnwys plant ifanc na phob math o gam-drin rhywiol, mae'n cyfateb i dros ddwy filiwn o ddioddefwyr a goroeswyr yn yr ystod oedran hwnnw dros Gymru a Lloegr – cyfran sylweddol o'r boblogaeth.⁵⁶ Mae'r Ymchwiliad yn croesawu'r ffaith bod y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol yn ceisio gwella'r ffordd mae'n casglu gwybodaeth am gam-drin plant yn rhywiol ar gyfer Arolwg Trosedd 2018-19.

Mae rhywfaint o'r data a gesglir gan asiantaethau'n cael ei gasglu'n lleol a'i gyfansymio'n genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys data ar blant sydd angen eu hamddiffyn ac ystadegau trosedd a gofnodwyd gan yr heddlu. Yn ogystal â hyn, mae asiantaethau lleol hefyd yn casglu data arall a ddefnyddir ar lefel lleol – weithiau gan asiantaethau unigol a weithiau ar sail aml-asiantaethol – i lywio ymatebion lleol. Mae data a gesglir gan wasanaethau plant awdurdod lleol yn canolbwyntio ar blant sydd wedi cael eu cyfeirio at awdurdod lleol oherwydd pryderon am eu lles. Pan fydd plentyn yn destun cynllun diogelu plant yn Lloegr neu'n cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant yng Nghymru, bydd yr awdurdod lleol yn cofnodi'r math cychwynnol o gamdriniaeth (gan gynnwys cam-drin rhywiol). Mae hyn er mwyn gallu amddiffyn y plentyn fel bo'r angen. Gall awdurdodau lleol yng Nghymru – ond nid yn Lloegr – hefyd gofnodi mathau lluosog a phenodol o gam-drin (er enghraifft gallai plentyn yng Nghymru gael ei gofnodi i fod mewn perygl o gam-drin rhywiol yn ogystal ag esgeuluso neu gam-drin corfforol).

Ar 31 Mawrth 2017, roedd cam-drin rhywiol wedi'i gofnodi fel y math cychwynnol o gamdriniaeth ar gyfer 2,260 o blant yn Lloegr oedd yn destun cynllun amddiffyn plant. Mae hyn yn cyfateb i 4.4% o'r holl blant o dan gynllun amddiffyn plant.⁵⁷ Mae ffigurau o Gymru ar gyfer yr un cyfnod yn danogs bod 120 o blant ar y gofrestr amddiffyn plant yn bennaf mewn perygl o gam-drin rhywiol, sy'n cyfateb i 4.1% o'r holl blant ar y gofrestr amddiffyn plant yng Nghymru. Cofnodwyd 30 o blant ychwanegol ar y gofrestr mewn perygl o gategoriâu lluosog o gamdriniaeth, gan gynnwys cam-drin rhywiol.⁵⁸

Mae gwybodaeth am blant a ystyrir mewn perygl o gam-drin rhywiol, ond nad ydynt yn destun cynllun amddiffyn plant neu ar y gofrestr amddiffyn plant, yn cael ei chofnodi yn Lloegr ond nid yng Nghymru. Yn 2016-17, nodwyd bod 29,600 o blant angen cefnogaeth yn Lloegr (6.2% o blant mewn angen yn genedlaethol) a chofnodwyd eu bod mewn perygl o gam-drin rhywiol yn ystod eu hasesiad cychwynnol yn dilyn eu cyfeirio at awdurdod lleol; nodwyd bod 18,800 (4% o blant mewn angen yn genedlaethol) mewn perygl o ecsbloetio rhywiol. Efallai bod gorgyffwrdd rhwng y categorïau hyn.

⁵⁶ *Crime survey for England and Wales*. Office for National Statistics (2016) www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/abuseduringchildhood/findingsfromtheyearendingmarch2016crimesurveyforenglandandwales

⁵⁷ *Characteristics of children in need: 2016 to 2017*. Department for Education (2017) www.gov.uk/government/statistics/characteristics-of-children-in-need-2016-to-2017

⁵⁸ *Children on child protection register by local authority, category of abuse and age group*. Stats Wales (2017) <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Service-Provision/childrenonchildprotectionregister-by-localauthority-categoryofabuse-agegroup>

Newidiodd awdurdodau lleol yng Nghymru y data a gesglir yn dilyn cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Fodd bynnag, ni chofnodwyd data penodol mewn perthynas â'r nifer o blant a nodwyd mewn perygl o gam-drin rhywiol o dan y trefniadau blaenorol neu mewn perthynas â'r categori newydd o Blant sy'n Derbyn Gofal a Cefnogaeth a sefydlwyd gan y ddeddfwriaeth newydd.

Mae asiantaethau cyfiawnder troseddol yn ffynhonnell ychwanegol o ddata mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol. Mae eu data'n cael eu categorio yn ôl trosedd a ffocws ar ganlyniadau penodol i'r asiantaeth – fel canlyniadau ymchwiliad ar gyfer yr heddlu neu erlyniadau ac euogfarnau yn achos Gwasanaeth Erlyn y Goron. O ganlyniad, mae'r data'n anaddas ar gyfer penu'r nifer o ddiodefwrwr neu droseddwr. Hefyd mae nifer o gyfyngiadau eraill o ran defnyddioldeb y data hyn i asesu cyffredinolrwydd cam-drin plant yn rhywiol. Er enghraifft, mae'r data heddlu diweddaraf yn dangos bod y nifer o droseddau rhywiol yn erbyn plant o dan 16 mlwydd oed yng Nghymru a Lloegr wedi dyblu rhwng 2013 a 2017, gan gynyddu o 24,085 i 53,496.⁵⁹ Mae'n debyg bod y cynnydd hwn oherwydd parodrwydd diodefwrwr a goroeswyr i ddod ymlaen, yn rhannol o leiaf, ac oherwydd ffyrdd gwell o gofnodi troseddau rhywiol gan yr heddlu.⁶⁰

Cyfyngiad arwyddocaol o ran yr holl ddata gweithredol yw y bydd yn cynnwys achosion o gam-drin plant yn rhywiol sy'n cael eu canfod neu eu hadrodd i'r asiantaeth cysylltiedig yn unig. O ganlyniad, cydnabyddir y bydd data gweithredol bob amser yn tan-amcangyfrif graddfa cam-drin plant yn rhywiol. Cafodd hyn ei ddangos yn amlwg gan waith diweddar a gyflawnwyd gan Gomisiynydd Plant Lloegr, a ganfu mai dim ond 1 o bob 8 trosedd rywiol yn erbyn plant sy'n dod i sylw'r heddlu neu awdurdod lleol.⁶¹

Mae'n anodd cymharu data a gesglir gan asiantaethau cyhoeddus ac arolygon cyhoeddus. Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant wedi edrych ar y materion hyn yn fanwl ac wedi gweld bod nifer o gyfyngiadau sy'n berthnasol i'r ddau gategori o ddata.⁶² Maen nhw'n egluro bod data gweithredol yn cael ei gasglu at ddibenion penodol sy'n cael eu cymell gan nodau a chanlyniadau asiantaeth, ac y gallai'r nodau a'r canlyniadau hyn gael eu heffeithio gan bolisi ehangach a blaenoriaethau gwleidyddol. Mae arolygon a data gweithredol yn defnyddio diffiniadau a methodoleg gwahanol a fydd bob amser yn dylanwadu ar y canlyniadau, ac yn aml mae'n anodd cymharu data o'r un ffynhonnell dros amser oherwydd newidiadau i ffyrdd cofnodi. O ganlyniadu, nid yw bob amser yn bosibl dwyn gwybodaeth gyfredol ynghyd, a gallai fod yn anodd darparu safbwynt cyffredinol ar raddfa cam-drin plant yn rhywiol nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r Ymchwiliad yn cydnabod bod sefydliadau gwahanol yn casglu gwybodaeth wahanol mewn perthynas â graddfa cam-drin plant yn rhywiol gan ddibynnu ar eu nodau a'u hamcanion penodol. Mae hyn yn golygu bod gwneud penderfyniadau lleol yn seiliedig ar ddata a lefelau dealltwriaeth gwahanol am gam-drin plant yn rhywiol mewn meysydd

⁵⁹ *Crime in England and Wales*. Office for National Statistics (2018) www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/crimeinenglandandwalesappendixables

⁶⁰ *How safe are our children? The most comprehensive overview of child protection in the UK 2017*. NSPCC (2017) www.nspcc.org.uk/globalassets/documents/research-reports/how-safe-children-2017-report.pdf

⁶¹ *Protecting children from harm: A critical assessment of child sexual abuse in the family network in England and priorities for action*. Office of the Children's Commissioner (2015) www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2017/06/Protecting-children-from-harm-executive-summary_0.pdf

⁶² *Measuring the scale and changing nature of child sexual abuse and child sexual exploitation: Scoping report*. Centre of Expertise on Child Sexual Abuse (2017) www.csacentre.org.uk/research-publications/scale-and-nature-of-child-sexual-abuse-and-exploitation/scoping-report/

gwahanol. Mae gan yr Ymchwiliad ddiddordeb a yw'r data cywir yn cael ei gofnodi'n lleol a'i gyfansymio'n genedlaethol fel bod datblygiad polisi a dyrannu adnoddau'n seiliedig ar ddealltwriaeth cywir a chyfredol o angen. Bydd yn ystod y mater ymhellach wrth i'w waith fynd rhagddo.

Pennod 4

Ymatebion sefydliadau i gam-drin plant yn rhywiol

4 Ymatebion sefydliadau i gam-drin plant yn rhywiol

Ers cyhoeddi adolygiad mewnol yr Ymchwiliad yn Rhagfyr 2016, mae pum gwrandawriad cyhoeddus wedi'u cynnal ac mae wyth arall wedi'u trefnu ar gyfer 2018/19. Mae'r gwrandawriadau cyhoeddus a gynhaliwyd hyd yma'n ymwneud â'r canlynol:

- rhaglenni ymfudiad plant, a gynhaliwyd dros bedair wythnos ym mis Chwefor, Mawrth a Gorffennaf 2017 (astudiaeth achos o fewn yr ymchwiliad 'Plant y tu allan i'r DU')
- Ymchwiliad 'Cambridge House, Knowl View a Rochdale' ('Rochdale'), agynhaliwyd dros dair wythnos ym mis Hydref 2017
- Cynulleidfa Benedictine Lloegr, a gynhaliwyd dros daith wythnos ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2017 (astudiaeth achos yn ymchwiliad yr 'Eglwys Gatholig Rufeinig')
- gwrandawriad rhagarweiniol ar yr ymchwiliad y 'Rhynggrwyd a cham-drin plant yn rhywiol', a gynhaliwyd dros un wythnos ym mis Ionawr 2018, ac
- Esgobaeth Chichester, a gynhaliwyd dros dair wythnos ym mis Mawrth 2018 (astudiaeth achos o fewn ymchwiliad yr 'Eglwys Anglicanaidd').

Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn rhoi trosolwg o astudiaethau achos rhaglenni ymfudiad plant ac ymchwiliad Rochdale. Mae'r adroddiadau llawn wedi cael eu cyhoeddi o'r blaen ac maen nhw wedi'u hatodi fel atodiadau i'r adroddiad hwn.


Mae'r adran hon hefyd yn rhoi diweddarai ar astudiaethau achos Cynulleidfa Benedictaidd Lloegr ac Esgobaeth Chichester. Mae'r Ymchwiliad yn ystyried ei ganfyddiadau ar yr astudiaethau achos a byddant yn cyhoeddi'r rhain yn nes ymlaen. Am y rheswm hwn, nid yw'r adroddiad hwn yn honni i ddod i unrhyw gasgliadau neu wneud unrhyw ganfyddiadau ar y cam hwn. Mae diweddariad ar wrandawriad rhagarweiniol ar yr ymchwiliad y 'Rhynggrwyd a cham-drin plant yn rhywiol' i'w weld yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Mae Atodiad A i'r adroddiad hwn yn cynnwys adroddiad cynnydd ar gyfer holl ymchwiliadau'r Ymchwiliad.

4.1 Astudiaeth achos i raglenni mudo plant (rhan o'r archwiliad 'Plant tu allan i'r Deyrnas Unedig')

Cyn ac ar ôl yr Ail Ryfel Byd, arweiniodd rhaglenni mudo plant ar draws Gymru a Lloegr at dynnu plant oddi wrth eu teuluoedd, cartrefi gofal a gofal maeth.⁶³ Anfonwyd plant i sefydliadau neu at deuluoedd dramor – yn bennaf i Awstralia, Canada, Seland Newydd a De Rhodesia (Simbabwe bellach).

Ffigur 1 Gwledydd yn y rhaglenni mudo plant



Clywodd gwrandawriad cyhoeddus cyntaf yr Ymchwiliad gan nifer o ymfudwyr oedd yn blant am eu profiadau. Roedd yn ystyried p'un a oedd sefydliadau yng Nghymru a Lloegr wedi cymryd digon o ofal i amddiffyn plant a anfonir dramor trwy'r rhaglenni mudo plant rhag cam-drin rhywiol ac os oeddent wedi ymateb yn ddigonol i honiadau neu dystiolaeth o gam-drin rhywiol.⁶⁴ Ystyriodd yr Ymchwiliad hefyd a ddarparodd y sefydliadau o dan sylw unrhyw gefnogaeth neu iawndaliadau i gyn-blant ymfudwyr, neu p'un a ydynt yn darparu'r rhain nawr. Rhaglenni mudo plant ar ôl yr Ail Ryfel Byd (rhwng 1945 a 1970) oedd ffocws yr astudiaeth achos hwn.

Mae'r rhaglenni mudo plant wedi cael eu harchwilio o'r blaen gan Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Iechyd,⁶⁵ y Comisiwn Brenhinol i Ymatebion Sefydliadol i Gam-drin Plant yn Rhywiol yn Awstralia⁶⁶ a'r Ymchwiliad Cam-drin Plant yn Rhywiol Hanesyddol yng Ngogledd

⁶³ *Third report: The welfare of former British child migrants.* House of Commons Select Committee on Health (1998) <https://publications.parliament.uk/pa/cm199798/cmselect/cmhealth/755/75502.htm>

⁶⁴ *Protection of Children Outside the United Kingdom: Scope.* Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/the-protection-of-children-overseas?tab=scope

⁶⁵ *Third report: The welfare of former British child migrants.* House of Commons Select Committee on Health (1998) <https://publications.parliament.uk/pa/cm199798/cmselect/cmhealth/755/75502.htm>

⁶⁶ *Final report.* Royal Commission into Institutional Responses to Child Sexual Abuse (2017) www.childabuseroyalcommission.gov.au/final-report

Iwerddon⁶⁷. Fodd bynnag, ychydig iawn o ymwybyddiaeth sydd o hyd yng Nghymru a Lloegr am wir raddfa'r rhaglenni hyn. Nid oes unrhyw ymchwiliad cyhoeddus wedi'i gynnal i'r honiadau o gam-drin rhywiol gan gyn-blant ymfudwyr neu fethiannau posibl gan sefydliadau'r DU mewn perthynas â'r cam-drin hwnnw. Dewisodd yr Ymchwiliad y rhaglenni mudo plant fel yr astudiaeth achos cyntaf o fewn ymchwiliad ehangach 'Plant y tu allan i'r Deyrnas Unedig' gan bod nifer o gyn-blant ymfudwyr yn hen ac mewn iechyd gwael.

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn darparu trosolwg byr o'r astudiaeth achos hwn. Cyhoeddwyd adroddiad llawn ym mis Mawrth 2018 ac mae ynghlwm i'r adroddiad hwn fel atodiad.⁶⁸ Mae Atodiad A i'r adroddiad hwn yn cynnwys adroddiad cynnydd ar yr ymchwiliad ehangach i'r 'Plant y tu allan i'r Deyrnas Unedig'.

Astudiaeth achos y rhaglenni mudo plant mewn ffigurau

- **3** gwrandrawiad rhagarweiniol (a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2016, 31 Ionawr a 9 Mai 2017)
- **20** diwrnod o wrandawiadau cyhoeddus (a gynhaliwyd 27 Chwefror – 10 Mawrth 2017 a 10-21 Gorffennaf 2017)
- **7** cyfranogwr craidd (cwynwyr, Barnardo's, yr Ymddiriedolaeth Plant-Fudwyr, Sisters of Nazareth, Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Iechyd a'r Cyngor Catholig ar gyfer yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol)
- **48** tyst (cyn-blant ymfudwyr, cynrychiolwyr o'r sefydliadau oedd yn rhan o'r rhaglenni mudo yng Nghymru a Lloegr, yr Ymddiriedolaeth Plant-Fudwyr, dau gyn Brif Weinidog Prydain, a thystiolaeth arbenigol gan yr Athro Stephen Constantine a'r Athro Gordon Lynch)
- **32,180** tudalen o dystiolaeth wedi datguddio i gyfranogwyr craidd

Trosolwg o raglenni mudo plant

Sefydlodd Llywodraeth y DU y fframwaith cyfreithiol, rheoleiddiol a goruchwyliol yr oedd sefydliadau yng Nghymru a Lloegr yn gweithredu o'i fewn wrth fudo plant. Roedd hefyd yn talu costau taith plentyn dramor ac yn cyfrannu at eu cynnal nes eu bod yn 16 mlwydd oed (oni bai mewn perthynas â'r plant hynny oedd yn mudo i Seland Newydd).

Roedd amrywiaeth o sefydliadau lles, elusennau, sefydliadau crefyddol ac awdurdodau lleol yn rhan o redeg rhaglenni mudo plant o ddydd i ddydd. Roedden nhw'n nodi plant i'w hanfon dramor, yn trefnu'r daith, neu'n derbyn plant unwaith roedden nhw wedi cyrraedd pen eu taith. I raddau amrywiol, fe wnaeth y sefydliadau hyn gynnal cyswllt gyda'r plant a'r sefydliadau neu deuluoedd lle'r anfonwyd y plant yn dilyn eu mudo. Roedd rhai sefydliadau wedi'u creu'n benodol at ddibenion mudo, eraill yn benodol ar gyfer mudo plant. Unwaith yr oedd plant yn cyrraedd pen eu taith, roedd gwarchodaeth cyfreithiol yn cael ei drosglwyddo i'r llywodraeth cenedlaethol, ond roedden nhw'n parhau i fod yn ddinasyddion Prydeinig.

⁶⁷ *Report of the Historical Institutional Abuse Inquiry*. Inquiry into Historical Institutional Abuse (2017) www.hiainquiry.org/historical-institutional-abuse-inquiry-report-chapters

⁶⁸ *Child migration programmes: Investigation report*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/4265/view/Child%20Migration%20Programmes%20Investigation%20Report%20March%202018.pdf

Canfyddiadau'r Ymchwiliad

Cam-drin Plant yn Rhywiol yn y Rhaglenni Mudo Plant

Clywodd yr Ymchwiliad fod ymfudwyr plant fel arfer yn cael addewid o fywyd gwell cyn iddynt gael eu hanfon dramor.⁶⁹ Tra cafodd rhai plant y bywyd gwell yma, roedd y realiti i eraill yn wahanol iawn.

Clywodd yr Ymchwiliad dystiolaeth am y cam-drin rhywiol a ddiodeffodd rhai ymfudwyr plant. Cafwyd eu cam-drin cyn iddynt deithio, yn ystod y daith ac ar ôl iddyn nhw ymfudo, yn aml parhaodd y cam-drin am flynyddoedd a dan ddwylo mwy nag un troseddwr.^{70, 71} Mae adroddiadau tystion yn dangos tra bod dynion yn droseddwyr mwy cyffredin, mae yna adroddiadau o gam-drin rhywiol gan fenywod, megis mamau bwthyn. Clywodd yr Ymchwiliad hefyd am gam-drin rhywiol gan blant eraill.

Cafodd rhai ymfudwyr plant eu cam-drin yn rhywiol trwy gael eu treiddio, eu cyffwrdd yn amhriodol a'u gwneud i gyffwrdd â phobl eraill. Dywedodd tystion wrth yr Ymchwiliad eu bod yn cael eu cymryd allan o'u gwelyau ystafell cysgu yn ystod y nos i gael eu cam-drin, ac i rai ohonynt ddigwyddodd dro ar ôl tro. Digwyddodd cam-drin rhywiol i rai o fewn y sefydliad y cawsant eu hanfon atynt ac yn eu lleoliadau gwaith.⁷² Dywedodd rhai eu bod yn ymwybodol o blant eraill yn cael eu cam-drin – dywedodd hyd yn oed un tyst y gallai gweld cam-drin rhywiol yn erbyn plentyn arall “*deimlo mor wael â'r dioddefwr*”.⁷³

Dechreuodd y camdriniaeth yn y cawodydd. Roeddwn i'n ymwybodol ohono yn fy ngwyllo a chilwenu, yn rhoi llawer o sylw i mi pan oeddwn i'n noeth. Ond yn yr ystafell wely yn y nos pan ddiffoddwyd y goleuadau oedd pryd roedd e'n fy ngham-drin. Byddai'n dod at fy ngwely a dod i mewn wrth fy myl. Hyd y gwn i, roedd y bechgyn eraill yn cysgu. Byddai'n sleifio i mewn a chyffwrdd â'm rhannau preifat a gwneud i mi ei gyffwrdd ef.

Tyst a chyn blentyn mudol a anfonwyd i Awstralia yn y 1960au yn wyth oed

Er bod canolbwynt yr Ymchwiliad ar gam-drin rhywiol, darparodd adroddiadau am ffurfiau eraill o gamdriniaeth cyd-destun hanfodol ar gyfer deall profiadau plant ymfudol. Mae adroddiadau tystion yn dangos fod plant yn cael eu cam-drin yn gorfforol, eu cam-drin yn emosiynol a'u hesgeuluso. Clywodd yr Ymchwiliad yn ychwanegol at y cam-drin fod rhai plant ymfudol wedi goroesi, effeithiwyd ar eu hiechyd, eu lles a'u haddysg, a effeithiwyd arnynt yn hwyrach mewn bywyd.⁷⁴ Mae'n anodd disgrifio'r cyfundrefnau roedd rhai plant ymfudol yn eu dioddef fel unrhyw beth heblaw am greulon ac yn annynol.

Achosodd hyn llawer o broblemau i mi yn ddiweddarach mewn bywyd, ac mewn perthnasau gwaith oedolion a pherthnasau teuluol. Dwi'n cael problemau'n ymddiried mewn pobl ac yn tueddu i fod yn ddistaw, yn aml yn amheus a bob amser yn wylidwrus.

Tyst a chyn-blentyn mudol a anfonwyd i Awstralia yn y 1950au yn chwech oed

⁶⁹ *Child migration programmes: Investigation report*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/4265/view/Child%20Migration%20Programmes%20Investigation%20Report%20March%202018.pdf

⁷⁰ For example, see O'Donoghue 3 March 2017 93-96 and CM-A5 3 March 2017 13-16, 29-34

⁷¹ *Child migration programmes: Investigation report*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/4265/view/Child%20Migration%20Programmes%20Investigation%20Report%20March%202018.pdf

⁷² For example, see CM-A4 1 March 2017 9-10

⁷³ CM-A13 7 March 2017 53-54

⁷⁴ *Child migration programmes: Investigation report*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/4265/view/Child%20Migration%20Programmes%20Investigation%20Report%20March%202018.pdf

Clywodd yr Ymchwiliad fod plant yn byw mewn ofn dial pe baent yn adrodd am y cam-drin rhywiol y bu'n rhaid iddynt ddiodeff. Nid oeddent yn cael eu credu a chawsant eu bygwth Dywedwyd wrth un tyst i "weddïo" ar gyfer y cyflawnwr ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach, a dywedwyd wrth un arall i "gadw hwn rhwng ein gilydd a pheidiwch â dweud wrth unrhyw un arall" am y gamdriniaeth a ddiodeffodd.⁷⁵

...Dywedais wrth y gofalwr bwthyn amdano unwaith. Dywedodd hi fy mod i'n dweud celwydd, felly cefais y gansen am hynny.

Tyst a chyn-blentyn mudol a anfonwyd i Awstralia yn y 1950au

Ymatebion ac ymddiheuriadau sefydliadol

Ceisiodd yr Ymchwiliad benderfynu a oedd sefydliadau a chyrrff cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr, yn ymwybodol, neu a ddylent fod wedi bod yn ymwybodol o honiadau neu dystiolaeth o gam-drin rhywiol yn ymwneud â phlant yn y rhaglenni ymfudo. Archwiliodd hefyd sut y gwnaeth sefydliadau ymateb i honiadau, os oeddent yn cymryd gofal digonol i ddiogelu plant rhag cam-drin rhywiol, ac a oeddent yn cynnig cymorth a digollediaid digonol ac i gyn blant ymfudol.

Barn ysgubol yr Ymchwiliad oedd taw Llywodraeth y DU oedd i'w feio'n bennaf am barhad rhaglenni mudo plant ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Roedd yn "...bolisi hynod o ddiffygiol, ... wedi'i weithredu'n wael gan sawl sefydliad gwirfoddol ac awdurdodau lleo, a "gafodd ei ganiatáu gan llywodraethau Prydeinig dilynol i aros mewn grym, er gwaethaf catalog o dystiolaeth a oedd yn dangos bod plant yn diodeff triniaeth wael a chamdriniaeth, gan gynnwys cam-drin rhywiol".⁷⁶

Er bod y polisi'i hun yn anamddiffynadwy, gallai llywodraethau olynol y DU fod wedi cymryd camau ar rai pwyntiau allweddol – ond ni wnaethant hynny: roeddent yn caniatáu i'r rhaglenni barhau. Wrth wneud hynny, methodd Llywodraeth y DU â:

- weithredu rheoliadau i osod safonau ar gyfer sefydliadau gwirfoddol i ddewis plant ar gyfer ymfudiad, sicrhau caniatâd i ymfudo plant o dan eu gofal neu anfon adroddiadau ar bob plentyn ymfudol yn dilyn ymfudiad
- sicrhau bod y disgwyliadau a osodwyd gan adroddiad Curtis (1946) (adroddiad ar sut y gofelir am blant difreintiedig) yn cael eu gweithredu, ac
- i gymryd unrhyw gamau effeithiol er yr adroddiad Ross critigol iawn (1956) (adroddiad i amodau sefydliadau Awstralia lle'r oedd plant yn cael eu hymfudo).

Daeth yr Ymchwiliad i'r casgliad mai'r rheswm am fethiant Llywodraeth y DU i weithredu oedd "gwleidyddiaeth y dydd, a oedd yn cael ei blaenoriaethu'n gyson dros les y plant". Roedd hyn yn cynnwys ei amharodrwydd i gynhyrfu Llywodraeth Awstralia a chyrrff gwirfoddol â pharch mawr o'r amser.

Yn ogystal, canfu'r Ymchwiliad fod llywodraethau olynol y DU tan 2010 wedi methu â chymryd cyfrifoldeb llawn am eu rôl mewn mudo plant. Parhaodd i fynnu nad oedd unrhyw gamdriniaeth dramor yn gyfrifoldeb Llywodraeth y DU. Er enghraifft, dywedodd

⁷⁵ CM-A5 3 March 2017 40-44; CM-A6 1 March 2017 73-4

⁷⁶ *Child migration programmes: Investigation report*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/4265/view/Child%20Migration%20Programmes%20Investigation%20Report%20March%202018.pdf

cyn Prif Weinidog Syr John Major wrth yr Ymchwiliad ei fod “yn ymwybodol bod honiadau o gam-drin nifer o blant ymfudol yn gorfforol ac yn rhywiol rai blynyddoedd yn ôl, ond y byddai unrhyw honiadau o’r fath yn fater i awdurdodau Awstralia”.⁷⁷ Cynhaliwyd y safbwynt yma trwy gydol y 1990au a’r 2000au ac roedd yn ffeithiol anghywir: yn ystod y cyfnod mudo roedd Llywodraeth y DU wedi derbyn bod ganddo gyfrifoldeb parhaus i’r plant; roedd wedi pwysleisio’r angen i’r sefydliadau gwirfoddol fonitro’r plant a bod y plant yn parhau i fod yn Brydeinig.

Roedd gwadu cyfrifoldeb a’i wyro i eraill yn anghyfrifol ac yn ddealladwy yn dramgwyddus i gyn blant ymfudol. Nid tan 2010 oedd yna ymddiheuriad gan y Prif Weinidog ar y pryd, Dr Gordon Brown, i gyn blant ymfudol ar ran Llywodraeth y DU.

Canfu’r Ymchwiliad hefyd fod y sefydliadau a oedd yn ymwneud â gweithrediad y rhaglenni ymfudo plant wedi methu â chymryd digon o ofal i ddiogelu plant ymfudol rhag perygl o gam-drin rhywiol. Roedd y sefydliadau hyn yn cynnwys Cymdeithas Fairbridge, Cymdeithas y Plant, y Gynghrair Tramor Brenhinol, Cyngor Sir Cernyw, Byddin yr Iachawdwriaeth, Eglwys Lloegr, Sisters of Nazareth, Father Hudson’s, a’r Eglwys Gatholig. Gwnaeth yr Ymchwiliad ystod eang o ganfyddiadau mwy penodol ar gyfer pob sefydliad a grybwyllir yma, a gellir dod o hyd i’r rhain yn adroddiad yr archwiliad.

Mae llawer o’r sefydliadau elusenol a chyhoeddus yma, er nad pob un ohonynt, wedi ymddiheuro am eu rôl yn y rhaglenni ymfudo plant – rhai dim ond yn ymddiheuro am y tro cyntaf yn eu tystiolaeth i’r Ymchwiliad.

Argymhelliad

Mae’r Cadeirydd a’r Panel wedi argymhell y dylai sefydliadau sy’n ymwneud â rhaglenni ymfudo plant nad ydynt wedi ymddiheuro am eu rôl ymddiheuro cyn gynted â phosib. Ni ddylid ymddiheuro drwy ddatganiadau cyhoeddus yn unig, ond yn benodol i’r plant ymfudol hynny roedden nhw’n gyfrifol am eu hymfudo.

Ers cyhoeddi’r adroddiad archwilio rhaglenni ymfudo plant, mae’r Gynghrair Dramor Brenhinol wedi ymddiheuro’n gyffredinol yn gyhoeddus i gyn-blant mudol a oedd o dan ei gofal.

lawndal ariannol

Yn ystod y 1990au, mynnodd Llywodraeth y DU fod sefydliadau ac awdurdodau penodol sy’n ymwneud â’r rhaglenni ymfudo plant yn gyfrifol am ddarparu iawndal a gwneud iawn i gyn blant ymfudol – nid Llywodraeth y DU. Er bod y ‘Gronfa Adfer Teuluoedd’ wedi cael ei sefydlu yn 2010 ac mae cymorth ac iawndaliadau wedi cael eu darparu dramor, nid yw cyn blant ymfudol yng Nghymru a Lloegr wedi derbyn iawndal ariannol gan Lywodraeth y DU na’r sefydliadau a’r awdurdodau ymglymedig. O ganlyniad, mae llawer o gyn blant ymfudol yn rhwystredig.

⁷⁷ Major 20 July 2017 3/19-23

Yr hyn roeddwn ei eisiau oedd cyfiawnder ac atebolrwydd. Ni chyfeiriwyd neb at yr heddlu am droseddau yn erbyn plant, ni farnwyd unrhyw sefydliad yn atebol.

Tyst a chyn-blentyn mudol a anfonwyd i Awstralia yn y 1950au yn naw oed

Argymhelliad

Mae'r Cadeirydd a'r Panel wedi argymhell bod Llywodraeth y DU yn sefydlu cynllun iawndal ariannol i blant ymfudol gynt sy'n goroesi, gan ddarparu dyraniad cyfartal i bob ymgeisydd. Mae hyn ar y sail eu bod nhw i gyd wedi bod yn agored i'r perygl o gam-drin rhywiol.

O ystyried oedran plant mudol gynt sy'n goroesi, anogwyd Llywodraeth y DU i sefydlu'r cynllun iawndal ariannol yn ddi-oed ac mae'n disgwyl y dylai'r taliadau ddechrau gael eu gwneud o fewn 12 mis (ar ôl cyhoeddiad yr adroddiad gwreiddiol), ac na roddir ystyriaeth i unrhyw daliadau iawndal eraill a wnaed mewn achosion penodol.

Cofnodion rhaglenni ymfudo plant

Trwy ei ymchwiliad, canfu'r Ymchwiliad fod rhai sefydliadau ymglymedig â'r rhaglenni ymfudo plant wedi methu â chadw eu cofnodion am y rhaglenni ymfudo plant yn ddiogel – gan gynnwys eu cofnodion am blant unigol. Nid yn unig rhwystrodd hyn yr archwiliad, roedd hefyd yn achosi trallod i'r cyn blant ymfudol a effeithiwyd. Mae esgeulustod ac arfer gwael gan y sefydliadau ymglymedig yn golygu bod cyn blant ymfudol:

- yn parhau i fod yn aneglur ynglŷn â pham y'u dewiswyd i fod yn rhan o'r rhaglen
- yn cael eu hatal neu'u hoedi rhag aduno gyda'u teulu, a
- gyda diffyg dealltwriaeth am eu hunaniaeth eu hun.

Mae'r Ymchwiliad o'r farn y dylai pob sefydliad ymglymedig â'r rhaglenni ymfudo plant gydnabod angen a dymuniad cyn blant ymfudol i gael mynediad at wybodaeth yn ymwneud â'u plentyndod. Dylai'r sefydliadau hyn sicrhau bod ganddynt systemau cadarn ar gyfer cadw a diogelu cofnodion unrhyw cyn blentyn ymfudol unigol sydd ar ôl.

Argymhelliad

Mae'r Cadeirydd a'r Panel wedi argymhell y dylai'r holl sefydliadau a anfonodd blant dramor fel rhan o'r rhaglenni mudo plant sicrhau bod ganddynt systemau cadarn mewn lle ar gyfer cadw a diogelu unrhyw gofnodion sy'n weddill a allai gynnwys gwybodaeth am blant ymfudol unigol, a dylent sicrhau eu bod yn gwbl hygyrch.

4.2 Cambridge House, Knowl View a Rochdale ('Rochdale')

Bu nifer o ymchwiliadau ac archwiliadau ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol yn Rochdale.^{78, 79} Cychwynnodd Cyngor Bwrdeistref Rochdale adolygiad penodol i ystyried ei hymglymiad wrth ymateb i honiadau o gam-drin plant yn rhywiol ac yn gorfforol yn Ysgol Knowl View a sefydliadau eraill roedd yn berchen arno neu'n eu rheoli. Serch hynny, cafodd yr adolygiad hwn ei atal yn 2014 oherwydd gorgyffyrddiad rhwng ymchwiliad heddlu parhaus a'r honiadau roedd yr adolygiad yn eu hystyried. Ni chafodd yr adolygiad ei ail-ddechrau a chafodd ei derfynu gan Gyngor Bwrdeistref Rochdale yn 2016 wrth ystyried archwiliad yr Ymchwiliad.

Ystyriodd yr Ymchwiliad a oedd plant yn cael eu cam-drin neu eu camfanteisio'n rhywiol yn hostel Cambridge House ac yn Ysgol Knowl View.⁸⁰ Archwiliodd hefyd a oedd Cyngor Bwrdeistref Rochdale a sefydliadau eraill yn ymwybodol o honiadau o gam-drin plant yn rhywiol ac a oeddent wedi cymryd camau priodol mewn ymateb.

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn darparu trosolwg o'r archwiliad hwn. Cyhoeddwyd adroddiad llawn ym mis Ebrill 2018 ac mae ynghlwm i'r adroddiad hwn fel atodiad.⁸¹

Ymchwiliad Rochdale mewn ffigurau

- **4** gwrandawriad rhagarweiniol (cynhaliwyd ar 16 Mawrth 2016, 27 Gorffennaf 2016, 10 Mai 2017 a'r 20 Medi 2017)
- **14** diwrnod o wrandawiadau cyhoeddus (cynhaliwyd rhwng 9 a'r 27 o Hydref 2017)
- **15** o gyfranogwyr craidd (achwynwyr, Cyngor Bwrdeistref Rochdale, Gwasanaeth Eryl y Goron, Heddlu Swydd Gaerhirfryn, Heddlu Manceinion Fwyaf a'r Adran Addysg)
- **51** o dystion
- **19,669** tudalen o dystiolaeth wedi datguddio i gyfranogwyr craidd

Trosolwg o Cambridge House ac ysgol Knowl View

Roedd Cambridge House yn hostel a gymerodd fechgyn ifanc oedd yn gweithio. Roedd ysgol Knowl View yn ysgol breswyl ar gyfer bechgyn ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol. Roedd y ddau sefydliad yn Rochdale ac roeddynt yn destun honiadau o gam-drin plant yn rhywiol o'r 1960au hyd at y 1990au.

⁷⁸ *Report of the independent Reviewing Officer in relation to child sexual exploitation issues in Rochdale Metropolitan Borough Council during the period 2006 to 2013.* Klonowski A for Rochdale Metropolitan Borough Council (2013) www.rochdale.gov.uk/pdf/2013-05-23-independent-reviewing-officer-report_into-csc-issues-v1.pdf

⁷⁹ *The overview report of the serious case review in respect of young people 1, 2, 3, 4, 5 and 6.* Rochdale Borough Safeguarding Children Board (2013) www.rochdaleonline.co.uk/uploads/f1/news/document/20131220_93449.pdf

⁸⁰ *Cambridge House, Knowl View and Rochdale: Scope.* Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/sexual-abuse-of-children-in-institutions-supervised-by-rochdale-borough-council?tab=scope

⁸¹ *Cambridge House, Knowl View and Rochdale: Investigation report.* Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/5322/view/Cambridge%20House%2C%20Knowl%20View%20and%20Rochdale%20Investigation%20Report%20April%202018.pdf

Agorwyd Cambridge House yn 1962 a darparodd bechgyn a dynion ifanc rhwng 15 a 21 oed a oedd y gweithio gyda rhywle i fyw. Talodd pob bachgen a dyn ifanc gyfraniad i'r hostel yn dibynnu ar lefel eu hincwm. Roedd rhai, ond nid pob un, o'r rheiny yn Cambridge House o dan ofal, ac wedi eu lleoli yno gan Gyngor Bwrdeistref Rochdale.

Sefydlwyd Ysgol Knowl View gan bedwar awdurdod lleol ar wahân (gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Rochdale) fel ysgol breswyl ar gyfer 'bechgyn heb ymaddasu' a derbyniodd ei disgyblion cyntaf yn 1969. Roedd yr ysgol yn gartref i fechgyn rhwng 7 a 16 oed, ac roedd yn darparu llety i lawer o'i staff.

Codwyd pryderon sylweddol am gam-drin bechgyn yn rhywiol yn y ddau sefydliad dro ar ôl tro dros gyfnod o 30 mlynedd. Yn ystod yr amser hwn, daeth adroddiadau cam-drin plant yn rhywiol i sylw nifer o asiantaethau statudol yn Rochdale. Ystyriodd yr Ymchwiliad a oedd ymateb yr asiantaethau hyn yn briodol ac yn ddigonol.

Ystyriodd yr Ymchwiliad hefyd ymglymiad Cyril Smith yn y ddau sefydliad, gan gynnwys honiadau ei fod yn cam-drin bechgyn yn rhywiol yn Cambridge House ac Ysgol Knowl View. Ystyriodd yr Ymchwiliad a oedd wedi defnyddio ei ddylanwad gwleidyddol i amharu ar unrhyw archwiliad i'w ymddygiad a adroddwyd yn Cambridge House.

Canfyddiadau'r Ymchwiliad

Cam-drin plant yn rhywiol yn Cambridge House

Clywodd yr Ymchwiliad dystiolaeth bod bechgyn o Cambridge House yn cael eu cam-drin yn rhywiol gan Cyril Smith o dan gochl arholiadau meddygol a disgyblu bechgyn a oedd yn chwarae triwant, yn rhy sâl i weithio neu'n rhedeg i ffwrdd.^{82, 83, 84}

... ac yna meddai, "Rydw i am wirio ti i weld os oes gennyt unrhyw lau pen neu unrhyw – rwyd ti'n gwybod, dy fod wedi golchi'ch hun yn iawn", neu rywbeth tebyg fel 'na ... Felly dywedodd, " Rydw i am i ti tynnu dy drôns ", felly fe wnes i dynnu fy nhrôns, fy nhrôns, a fy nghrys-T, a sefais yno heb ddillad amdanaf. Gofynnodd i mi wynebu'r wal. Ymestynnais fy mreichiau ac yna – ac yna dechreuodd – dechreuodd redeg ei ddwylo trwy fy ngwallt, ac fel gwneud hwnna i gyd – ...

Tyst a chyn-breswylwr Cambridge House

Cam-drin plant yn rhywiol yn Ysgol Knowl View

Clywodd yr Ymchwiliad fod "cyfoeth o dystiolaeth" bod bechgyn yn Ysgol Knowl View yn cael eu cam-drin yn rhywiol,⁸⁵ a bod y gamdriniaeth yn digwydd yn yr ysgol ac mewn mannau eraill yn Rochdale.

Roedd y cyflawnwyr yn cynnwys aelod o staff a wnaeth gam-drin plant yn Ysgol Knowl View.

⁸² RO-A1 10 October 2017 65/15 - 67/12

⁸³ RO-A2 11 October 2017 22/13 - 25/11

⁸⁴ RO-A4 11 October 2017 6/9 - 8/20

⁸⁵ Steven Ford QC 27 October 2017 6/5-14

... byddai'n gwylio fi yn y gawod, a byddai'n dweud wrthyf sut i fastyrbio yn y gawod. Ar y pryd, doeddwn i ddim ond yn ddeg mlwydd oed. Doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd mastyrbio. Roeddwn i'n meddwl fy mod i ddim ond yn golchi fy hun.

Tyst a chyn-breswylydd Ysgol Knowl View

Roedd cyflawnwr euogfarnedig o'r enw Roderick Hilton yn gallu cael mynediad i fechgyn yn yr ysgol dro ar ôl tro. Dangosodd y dystiolaeth a ddarparwyd i'r Ymchwiliad fod gweithgarwch rhywiol rhwng bechgyn a oedd yn preswyllo yn Knowl View hefyd yn digwydd a bod staff yn ymwybodol ohono. Yn nodedig, disgrifiodd adroddiad yn 1976 gam-drin rhywiol rhwng y bechgyn yma fel "*traddodiad is-ddiwylliannol*".⁸⁶

Yn ystod y gwrandawriad cyhoeddus, tystiodd Richard Farnell – arweinydd Cyngor Bwrdeistref Rochdale o 1986 i 1992 a'r arweinydd gwasanaethol ar adeg y gwrandawriad – am ei anwybodaeth bod cam-drin rhywiol plant wedi digwydd yn Ysgol Knowl View. Dywedodd Mr Farnell fod ganddo "*dim atgofion*" ohoni'n cael ei ddwyn at ei sylw.⁸⁷ Mae hyn er gwaethaf tystiolaeth cymhellaidd a gyflwynir i'r Ymchwiliad sy'n awgrymu'n wahanol. Dyfarnodd yr Ymchwiliad fod Mr Farnell "*wedi ceisio gochel rhag ei gyfrifoldeb a chyflwyno ei hun yn hollol anatebol am adfyd Knowl View a'r plant a ddiodeffodd. Mae hyn yn groes i arweinyddiaeth onest, drugarog a chyfrifol*".⁸⁸ Rhai wythnosau'n dilyn y gwrandawriad cyhoeddus, ymddiswyddodd Mr Farnell fel arweinydd Cyngor Bwrdeistref Rochdale.

Camfanteisio'n rhywiol ar blant yn Rochdale

Clywodd yr Ymchwiliad dystiolaeth bod bechgyn yn Ysgol Knowl View (a'i chartrefi gofal) hefyd yn cael eu camfanteisio arnynt am arian gan ddynion o amgylch Rochdale. Digwyddodd hyn mor ddiweddar â'r 1990au ac fe'i cynhaliwyd mewn lleoliadau gan gynnwys y toiledau cyhoeddus ar Smith Street, yn uniongyrchol ar draws y ffordd o swyddfeydd Gwasanaethau Cymdeithasol Rochdale. Roedd yna adroddiadau bod dynion o bob rhan o ogledd orllewin Lloegr yn dod i Rochdale i gamfanteisio a cham-drin y bechgyn hyn yn rhywiol.⁸⁹

Dangosodd tystiolaeth a gyflwynir i'r Ymchwiliad fod yr ysgol, adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg Cyngor Bwrdeistref Rochdale a'r heddlu yn ymwybodol am gamfanteisio yn rhywiol ar fechgyn o Knowl View. Ystyriodd yr Ymchwiliad sut a pham y gallai camfanteisio plant yn rhywiol yn Rochdale fod wedi caniatáu i barhau heb weithrediad effeithiol.

Canfu'r Ymchwiliad fod "*yr awdurdodau yn gwybod am gamfanteisio ar blant yn rhywiol o'r ysgol yn nhoiled Smith Street o leiaf o 1989 ... mae cofnodion plant unigol yn cyfleu diffyg brys llwyr ar ran yr awdurdodau i fynd i'r afael â'r broblem a thrin y materion ymglymedig am beth oeddent- ymosodiadau rhywiol difrifol ... nid oedd bechgyn mor ifanc ag 11 yn cael eu hystyried yn ddiodeffwyr, ond fel awduron eu camdriniaeth eu hunain.*"

⁸⁶ GMP001064_002

⁸⁷ Richard Farnell 24 October 2017 44/2 - 45/23, 49/17-23, 53/20-25

⁸⁸ Cambridge House, *Knowl View and Rochdale: Investigation report*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/5322/view/Cambridge%20House%2C%20Knowl%20View%20and%20Rochdale%20Investigation%20Report%20April%202018.pdf

⁸⁹ GMP00390_003

Cyril Smith

Clywodd yr Ymchwiliad dystiolaeth roedd Cyril Smith yn ymglymedig iawn yn Cambridge House ac i raddau llai yn ymglymedig yn Ysgol Knowl View. Clywodd fod Heddlu Swydd Gaerhirfryn wedi cynnal archwiliad eang i Cyril Smith yn 1969 a 1970 mewn perthynas â'r ymosodiad anweddus honedig o wyth fachgen – roedd chwech ohonynt wedi bod yn preswyllo yn Cambridge House. Daeth Heddlu Swydd Gaerhirfryn i'r casgliad y dylai Cyril Smith gael ei erlyn a chyflwynodd adroddiad cynhwysfawr i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP) ar 13 Mawrth 1970. Dychwelwyd penderfyniad chwe diwrnod yn ddiweddarach yn argymhell ni ddylai fod erlyniad oherwydd bod y cyhuddiadau'n hen, ni ellid ategu'r honiadau a byddai cymeriadau rhai o'r bechgyn yn debygol o olygu y bydd eu tystiolaeth dan amheuaeth.

Aeth Cyril Smith ymlaen i gael ei urddo'n farchog yn 1988. Derbyniodd yr Ymchwiliad dystiolaeth bod y rheini a oedd yn ymglymedig â'r apwyntiad – y Prif Weinidog ar y pryd Margaret Thatcher a Phwyllgor Archwiliad Anrhydeddau Gwleidyddol Tŷ'r Arglwyddi – wedi cael eu hysbysu am archwiliad Heddlu Swydd Gaerhirfryn a drafodwyd yn 1970 cyn penderfynu y dylai Cyril Smith gael ei urddo'n farchog.

Cododd cyfle arall i erlyn Cyril Smith am yr ymosodiadau honedig yn Cambridge House yn 1998, yn dilyn archwiliad heddlu ehangach gan Heddlu Manceinion Fwyaf i gam-drin plant yn rhywiol ym Manceinion ac o'i gwmpas. Penderfynodd Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) beidio â chodi cyhuddiadau yn erbyn Cyril Smith oherwydd ei fod wedi'i hysbysu yn 1970 na fyddai unrhyw weithrediad pellach yn cael eu cymryd. Roedd y CPS hefyd yn pryderu y byddai'n gamdriniaeth proses y llys i ddechrau erlyn cymaint o flynyddoedd yn ddiweddarach.

Mae'r archwiliadau hyn, a'r pryderon lluosog a straeon lleol yn dangos bod llawer yn ymwybodol o honiadau o gam-drin plant yn rhywiol gan Cyril Smith. Dyfarnodd yr Ymchwiliad ei fod yn *"hyddysg iawn ac yn fodlon perswadio cyhuddwyr i gadw'n dawel"*, a bod *"...amharoddrwydd i ystyried y gallai rhywun o amlygrwydd cyhoeddus allu bod yn gyfrifol am gam-drin plant yn rhywiol"*.⁹⁰

4.3 Astudiaeth achos i Gynulleidfa Benedictaidd Lloegr (rhan o archwiliad yr 'Eglwys Gatholig Rufeinig')

Yn ystod y 25 mlynedd diwethaf, bu nifer o ymchwiliadau ac adolygiadau i drefniadau'r Eglwys Gatholig ar gyfer atal a diogelu plant rhag cam-drin yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr. Mae archwiliad yr Ymchwiliad i'r Eglwys Gatholig Rufeinig yn edrych ar sut mae wedi ymdrin â honiadau ac amheuan o gam-drin plant yn rhywiol. Mae hyn yn cynnwys ystyried i ba raddau yr arweiniodd adolygiadau blaenorol i amddiffyn plant gan yr Arglwydd Nolan a'r Farwnes Cumberlege at newidiadau mewn polisi ac arfer.

⁹⁰ Cambridge House, Knowl View and Rochdale: Investigation report. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/5322/view/Cambridge%20House%2C%20Knowl%20View%20and%20Rochdale%20Investigation%20Report%20April%202018.pdf

Mae'r Ymchwiliad wedi nodi dwy astudiaeth achos yn yr archwiliad: Gynulleidfa Benedictaidd Lloegr ac Archesgobaeth Birmingham.⁹¹ Mae astudiaeth achos yr Ymchwiliad ar y Gynulleidfa Benedictaidd yn Lloegr wedi edrych i mewn i ddau abaty hyd yma – Ampleforth a Downside – y mae gan y ddau ysgol breswyl breifat â ffioedd sy'n gysylltiedig â nhw.

Mae Abaty Ampleforth yng Ngogledd Swydd Efrog ac fe'i meddiannwyd yn gyntaf gan fynachod Benedictineidd yn 1802. Yn 1930, agorwyd ysgol baratoi ar gyfer bechgyn yng Nghastell Gilling ac fe'i cyfunwyd ag ysgol baratoi leol arall i ddod yn St Martin's Ampleforth yn 1992. Arhosodd Ampleforth yn ysgol am fechgyn tan 2002 ac mae bellach yn ysgol gymysg gyda thua 600 o fyfyrwyr rhwng 12 a 18 oed.

Mae Downside Abbey yn Somerset ac mae wedi cael ysgol fynachaid bach ar gyfer bechgyn ers y 19eg ganrif. Datblygodd hyn i mewn i Ysgol Downside a arhosodd yn ysgol i fechgyn tan 2005 ac sydd erbyn hyn yn ysgol gymysg gyda thua 350 o ddisgyblion rhwng 11 a 18 oed.

Mae ysgolion Ampleforth a Downside wedi bod yn destun pryderon ynghylch cam-drin disgyblion yn rhywiol, â rhai ohonynt yn arwain at archwiliadau troseddol ac euogfarnau. Mae'r archwiliad hwn yn holi a wnaeth yr ysgolion cymryd gyfrifoldeb am ddiogelu plant a'u hamddiffyn rhag cam-drin rywiol. Mae hefyd yn edrych ar ymdrechion y Gynulleidfa Benedictaidd Saesneg i archwilio, dysgu gwersi a gweithredu newidiadau mewn ymateb i honiadau o gam-drin plant yn rhywiol.

Gwrandawriad y Gynulleidfa Benedictaidd Lloegr am ysgolion Ampleforth a Downside mewn ffigurau

- **3** gwrandawriad rhagarweiniol (cynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2016, 6 Mehefin 2017 a 5 Hydref 2017)
- **14** diwrnod o wrandawriadau cyhoeddus (cynhaliwyd rhwng 27 Tawchedd a 15 Rhagfyr 2017)
- **16** o gyfranogwyr craidd (Achwynwyr, Adrian Child, Eileen Shearer, Abaty ac Ysgol Ampleforth, Abaty ac Ysgol Downside, Abaty Ealing ac Ysgol St Benedict's, Cynulleidfa Benedictaidd Lloegr, Heddlu Gogledd Swydd Efrog, yr Heddlu Metropolitaidd, yr Arolygiaeth Ysgolion Annibynnol, Ofsted a'r Cyngor Catholig i'r Ymchwiliad)
- **63,095** tudalen o dystiolaeth wedi datguddio i gyfranogwyr craidd

Mae'r Ymchwiliad yn dal i ystyried ei ganfyddiadau ynglŷn â'r gwrandawriad cyhoeddus hwn a bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi mewn adroddiad archwiliad ar wahân yn ddiweddarach eleni.

Bydd gwrandawriad cyhoeddus arall ar astudiaeth achos Cynulleidfa Benedictaidd Lloegr yn cael ei chynnal yn gynnar y flwyddyn nesaf a bydd yn canolbwyntio ar Abaty Ealing. Gohiriwyd y gwrandawriad cyhoeddus ar gyfer yr abaty a'r ysgol Benedictaidd hon oherwydd achos llys parhaus sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol. O bosibl bydd yr Ymchwiliad

⁹¹ *Child sexual abuse in the Roman Catholic Church: Scope*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/investigation-into-failings-by-the-catholic-church?tab=scope

hefyd yn ystyried materion sy'n ymwneud â Worth, abaty Benedictaidd arall. Mae Atodiad A i'r adroddiad hwn yn cynnwys adroddiad cynnydd ar yr ymchwiliad ehangach i'r 'Eglwys Gatholig Rufeinig'.

4.4 Astudiaeth achos i Esgobaeth Chichester (rhan o archwiliad yr 'Eglwys Anglicanaidd')

Mae archwiliad o'r Eglwys Anglicanaidd yr Ymchwiliad yn ystyried sut mae sefydliadau wedi amddiffyn plant rhag camdriniaeth rywiol, o fewn Eglwys Lloegr a'r Eglwys yng Nghymru. Mae'r archwiliad hefyd yn asesu a yw polisïau diogelu ac amddiffyn plant yn briodol, ac yn edrych ar adolygiadau achos blaenorol a hanesyddol yn Eglwys Lloegr a'r Eglwys yng Nghymru.

Mae'r Ymchwiliad wedi nodi dwy astudiaeth achos yn yr archwiliad: Esgobaeth Chichester ac achos Peter Ball, cyn Esgob Lewes ac Esgob Caerloyw a gafodd rhybudd am drosedd rhywiol yn 1993 ac fe'i dyfarnwyd yn euog o droseddau rhywiol yn 2015.⁹²

Bu nifer o archwiliadau ac adolygiadau i Esgobaeth Chichester ers 2001, gan gynnwys adolygiad o achosion amddiffyn plant hanesyddol a gynhaliwyd gan Farwnes Butler-Sloss yn 2011. Yn 2011, cyhoeddodd Archesgob Caergaint ymweliad ar ddiogelu yn yr esgobaeth. Canfu hyn y bu methiannau wrth amddiffyn plant, a beirniadodd arferion a'r gweithdrefnau o fewn Eglwys Loegr ehangach.

Archwiliodd gwrandawriad cyhoeddus cyntaf yr Ymchwiliad ar yr Eglwys Anglicanaidd y diwylliant o fewn Esgobaeth Chichester a'r effaith a gafodd hyn ar ddiogelu plant; sut y mae arferion a gweithdrefnau ymateb i bryderon a diffygion o ran arferion diogelu wedi newid dros amser, sut y mae'r Eglwys yn rheoli recriwtio, dyrchafu, ymddiswyddo a chamau disgyblu, ac a yw dioddefwyr a goreswyr wedi derbyn iawndaliadau.

Gwrandawriad Esgobaeth Chichester mewn ffigurau

- **4** gwrandawriad rhagarweiniol (cynhaliwyd ar 16 Mawrth 2016, 27 Gorffennaf 2016, 4 Hydref 2017 a'r 30 Ionawr 2018)
- **14** diwrnod o wrandawriadau cyhoeddus (cynhaliwyd rhwng 5 Mawrth a'r 23 Mawrth 2018)
- **41** o gyfranogwyr craidd (achwynwyr, Goreswyr Cam-drin Rhywiol Gweinidogion a Chlerigwyr, Cyngor yr Archesgobion, Janet Hind, John Hind, George Carey, Peter Ball, Heddlu Sussex, Heddlu Swydd Gaerloyw, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Swyddfa Yswiriant Eglwysig a'r Adran Addysg)
- **57,795** tudalen o dystiolaeth wedi datguddio i gyfranogwyr crai

⁹² *Child sexual abuse in the Anglican Church: Scope*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/investigation-into-failings-by-the-anglican-church?tab=scope

Mae'r Ymchwiliad yn ystyried ei ganfyddiadau o ran astudiaeth achos Esgobaeth Chichester a bydd yn cyhoeddi'r rhain gyda chanfyddiadau astudiaeth achos Peter Ball mewn adroddiad archwiliad ar wahân a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Mae Atodiad A i'r adroddiad hwn yn cynnwys adroddiad cynnydd ar yr ymchwiliad ehangach i'r 'Eglwys Anglicanaidd'.

Pennod 5

Ymarferion presennol i daclo cam-drin plant yn rhywiol

5 Ymarferion presennol i daclo cam-drin plant yn rhywiol

Mae'r Ymchwiliad wedi ymgymryd ag amrediad o waith i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth am sut mae sefydliadau ar hyn o bryd yn atal ac yn ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi gwaith yr Ymchwiliad hyd yma ar y rhynggrwyd, cyfiawnder troseddol a sifil, a'r sector iechyd.

Yn bwysig, mae'r Ymchwiliad yn dechrau dod i gasgliadau ynglŷn â'r camau dylai cael eu cymryd i wella'r ffordd y mae sefydliadau'n ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, ac yn nodi nifer o argymhellion ar gyfer newid.

5.1 Y rhynggrwyd

Gwaith yr Ymchwiliad hyd yma

Mae ymchwiliad 'Y rhynggrwyd a cham-drin plant yn rhywiol' yn edrych ar sut mae sefydliadau wedi ymateb i gam-drin plant yn rhywiol a cham-fanteisio a hwylusir gan y rhynggrwyd.⁹³ Mae hyn yn cynnwys cam-drin yn rhywiol sy'n ymwneud â rhannu delweddau cam-drin plant yn rhywiol, gwyllo neu gyfarwyddo cam-drin rhywiol ar-lein, magu perthynas amhriodol, 'secstio' ac unrhyw ddulliau eraill o ddefnyddio'r rhynggrwyd i hwyluso cam-drin plant yn rhywiol.

Cyfrifoldeb y Llywodraeth ar gyfer taclo cam-drin plant yn rhywiol ar-lein yng Nghymru a Lloegr

Lloegr

Y Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am osod polisi plismona yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros orchymyn Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein yr Asiantaeth Trosedd Genedlaethol.

Mae'r Adran Addysg yn gyfrifol am bolisiâu ar wasanaethau plant ac addysg yn Lloegr. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ysgolion a cholegau yn diogelu disgyblion rhag cam-drin plant yn rhywiol ar-lein. Mae'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn arwain Strategaeth Diogelwch ar y Rhynggrwyd Llywodraeth y DU.

⁹³ *The internet and child sexual abuse: Scope*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/child-sexual-abuse-facilitated-by-the-internet?tab=scope

Cymru

Mae Addysg yng Nghymru wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu haddysgu ynglŷn â'r peryglon o gam-drin plant yn rhywiol ar-lein.

Archwiliodd y gwrandawriad cyhoeddus cyntaf ar yr archwiliad sut mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn ymateb i gam-drin plant yn rhywiol a hwylusir gan y rhynggrwyd. Comisiynodd yr Ymchwiliad dri adolygiad o ymchwil presennol i lywio ei ymchwiliad. Ystyriodd yr adolygiadau hyn ymddygiad a nodweddion cyflawnwyr ar-lein,⁹⁴ agoredrwydd i niwed a nodweddion dioddefwyr ar-lein,⁹⁵ a beth sy'n hysbys am raddfa cam-drin plant yn rhywiol ar-lein.⁹⁶ Mae'r Ymchwiliad hefyd wedi siarad â phlant a phobl ifanc am gam-drin plant yn rhywiol ar-lein ac am aros yn ddiogel ar-lein.

Mae'r adran hon yn crynhoi materion sy'n ymddangos o fewn yr archwiliad ynglŷn â natur a graddfa cam-drin plant yn rhywiol ar-lein a'r ymateb gan orfodi'r gyfraith. Wrth i'r ymchwiliad fynd yn ei flaen, cynhelir gwrandawriad pellach ar faterion gan gynnwys ymateb y diwydiant rhynggrwyd i gam-drin plant yn rhywiol ar-lein.

Materion a ystyriwyd

Dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol ar-lein

Mae adolygiad o ymchwil presennol i raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol ar-lein yn ei gwneud yn glir bod hon yn broblem gymhleth a chynyddol.⁹⁷ Mae'n nodi bod plant yn dod yn fwy agored i beryglon cam-drin plant yn rhywiol ar-lein gan eu bod yn treulio mwy o amser ar-lein ac yn mynd ar-lein yn iau.

Mae ymchwil yn dangos bod profiadau plentyndod niweidiol megis cam-drin corfforol ac amlygiad i wrthdaro rhieniol yn gwneud plant yn fwy agored i erledigaeth ar-lein. Mae hefyd yn nodi bod nifer y plant ifanc sy'n dioddef cam-drin plant yn rhywiol ar-lein yn debygol o gael eu tan-adrodd.⁹⁸

⁹⁴ *Behaviour and characteristics of perpetrators of online-facilitated child sexual abuse and exploitation: a rapid evidence assessment.* NatCen Social Research for the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/3720/view/Rapid%20Evidence%20Assessment%20Behaviour%20and%20Characteristics%20of%20Perpetrators%20of%20Online-facilitated%20Child%20Sexual%20Abuse%20and%20Exploitation.pdf

⁹⁵ *Characteristics and vulnerabilities of victims of online-facilitated child sexual abuse and exploitation: a rapid evidence assessment.* Lancaster University for the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/3719/view/Rapid%20Evidence%20Assessment%20Characteristics%20and%20Vulnerabilities%20of%20Victims%20of%20Online%20Facilitated%20Child%20Sexual%20Abuse%20And%20Exploitation.pdf

⁹⁶ *Quantifying online facilitated child sexual abuse.* University of Huddersfield for the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/3722/view/Rapid%20Evidence%20Assessment%20Quantifying%20The%20Extent%20Of%20Online%20Facilitated%20Child%20Sexual%20Abuse.pdf

⁹⁷ *Quantifying online facilitated child sexual abuse.* University of Huddersfield for the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/3722/view/Rapid%20Evidence%20Assessment%20Quantifying%20The%20Extent%20Of%20Online%20Facilitated%20Child%20Sexual%20Abuse.pdf

⁹⁸ *Characteristics and vulnerabilities of victims of online-facilitated child sexual abuse and exploitation: a rapid evidence assessment.* Lancaster University for the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/3719/view/Rapid%20Evidence%20Assessment%20Characteristics%20and%20Vulnerabilities%20of%20Victims%20of%20Online%20Facilitated%20Child%20Sexual%20Abuse%20And%20Exploitation.pdf

Breck Bednar

Ym mis Chwefror 2014, cafodd Breck Bednar ei lofruddio gan ddyn a oedd wedi magu perthynas amhriodol gydag ef ar-lein. Rhoddodd ei fam, Ms LaFave, dystiolaeth i'r Ymchwiliad yn ystod gwrandawriad cyhoeddus yr archwiliad i'r rhyngwyd ym mis Ionawr 2018.

Cafodd mab 14-mlwydd-oed Ms LaFave, Breck, ei lofruddio gan Lewis Daynes, a oedd yn 18 oed ar y pryd. Roedd Daynes a Breck yn rhan o gymuned chwarae gemau ar-lein a sefydlwyd gan Daynes. Magodd Daynes berthynas amhriodol gyda Breck dros gyfnod o amser, dylanwadodd arno a'i droi yn erbyn ei fam.

Daeth Ms LaFave yn fwyfwy pryderus bod Breck yn cael ei magu mewn perthynas amhriodol gan Daynes, a gofynnodd am gyngor gan ffrindiau, cymdogion a'r ysgol lle bu'n gweithio. Adroddodd ei phryderon i Heddlu Surrey hefyd ond ni chymerodd hwy unrhyw gamau pellach.

perthnasoedd gyda'r cyfoedion ac oedolion yn eu bywydau. Gall cael y trafodaethau hyn wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol, a gall helpu'r gymdeithas i gymryd camau i amddiffyn plant yn well. Yn amlwg, nid yw trafodaeth ar ei ben ei hun yn ddigon – mae'n rhaid ei ddilyn â chamau gweithredu. Ond os nad yw'r gymdeithas yn gwella ei ddealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol ac yn ei drafod yn agored ac yn blaen, fydd y gweithredu cywir ddim yn dilyn.

Bydd yr Ymchwiliad yn parhau i ystyried sut y gellir cefnogi newid diwylliant. Rhaid i'r sefydliadau hynny sydd â chyfrifoldeb i gadw plant yn ddiogel rhag cam-drin yn rhywiol chwarae rhan allweddol. Trafodir pwysigrwydd arweinyddiaeth o fewn y sefydliadau hynny yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

6.2 Proffesiynol a gwleidyddol

Materion arweinyddiaeth, proffesiynol ac arferion i'r rheini sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli mewn sefydliadau perthnasol.

Crynodeb o'r negeseuon allweddol

- Mae trafodaeth agored a gonest am gam-drin plant yn rhywiol yn gofyn i arweinwyr mewn sefydliadau fodelu'r ymddygiadau a'r gwerthoedd cywir.
- Gwneir argymhellion i atgyfnerthu arweinyddiaeth Llywodraeth y DU ar gydweithrediad rhyngwladol ac o fewn gwasanaeth yr heddlu.

Mae'n amlwg ohono'i hun bod ansawdd yr arweinyddiaeth a'r arfer o fewn sefydliadau yn hanfodol i amddiffyn plant, ac i atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Gwelwyd hyn yn gyson ar draws pob rhan o waith yr Ymchwiliad.

Mae'n bwysig nodi nad yw ystyriaeth yr Ymchwiliad o'r materion hyn yn cael ei gyfyngu i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio o fewn yr asiantaethau statudol perthnasol. Yn unol â Chylch Gorchwyl yr Ymchwiliad, mae ystyriaeth yr Ymchwiliad o arweinyddiaeth ac arfer yn ymestyn i bawb sy'n gweithio mewn sefydliadau gwladwriaethol ac anwladwriaethol sydd â rôl i'w chwarae wrth atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol – gan gynnwys y rheiny yn y llywodraeth, gorfodi'r gyfraith, addysg, gofal iechyd, sefydliadau crefyddol, elusennau a sefydliadau'r sector gwirfoddol.

Yn yr adran flaenorol, cyfeiriodd yr Ymchwiliad at yr angen i arweinwyr o fewn sefydliadau chwarae rôl allweddol wrth helpu i wella diwylliant o ran cam-drin plant yn rhywiol. Bellach mae dyletswydd didwylledd wedi'i sefydlu mewn gofal iechyd ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i weithwyr proffesiynol fod yn agored ac yn onest pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda'r driniaeth neu'r gofal y maent yn ei ddarparu.

Serch hynny, ar draws ei waith hyd yma, mae'r Ymchwiliad wedi gweld enghreifftiau o sefydliadau sydd â diffyg arweinyddiaeth agored a gonest. Er enghraifft, nid oedd Llywodraeth y DU – a ddylai osod esiampl i eraill ei ddilyn – ers sawl degawd yn cymryd cyfrifoldeb llawn am ei fethiannau mewn cysylltiad â'r rhaglenni mudo plant.¹²⁴ Yn ystod ei

¹²⁴ *Child migration programmes: Investigation report*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/4265/view/Child%20Migration%20Programmes%20Investigation%20Report%20March%202018.pdf

archwiliad o sefydliadau yn Rochdale, clywodd yr Ymchwiliad fod uwch arweinwyr yn gwadu unrhyw gyfrifoldeb am y diffyg ymateb effeithiol i gam-drin yn rhywiol o fechgyn a oedd yn agored i niwed. Roedd hyn er gwaethaf tystiolaeth gymhellol a thystiolaethau yn nodi eu bod yn ymwybodol bod camdriniaeth yn digwydd.¹²⁵

Nid yw'r Ymchwiliad yn ystyried bod y rhain yn enghreifftiau unigryw. Mae cyfranogwyr yn y Truth Project wedi datgan yn aml fod sefydliadau yn gwadu cyfrifoldeb, neu ymwybyddiaeth am y gamdriniaeth a ddiodefodd.^{126, 127} Mae nifer yn mynd at sefydliad degawdau'n ddiweddarach, am ddeall yr hyn a ddigwyddodd a sut y caniateir iddo ddigwydd. Maent yn ymwybodol nad yw'r bobl y maent yn delio â nhw yn gyfrifol am y gamdriniaeth a ddiodefodd neu am ymateb y sefydliad ar y pryd, ond maent yn disgwyl i'r sefydliad gymryd cyfrifoldeb nawr. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd bob tro. Mae'r Ymchwiliad o'r farn bod sefydliadau yn rhy aml yn blaenoriaethu enw da arweinwyr gwleidyddol neu enw da eu staff, neu osgoi atebolrwydd cyfreithiol, hawliadau neu oblygiadau yswiriant, dros les plant a mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol.

Wrth i'r gwaith mynd yn ei flaen, bydd yr Ymchwiliad yn ystyried sut y dylai Llywodraeth y DU a sefydliadau eraill weithio i hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gynyddol am gam-drin plant yn rhywiol. Bydd hyn yn gofyn am newid ehangach mewn diwylliant ar draws y gymdeithas ac o fewn y sefydliadau sy'n gyfrifol am gadw plant yn ddiogel. Mae dau argymhelliad y mae'r Ymchwiliad yn ei wneud nawr y bydd o'i farn yn gwneud cyfraniad pwysig.

Mae'r argymhelliad cyntaf yn canolbwyntio ar rôl arweinyddiaeth bwysig Llywodraeth y DU mewn hwyluso newid diwylliant. Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU arddangos blaenoriaeth a phwysigrwydd taclo cam-drin plant yn rhywiol trwy ei weithredoedd. Fodd bynnag, mae'r Ymchwiliad wedi nodi bod Llywodraeth y DU dal heb gadarnhau Confensiwn Cyngor Ewrop ar Amddiffyn Plant yn erbyn Cam-fanteisio Rhywiol a Cham-drin yn Rhywiol¹²⁸ (a elwir hefyd yn 'Confensiwn Lanzarote') a lofnodwyd yn 2008. Mae'r DU yn un o 42 gwlad a lofnododd y Confensiwn ond mae bellach yn un o ddim ond pum gwlad llofnodydd sydd i'w cadarnhau.¹²⁹

Mae Confensiwn Lanzarote yn nodi'r ystod eang o fesurau sy'n rhaid bod yn eu lle i ddiogelu plant rhag camdriniaeth rywiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyflwyno mesurau ataliol (megis sgrinio, recriwtio a hyfforddi pobl sy'n gweithio gyda phlant, a gwneud plant yn ymwybodol o'r peryglon o gam-drin plant yn rhywiol)
- sefydlu rhaglenni i gefnogi diodefwr a goroeswyr, annog adrodd am gam-drin plant yn rhywiol dan amheuaeth, a sefydlu llinellau gymorth ffôn ac ar y rhynggrwyd ar gyfer plant, a

¹²⁵ Cambridge House, *Knowl View and Rochdale: Investigation report*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/5322/view/Cambridge%20House%2C%20Knowl%20View%20and%20Rochdale%20Investigation%20Report%20April%202018.pdf

¹²⁶ *Truth Project: Experiences shared - victims and survivors speak out*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2016) www.iicsa.org.uk/key-documents/923/view/truth-project-experiences-shared.pdf

¹²⁷ *Victim and survivor voices from the Truth Project*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/3304/view/Victim%20and%20survivor%20voices%20from%20the%20Truth%20Project.pdf

¹²⁸ *Lanzarote Convention*. Council of Europe. www.coe.int/en/web/children/lanzarote-convention

¹²⁹ *Chart of signatures and ratifications of Treaty 201*. Council of Europe. www.coe.int/en/web/conventions/full-list/-/conventions/treaty/201/signatures?p_auth=PTzA7FW6

- sicrhau bod cymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol gyda phlentyn (megis magu perthynas amhriodol a cham-drin plant yn rhywiol tramor) yn drosedd.¹³⁰

O ystyried yr angen cynyddol i ystyried sut mae plant yn cael eu diogelu rhag bygythiadau dramor (er enghraifft, cam-drin plant yn rhywiol ar-lein), mae cydweithrediad rhyngwladol yn dod yn fwyfwy pwysig. Mae'r Ymchwiliad yn cydnabod bod Llywodraeth y DU wedi gwneud ymdrechion sylweddol i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol ar lefel ryngwladol, ond mae'n ystyried bod ei oedi wrth gadarnhau Confensiwn Lanzarote yn destun gofid.

Argymhelliad

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod Llywodraeth y DU yn cadarnhau Confensiwn Cyngor Ewrop ar Amddiffyn Plant yn erbyn Cam-fanteisio Rhywiol a Cham-drin yn Rhywiol ('Confensiwn Lanzarote') heb oedi pellach. Maent hefyd yn argymhell y dilynir y cadarnhad hwn, ac eto heb oedi pellach, gan gamau i roi Confensiwn Lanzarote ar waith.

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod y Swyddfa Gartref, fel adran arweiniol Llywodraeth y DU, yn cyhoeddi amserlen ar gyfer cadarnhau Confensiwn Lanzarote, gan gymryd unrhyw gamau ychwanegol sy'n ofynnol er mwyn i'r DU gydymffurfio'n llawn erbyn Mehefin 2018.

Bwriad yr ail argymhelliad yw cefnogi newid diwylliant yng ngwasanaeth yr heddlu trwy godi proffil a blaenoriaeth cam-drin plant yn rhywiol. Bydd gan wasanaeth yr heddlu rôl hanfodol o hyd wrth atal ac ymateb i honiadau o gam-drin plant yn rhywiol. Mae'n gyfrifol am ymchwilio i honiadau o gam-drin plant yn rhywiol a helpu i sicrhau bod cyflawnwyr yn cael eu dwyn gerbron llys. Yn aml, bydd yr heddlu yn un o'r asiantaethau cyntaf a wynebwr gan ddiodefwrwr cam-drin plant yn rhywiol, ac felly yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod plentyn yn cael ei gydnabod fel dioddefwr ac yn cael mynediad i'r cymorth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Ymchwiliad yn ymwybodol bod y Coleg Plismona yn datblygu hyfforddiant ar gyfer swyddogion yr heddlu sy'n gweithio o fewn Unedau Gwarchod y Cyhoedd. Mae hefyd wedi cynnig trwydded i ymarfer ar gyfer swyddogion heddlu arbenigol, sy'n bwriadu sicrhau mai dim ond swyddogion sydd â'r arbenigedd angenrheidiol sy'n ymchwilio i achosion cam-drin plant yn rhywiol. Mae hyn yn waith pwysig ond ni fydd, nac y bwriedir iddo, sicrhau bod y diwylliant ehangach o fewn yr heddlu yn atgyfnerthu ac yn cefnogi eu rôl wrth atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Mae'r Ymchwiliad o'r farn y dylid cymryd camau penodol i godi ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol o fewn yr heddlu, a sicrhau bod y diwylliant cywir yn cael ei ddatblygu a'i gynnal.

Rhaid i unrhyw swyddog heddlu sy'n dymuno symud ymlaen i swyddi uwch arweinyddiaeth yn yr heddlu basio'r Cwrs Rheoli Strategol yn gyntaf. Mae'r Ymchwiliad o'r farn y dylid ymestyn y gofynion mynediad ar gyfer y cwrs hwn i gynnwys cwblhau hyfforddiant ac achrediad penodol mewn perthynas â rôl yr heddlu mewn atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Dylai fod gofyn i'r swyddogion heddlu hyn feddu ar brofiad gweithredol penodol o blismona perthynol i gam-drin plant yn rhywiol. Dylai'r Coleg Plismona arwain y gwaith i ddatblygu'r pecyn hyfforddi ac achrediad newydd.

¹³⁰ Details of Treaty No. 201. Council of Europe. www.coe.int/en/web/conventions/full-list/-/conventions/treaty/201

Argymhelliad

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell y dylai fod yn ofynnol i unrhyw swyddog heddlu (neu staff sy'n gyfwerth) sydd am symud ymlaen i gnewyllyn y Prif Swyddog yn gyntaf:

- gael profiad plismona gweithredol mewn atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, a
- chyflawni achrediad yn rôl y gwasanaeth heddlu wrth atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.

Dylai'r Swyddfa Gartref newid gofynion mynediad gan ddefnyddio ei bwerau o dan Reoliadau'r Heddlu 2003 i gyflawni hyn.

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod y Coleg Plismona'n datblygu cynnwys hyfforddiant a threfniadau achredu.

Bydd yr Ymchwiliad yn parhau i ystyried materion sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth ac arfer mewn sefydliadau wrth i'w gwaith fynd yn ei flaen. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth o sut i wella ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol er mwyn helpu gweithwyr proffesiynol i gydnabod dioddefwyr a'r hyn y gellir ei wneud i annog gweithwyr proffesiynol i gydnabod ac adrodd camdriniaeth.

6.3 Strwythurol

Y fframweithiau deddfwriaethol, llywodraethol a chyfundrefnol mewn a rhwng sefydliadau.

Crynodeb o'r negeseuon allweddol

- Mae'r diffyg cofrestrriad proffesiynol i weithwyr sydd â rolau gofal mewn cartrefi i blant yn Lloegr yn destun pryder i'r Ymchwiliad.
- Dylid gwella'r trefniadau gwirio a gwahardd yng Nghymru ac yn Lloegr.
- Dylai sefydliadau wella'r ffordd y maent yn ymateb i ddioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant.
- Yn aml, mae dioddefwyr a goroeswyr sy'n oedolion yn wynebu anawsterau wrth geisio cael mynediad i gofnodion ynghylch eu plentyndod.

Mae amrywiaeth o drefniadau deddfwriaethol a rheoleiddiol ar waith i ddiben cynorthwyo sefydliadau i gadw plant yn ddiogel rhag cam-drin rhywiol ac ymateb yn briodol pan fydd hynny'n digwydd. Mae'r adran hon yn disgrifio'r fframwaithiau deddfwriaethol a rheoliadol eraill a nodwyd yn fwyaf gyson drwy waith yr Ymchwiliad hyd yn hyn. Mae'n cynnwys argymhellion lle mae'r Ymchwiliad eisoes wedi nodi camau y dylid eu cymryd yn awr i wella'r ffordd y mae'r trefniadau hyn yn gweithredu.

Rheoleiddio gweithlu

Yn amlwg, mae'n hollbwysig bod sefydliadau'n gwneud popeth y gallant er mwyn sicrhau bod y rheiny sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda nhw yn addas ar gyfer y gwaith maent yn ei wneud ac nad ydynt yn peri risg i blant. Mae'n werth nodi y canfu adolygiad yr Ymchwiliad o adroddiadau ac ymchwiliadau blaenorol mai agweddau staffio (gan gynnwys arfer, goruchwyllo a recriwtio) oedd y meysydd y canolbwyntiwyd arnynt fwyaf fel sail argymhellion. O ganlyniad, nid yw'n syndod bod materion sy'n ymwneud â rheoelddio'r gweithlu a recriwtio'n ddiogel wedi codi'n rheolaidd drwy waith yr Ymchwiliad hyd yn hyn.

Mae'r Ymchwiliad yn ystyried digonolrwydd trefniadau cyfredol i sicrhau y caiff y rheiny sy'n cael eu nodi'n anaddas i weithio gyda phant eu hadnabod a'u gwahardd o'r gweithlu. Bydd yr Ymchwiliad yn parhau i ystyried y materion hyn, ond ceir dwy ardal lle ystyrir y dylid cymryd camau yn awr.

Yn gyntaf, mae dioddefwyr a goroeswyr sy'n cymryd rhan yn y Truth Project wedi dweud wrth yr Ymchwiliad am y cam-drin a ddioddefwyd ganddynt mewn cartrefi gofal preswyl. Mae'r Ymchwiliad hefyd wedi nodi bod plant mewn lleoliadau preswyl yn arbennig o agored i gam-drin rhywiol gan oedolion sy'n gweithio yn y lleoliadau hynny ac sy'n gyfrifol am eu lles. Fodd bynnag, mae'r Ymchwiliad hefyd wedi nodi nad oes unrhyw ofynion o ran cofrestriad proffesiynol ar waith i staff sy'n gweithio mewn cartrefi i blant yn Lloegr, ar wahân i weithwyr cymdeithasol, sy'n wahanol i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'n rhaid i gartrefi plant yn Lloegr gofrestru gydag Ofsted a disgwylir i'r rheiny sy'n gweithio mewn rolau gofal ddal cymhwyster ar y lefel sylfaenol. Serch hyn, nid oes unrhyw ofyniad i weithwyr gofal unigol, ar wahân i weithwyr cymdeithasol, gofrestru gyda chorff annibynnol sydd â chyfrifoldeb dros godi safonau yn y proffesiwn a goruchwyllo eu haddasrwydd i ymarfer. Mae rheoelddio lleoliad gofal gan arolygiaeth annibynnol yn atgyfnerthu cofrestru gweithlu proffesiynol effeithiol – nid yw'n ei ddisodli.

Mae'n destun pryder mawr i'r Ymchwiliad fod diffyg cofrestriad proffesiynol i'r rheiny sy'n gweithio mewn rolau gofal mewn cartrefi i blant yn Lloegr – yn enwedig gan y darparwyd sail ddeddfwriaethol ar gyfer cofrestru'r staff hyn gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, ond ni weithredwyd yr agwedd hon erioed yn lloegra diwygiwyd y Ddeddf yn dilyn hynny. Mae'n argymhell, felly, fod Llywodraeth y DU yn mynd i'r afael â hyn.

Argymhelliad

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod yr Adran Addysg yn cyflwyno trefniadau ar gyfer cofrestru staff sy'n gweithio mewn rolau gofal mewn cartrefi i blant.

Dylid cofrestru gyda chorff annibynnol sy'n gyfrifol am osod a chynnal safonau hyfforddiant, ymddygiad a datblygiad proffesiynol parhaus, ac sydd â'r grym i orfodi'r rhain drwy weithdrefnau addasrwydd i ymarfer.

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn cydnabod y gallai fod angen cyfnod cyflwyno ac felly mae'n argymhell y dylid blaenoriaethu cofrestriad proffesiynol rheolwyr cartrefi i blant.

Yn ail, mae'r Ymchwiliad o'r farn y dylid gwella trefniadau gwirio a gwahardd yng Nghymru ac yn Lloegr. Caiff y trefniadau hyn eu rheoli gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).

Mae'r GDG yn gyfrifol am gyhoeddi tystysgrifau o gofnodion troseddol i unigolion sy'n ceisio gweithio neu wirfoddoli mewn amrywiaeth eang o rolau, gan gynnwys gweithio gyda phlant. Mae'r GDG hefyd yn ystyried addasrwydd unigolion i weithio gyda phlant (neu oedolion sy'n agored i niwed) ar sail eu heuogfarnau troseddol blaenorol, gwybodaeth gan yr Heddlu a gwybodaeth a dderbynnir gan gyflogwyr a rheoleiddwyr. Pan fydd y GDG yn ystyried bod unigolyn yn anaddas i weithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed, bydd yn eu gwahardd rhag y fath waith. Mae'n drosedd i unigolyn weithio mewn rôl y mae wedi'i wahardd rhagddi ac i gyflogwr gyflogi unigolyn i rôl os yw'n gwybod bod yr unigolyn wedi'i wahardd rhagddi.

Mae effeithiolrwydd y trefniadau gwirio a gwahardd yn dibynnu ar bryd ac os yw'r GDG yn derbyn y wybodaeth y mae ei hangen. Mae Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 yn datgan y dylai'r sefydliadau sy'n gyfrifol am gynnal cofrestrau o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant yn ystyried rhannu gwybodaeth gyda'r GDG ac mae'n rhoi'r gallu iddynt wneud hynny, ond nid oes dyletswydd i rannu gwybodaeth berthnasol.¹³¹ Mae'r trefniant hwn yn dibynnu ar ddisgresiwn y sefydliadau hynny i rannu gwybodaeth am weithwyr proffesiynol sy'n peri risg neu niwed i blant â'r GDG – a cheir perygl nad yw'r wybodaeth bwysig hon yn cael ei rhannu.

O ran egwyddor, mae'r Ymchwiliad o'r farn y dylai fod dyletswydd gyfreithiol ar y rheiny sy'n cadw cofrestr proffesiynol i rannu gwybodaeth â'r GDG pan fydd unigolyn wedi'i wahardd o'r gofrestr am resymau sy'n ymwneud â pheri risg i blant.

Mae'r Ymchwiliad hefyd o'r farn y dylai'r GDG wahardd y gweithiwr proffesiynol rhag gweithio gyda phlant yn awtomatig yn dilyn derbyn gwybodaeth o'r fath gan gofrestr broffesiynol. Mae hyn yn amodol ar unrhyw sylwadau y byddai'r unigolyn yn dymuno eu gwneud i'r GDG os oeddent yn ystyried gwaharddiad rhag gweithio gyda phlant i fod yn anghymesur neu'n annheg.

Argymhellion

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod y Swyddfa Gartref yn sicrhau y caiff Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ei diwygio mewn modd lle, pan fydd gwrandawriad addasrwydd i ymarfer wedi'i gynnal gan geidwad cofrestr berthnasol gan arwain at dynnu'r ymarferydd oddi ar y gofrestr honno o ganlyniad i resymau sy'n ymwneud â niwed i blant neu'r risg ohono:

- mae gan geidwad y gofrestr ddyletswydd i anfon y wybodaeth i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), ac
- mae gan y GDG, wedi derbyn yr wybodaeth honno, ddyletswydd i wahardd yr ymarferydd yn awtomatig rhag gweithio gyda phlant, gan roi cyfle iddo gyflwyno sylwadau i'r GDG os yw'n ystyried y gwaharddiad i fod yn anghymesur neu'n annheg.

¹³¹ *Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006*. www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/47/contents

Ymateb i gam-drin plant yn rhywiol

Mae dioddefwyr a goroeswyr wedi dweud wrth yr Ymchwiliad am yr ymatebion y maent wedi'u derbyn ar ôl adrodd am y cam-drin a ddioddefwyd ganddynt – yn aml fel oedolion, flynyddoedd ar ôl cael eu cam-drin. Er bod rhai wedi datgan y cafwyd ymateb cadarnhaol ganddynt sy'n cynnwys cydymdeimlad a dealltwriaeth, mae eraill wedi cael profiad gwael wrth fynd at sefydliadau.¹³² Wrth reswm, mae dioddefwyr a goroeswyr yn disgwyl i sefydliad gymryd cyfrifoldeb am ei ymddygiad, ni waeth faint o amser sydd wedi mynd heibio.

Mae gwaith yr Ymchwiliad wedi ei arwain i ystyried sut y mae heddluoedd yn ymateb i gwynion ynghylch sut y maent wedi ymchwilio i gam-drin plant yn rhywiol. Dylai heddluoedd ymdrin â phob cwyn am ymddygiad heddweision yn unol ag arweiniad a gyhoeddwyd gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)¹³³ ac yn seiliedig ar reoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002.¹³⁴

Mae'r rheoliadau hyn yn datgan y gall heddluoedd ofyn i'r IOPC am ganiatâd i 'anghymhwyso' – hynny yw, peidio ag ymchwilio – cwyn lle bydd mwy na 12 mis wedi mynd heibio ers y digwyddiad y mae'r gŵyn yn cyfeirio ato heb fod rheswm dilys am yr oedi. Gall heddluoedd hefyd wrthod ymchwilio i gŵyn pe byddai'n arwain at anghyfiawnder.

Mae'r Ymchwiliad yn ymwybodol fod gweithredu ar sail y canllawiau hyn wedi arwain at gŵyn am ddiystyru ymchwiliad i gam-drin plant yn rhywiol. Mae dealltwriaeth y gall gymryd blynyddoedd neu hyd yn oed degawdau i ddioddefwyr a goroeswyr ddatgelu'r cam-drin rhywiol a ddioddefwyd ganddynt, ac mae rhai yn ansicr ynghylch mynd at yr Heddlu, yn enwedig os ydynt yn teimlo eu bod wedi'u methu eisoes. O ganlyniad, nid yw'r Ymchwiliad yn ystyried hyn i fod yn ymateb priodol i gŵyn am gam-drin plant yn rhywiol.

Mae'r Ymchwiliad yn cydnabod bod yn rhaid i gyfarwyddyd IOPC adlewyrchu deddfwriaeth berthnasol a bod yn rhaid ei weithredu ym mhob categori o gŵyn. O ganlyniad, mae argymhelliad yr Ymchwiliad wedi'i anelu at brif gwnstabiliaid, gan ofyn iddynt sicrhau nad yw heddluoedd yn ceisio trin cwynion sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol yn "anghymwys" oherwydd hyd yr amser sydd wedi mynd heibio ers i'r cam-drin rhywiol ddigwydd.

Argymhelliad

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu yn sicrhau na chaiff cwynion ynghylch cam-drin plant yn rhywiol eu trin yn 'anghymwys' mwyach gan heddluoedd ar sail y ffaith y digwyddodd mwy na 12 mis cyn cyflwyno'r gŵyn.

Bydd yr Ymchwiliad yn parhau i ystyried sut y gall sefydliadau wella'r ffordd y maent yn ymateb i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol. Fodd bynnag, ni ddylai hynny eu hatal rhag adolygu eu gweithdrefnau cyfredol i sicrhau eu bod yn briodol ac yn effeithiol.

¹³² *Victim and survivor voices from the Truth Project*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/3304/view/Victim%20and%20survivor%20voices%20from%20the%20Truth%20Project.pdf

¹³³ *Statutory guidance to the police service on the handling of complaints*. Independent Police Complaints Commission (2015) https://policeconduct.gov.uk/sites/default/files/Documents/statutoryguidance/2015_statutory_guidance_english.pdf

¹³⁴ *Police Reform Act 2002*. www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/30/contents

Mynediad i gofnodion sy'n ymwneud â phlentyndod dioddefwyr a goroeswyr

Mae llawer o ddiodefwyr a goroeswyr sydd wedi bod yn rhan o'r Ymchwiliad wedi adrodd am anawsterau wrth gael mynediad i gofnodion sy'n ymwneud â'u plentyndod. Mae adolygiad yr Ymchwiliad o adroddiadau ac ymchwiliadau blaenorol o ran cam-drin plant yn rhywiol hefyd wedi nodi mai argymhellion yn ymwneud â rheoli cofnodion yw'r ail faes mwyaf cyffredin a nodir ar gyfer newid.

Mae hyn yn fater pwysig i'r sawl y mae'n effeithio arnynt. Yn aml, mae diodefwyr a goroeswyr yn ceisio cael mynediad i gofnodion er mwyn eu helpu i ddeall sut y digwyddodd y cam-drin a ddiodefwyd ganddynt neu sut yr oedd yn bosib iddo barhau. Mae'r Ymchwiliad wedi clywed am enghreifftiau lle ni chrëwyd cofnodion yn y lle cyntaf neu maent bellach ar goll neu wedi'u dinistrio. Gall hyn achosi trallod i ddiodefwyr a goroeswyr, a gall arwain at ganfyddiad o ymgais i guddio'r hanes gan y sefydliadau dan sylw.

Gofynnodd ein cyfreithiwr am y ffeiliau heddlu arna i ...Doedden nhw ddim yn gallu dod o hyd iddynt. Roedden nhw wedi diflannu. Cawson nhw orchymyn llys hyd yn oed er mwyn eu cael, oherwydd ni fydd ffeiliau fel hynny yn diflannu ... Roedden nhw wedi diflannu'n llwyr ... Na, doedd ganddyn nhw ddim cofnodion ohonyn nhw o gwbl Yr holl dapiau, yr holl ddatganiadau ysgrifenedig.

Diodefwr a goroeswr, Truth Project

Nid yw anawsterau wrth gael mynediad i gofnodion yn unigryw i ddiodefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol. Bydd unrhyw oedolyn sy'n ceisio dod o hyd i ddogfennau a gedwir gan sefydliad yn wynebu'r un heriau. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod hyn wedi codi mor aml yn yr Ymchwiliad yn dangos bod ganddo effaith sylweddol ar ddiodefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant.

Dyma faes technegol a chymleth ym mholisi cyhoeddus. Mae rheolau gwahanol o ran cadw cofnodion ar draws y sefydliadau gwahanol sydd wedi'u cynnwys yng Nghylch Gorchwyl yr Ymchwiliad ac mae safon y cofnodion a gedwir hefyd yn amrywio'n sylweddol. Mae hawliau unigolion i gael mynediad i'w cofnodion yn cael eu cryfhau wrth gyflwyno Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn 2018. Bydd yr Ymchwiliad yn ystyried os gall argymhell newidiadau a fyddai'n fuddiol i ddiodefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant.

6.4 Ariannol

Trefniadau ariannol, cyllido ac adnoddau ar gyfer y sefydliadau a gwasanaethau perthnasol.

Crynodeb o'r negeseuon allweddol

- Mae mynediad i'r gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir yn hollbwysig i ddiodefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant.
- Mae darparu ar gyfer cefnogaeth yn gymhleth ac yn amrywio o wasanaethau arbenigol a ddarperir gan y sector gwirfoddol i wasanaethau iechyd corfforol a meddwl a ddarperir gan y sector statudol.

- Mae'r Ymchwiliad wedi nodi'r diffyg data a gasglwyd gan asiantaethau'r sector cyhoeddus ynghylch gwariant ar wasanaethau a thriniaeth i ddiodefwrwr a goroeswyr, ac mae'n argymhell bod y Llywodraeth yn mynd i'r afael â hyn.

Fel yr eglura adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, gall effeithiau cam-drin plant yn rhywiol ar ddiodefwrwr a goroeswyr fod yn rhai trwm a chydol oes. Mae'r Ymchwiliad wedi clywed y gall gael mynediad i'r gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir fod o fudd mawr. Mae peidio â chael mynediad i gefnogaeth neu beidio â gallu parhau â hi, neu dderbyn cefnogaeth o ansawdd gwael, yn andwyol a gall rwystro diodefwrwr a goroeswyr rhag ceisio'r gefnogaeth neu driniaeth y mae eu hangen arnynt yn y dyfodol.

Yn benodol, mae'r Ymchwiliad wedi clywed yn gyson am yr anawsterau y mae diodefwrwr a goroeswyr yn eu hwynebu wrth geisio cael cefnogaeth neu driniaeth. Codwyd hyn gan y diodefwrwr a'r goroeswyr a fu'n rhan o'r Truth Project a thrwy ymgynghoriad ar-lein yr Ymchwiliad. Fe'i trafodwyd hefyd gan aelodau'r Fforwm a chyfranogwyd seminar ar brofiadau diodefwrwr a goroeswyr.

Dywedwyd wrth yr Ymchwiliad fod y penderfyniad i geisio cefnogaeth neu driniaeth yn un anodd yn aml sydd angen dewder. Golyga hyn fod angen gwneud ceisio cefnogaeth a thriniaeth mor syml â phosib, eto i gyd effaith i'r gwrthwyneb y mae'r rhwystrau'n ei chael, gan wneud y broses yn anos byth.

Mae llawer o ddiodefwrwr a goroeswyr wedi crybwyll y rhestrau aros hir ar gyfer cael cefnogaeth a thriniaeth wrth yr Ymchwiliad. Mae darparwyr gwasanaethau cefnogi ar gyfer trais a cham-drin rhywiol yn y sector gwirfoddol wedi dweud wrth yr Ymchwiliad nad ydynt yn gallu ymdopi â'r galw am eu gwasanaethau, gan eu gadael heb opsiwn arall ond gofyn i'r rheiny sy'n gofyn am gefnogaeth a thriniaeth i aros.

Mae'r sector gwirfoddol yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau cefnogi y mae diodefwrwr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant a'u teuluoedd yn eu defnyddio. Mae'n chwarae rôl allweddol ac yn darparu gwasanaethau megis cwnsela a chefnogaeth therapi, eiriolaeth annibynnol, llinellau cymorth a mathau eraill o gefnogaeth emosiynol. Mae gwasanaethau gwirfoddol hefyd yn darparu gwasanaethau arbenigol a luniwyd ar gyfer diodefwrwr camdriniaeth rywiol yn blant neu ddiodefwrwr trais rhywiol. Mae diodefwrwr a goroeswyr wedi dweud wrth yr Ymchwiliad eu bod yn aml yn gwerthfawrogi annibyniaeth y sector gwirfoddol rhag y gwasanaethau statudol ynghyd â'u hymagwedd hyblyg. Mae'r Ymchwiliad wedi clywed am y heriau cyllido sylweddol y mae'r rheiny sy'n cynnal y gwasanaethau hyn yn eu hwynebu.

Mae Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) yn darparu gwasanaethau i ddiodefwrwr a goroeswyr trais ac ymosodiadau rhywiol sy'n blant ac yn oedolion. Maent yn darparu gofal iechyd a thriniaeth a, lle bo'n briodol, archwiliad meddygol fforensig. Mae SARC hefyd yn cynnig mynediad at Gynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) sy'n darparu gwybodaeth, cefnogaeth a chynghor i ddiodefwrwr a goroeswyr, gan gynnwys cefnogaeth wrth ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol lle bo'n briodol. Pan fydd gan ddiodefwrwr a goroeswyr anghenion cefnogaeth neu driniaeth parhaus, bydd y SARC yn atgyfeirio at wasanaethau eraill, gan gynnwys gwasanaethau cefnogi arbenigol mewn trais a cham-drin rhywiol.

Mae'r GIG yng Nghymru a Lloegr yn darparu gwasanaethau iechyd y gall dioddefwyr a goroeswyr gael mynediad iddynt er mwyn cael cefnogaeth. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau cwnsela a seicotherapi, gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, a gwasanaethau iechyd meddwl eraill. Mae'r gwasanaethau hyn ar gael i bob claf, ar sail ei angen clinigol am driniaeth, ac nid ydynt ar gael i ddiodeswyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant yn unig. Mae'r Ymchwiliad wedi clywed y gall darpariaeth y GIG fod yn anhyblyg a heb ei theilwra i anghenion penodol diodeswyr a goroeswyr.

“Ond dim ond nifer penodol o sesiynau oedd wedi'u caniatáu imi. Dw i'n meddwl mai tua pump neu chwech oedd hynny o gyfarfodydd gyda'r unigolyn hwn. Ac ysgrifennodd e llythyr ar ddiwedd hynny ... ac yn y bôn mae'r llythyr yn dweud, mae'n esbonio'r sefyllfa, mae'n dweud fy mod i'n cyflwyno risg uchel iawn. Dywedodd fod gen i arwyddion o PTSD difrifol ac ati. Ac anfonwyd y llythyr hwnnw at fy Meddyg Teulu ac at fy ngweithiwr cymdeithasol, ac wnaethon nhw ddim trefnu unrhyw waith dilynol erioed.

A dyna fe, wnes i ddim gweld unrhyw un - weles i'r heddlu fyth wedyn, ar ôl hynny, weles i ddim llawer o'r gweithiwr cymdeithasol ar ôl hynny.

Dioddefwr a goroeswr, Truth Project

Cefnogir pob gwasanaeth drwy amrywiaeth eang o gyrff comisiynu a threfniadau cyllido. Mae cyllid cyhoeddus yn dod o sawl adran ar draws Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ac mae cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau'n dibynnu ar asiantaethau'r sector cyhoeddus. Mae gan awdurdodau lleol, sefydliadau'r GIG a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd oll rôl wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau ar gyfer eu poblogaethau lleol. Dywedwyd wrth yr Ymchwiliad fod prosesau comisiynu cymhleth a chylchoedd cyllido byr yn rhwystro cynllunio a buddsoddi hir-dymor mewn gwasanaethau cefnogi, ac maent yn achosi heriau penodol i sefydliadau'r sector gwirfoddol sy'n chwilio am gyllid cynhaliadwy.

Er mwyn cefnogi ei ystyriaeth o'r materion hyn, gofynnodd yr Ymchwiliad i'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) nodi lefelau cyfredol o wariant ar wasanaethau cefnogi i ddiodeswyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant. Ystyriwyd gwasanaethau a gyflwynir yn y sector statudol a'r sector gwirfoddol gan CIPFA, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, cwnsela a thriniaeth, a gwasanaethau cefnogi therapiwtig arbenigol i bobl sydd wedi cael profiad o gamdriniaeth rywiol yn blant.

Nid oedd CIPFA wedi gallu nodi'r lefelau cyfredol o wariant oherwydd diffyg data arianol addas a gasglwyd gan yr asiantaethau sector cyhoeddus dan sylw. Canfu nad oedd gan y data a gedwir gan yr asiantaethau hynny'r lefel o fanylder a oedd ei angen er mwyn nodi faint sy'n cael ei wario ar gefnogaeth a thriniaeth i ddiodeswyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant. Mae gan y wybodaeth a gedwir gan wasanaethau arbenigol yn y sector gwirfoddol y manylder anghenrheidiol mewn rhai achosion, ond nid ym mhob achos. O ganlyniad, nid oedd yn bosib asesu cyfanswm y lefelau o wariant cyfredol ar wasanaethau cefnogi i ddiodeswyr a goroeswyr.

Mae'r Ymchwiliad wedi clywed yn gyson am y rhwystrau i gefnogaeth a thriniaeth y mae diodeswyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant yn eu hwynebu, gan gynnwys profiadau gwael rhai ohonynt oherwydd diffyg cefnogaeth a thriniaeth addas neu

gefnogaeth a thriniaeth amrhiodol. Mae'n destun pryder i'r Ymchwiliad fod pwysau cyllido ar asiantaethau'n ei wneud yn anodd iddynt fodloni eu rhwymedigaethau statudol yn llawn a chynyddu buddsoddiad mewn atal cam-drin plant yn rhywiol.

Ym marn yr Ymchwiliad, er mwyn i'r Llywodraeth sicrhau cyllid cynaliadwy i wasanaethau cefnogi i ddiodefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant, mae'n rhaid deall sut y caiff adnoddau eu dyrannu ar hyn o bryd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau y mae'n eu cyllido. Mae'r Ymchwiliad yn cydnabod y bydd hyn yn heriol lle na chaiff gwasanaethau eu darparu i ddiodefwyr a goroeswyr camdrinieth rywiol yn blant yn unig (er enghraifft, gwasanaethau iechyd meddwl y GIG), ond dylai hyn sbarduno'r Llywodraeth i wneud mwy. Ni fydd y gwaith hwn yn ddigonol ar ei ben ei hun. Mae asesiad diweddar a chywir o lefel ac ehangder yr angen am gefnogaeth hefyd yn anghenrheidiol.

Ar sail y pryderon a gyflwynwyd gerbron yr Ymchwiliad ynghylch digonolrwydd y gefnogaeth sy'n bodoli, mae'r Ymchwiliad o'r farn fod rhaid mynd i'r afael â hyn ar frys.

Argymhellion

Lloegr

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell y dylai'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yr Adran Addysg, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref gydweithio er mwyn canfod lefelau cyfredol o wariant cyhoeddus ac effeithiolrwydd y gwariant hwnnw o ran gwasanaethau i ddiodefwyr sy'n blant a goroeswyr sy'n oedolion o gam-drin plant yn rhywiol yn Lloegr.

Cymru

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru a'r adrannau perthnasol yn Llywodraeth y DU gydweithio er mwyn canfod lefelau cyfredol o wariant cyhoeddus ac effeithiolrwydd y gwariant hwnnw o ran gwasanaethau i ddiodefwyr sy'n blant a goroeswyr sy'n oedolion o gamdriniaeth rywiol yn blant yng Nghymru.

Pennod 7

Rhestr o argymhellion

7 Rhestr o argymhellion

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r argymhellion sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Am ragor o wybodaeth am sail resymegol yr argymhellion hyn, gweler adrannau perthnasol yr adroddiad.

Rhaglenni mudo plant (Pennod 4, adran 4.1)

Gwnaethpwyd yr argymhellion hyn ym mis Mawrth 2018 yn yr adroddiad ymchwilio.¹³⁵

Ymddiheuriadau i blant mudol gynt

1. Mae'r Cadeirydd a'r Panel wedi argymhell y dylai sefydliadau sy'n ymwneud â rhaglenni fudo plant nad ydynt wedi ymddiheuro am eu rôl ymddiheuro cyn gynted â phosib. Ni ddylid ymddiheuro drwy ddatganiadau cyhoeddus yn unig, ond yn benodol wrth y plant ymfudol hynny roedden nhw'n gyfrifol am eu hymfudo.

Sefydlu cynllun iawndal ariannol i blant ymfudol gynt

2. Mae'r Cadeirydd a'r Panel wedi argymhell bod Llywodraeth y DU yn sefydlu cynllun iawndal ariannol i blant ymfudol gynt sy'n goroesi, gan ddarparu dyraniad cyfartal i bob ymgeisydd. Mae hyn ar y sail eu bod nhw i gyd wedi bod yn agored i'r perygl o gam-drin rhywiol.

O ystyried oedran plant mudol gynt sy'n goroesi, anogwyd Llywodraeth y DU i sefydlu'r cynllun iawndal ariannol yn ddi-oed ac mae'n disgwyl y dylai'r taliadau ddechrau gael eu gwneud o fewn 12 mis (ar ôl cyhoeddiad yr adroddiad gwreiddiol), ac na roddir ystyriaeth i unrhyw daliadau iawndal eraill a wnaed mewn achosion penodol.

Rheolaeth well o gofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth am blant ymfudol gynt

3. Mae'r Cadeirydd a'r Panel wedi argymhell y dylai'r holl sefydliadau a anfonodd blant dramor fel rhan o'r rhaglenni mudo plant sicrhau bod ganddynt systemau cadarn ar waith ar gyfer cadw a diogelu unrhyw gofnodion sy'n weddill a allai gynnwys gwybodaeth am blant mudol unigol, a dylent sicrhau eu bod yn gwbl hygrych.

Y System Cyfiawnder Troseddol (Pennod 5, adran 5.2.3)

Sicrhau bod asiantaethau'n cydymffurfio â'r Côt i Ddiodefwyr

4. Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod Arolygiaethau Cyfiawnder Troseddol yn cynnal archwiliad ar y cyd o gydymffurfiaeth asiantaethau â Chod y Dioddefwyr o ran diodefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant.

¹³⁵ *Child migration programmes: Investigation report*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/4265/view/Child%20Migration%20Programmes%20Investigation%20Report%20March%202018.pdf

Dylid ymgynghori â'r Comisiynydd Dioddefwyr ar ymagwedd yr arolygiad i sicrhau ei bod yn cael ei llywio'n llawn gan brofiadau dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol.

Diwygio'r Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol er mwyn dileu rhwystrau sy'n wynebu dioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant

5. Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn diwygio rheolau Awdurdod Digolledu Anafiadau Troseddol (CICA), fel nad yw dyraniadau'n cael eu gwrthod yn awtomatig mewn amgylchiadau lle mae euogfarnau troseddol ymgeisydd yn debygol o fod yn gysylltiedig â'u camdriniaeth rywiol o blentyn. Dylid ystyried pob achos yn ôl ei ragoriaethau.
6. Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod CICA yn sicrhau bod hawliadau sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol yn cael eu hystyried yn unig gan weithwyr achos sydd â hyfforddiant penodol a manwl yn natur ac effaith cam-drin plant yn rhywiol.
7. Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn diwygio rheolau CICA fel bod pob ymgeisydd a wnaeth gais am iawndal yn flaenorol yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol – ond a wrthodwyd oherwydd rheol 'yr un to' – â hawl i ail-wneud cais am iawndal a chaiff eu hawliad ei gymeradwyo gan CICA.

Y System Cyfiawnder Sifil (Pennod 5, adran 5.3)

Ystyried dichonoldeb cofrestr o yswirwyr atebolrwydd cyhoeddus i helpu hawlwr i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gyflwyno cais mewn perthynas â cham-drin plant yn rhywiol

8. Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod Cymdeithas Yswirwyr Prydain (CYP) yn ystyried a ellid cyflwyno cofrestr o yswirwyr atebolrwydd cyhoeddus i gynorthwyo hawlwr i leoli'r yswirwyr sy'n berthnasol i'w hawliad, a sut y byddai'n gweithredu.

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod y CYP yn nodi ei ystyriaeth o'r mater ac at ba gasgliadau y mae wedi'u cyrraedd mewn diweddariad ysgrifenedig o fewn 12 mis o gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Sicrhau y gall dioddefwyr a goroeswyr ddarparu'n dystiolaeth orau mewn achosion llysoedd sifil

9. Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu deddfwriaeth sylfaenol felly bod dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol mewn achosion llys sifil, lle maent yn hawlio iawndal sy'n ymwneud â'r gamdriniaeth a ddioddefwyd, yn cael yr un diogelwch â thystion sy'n agored i niwed mewn achosion llys troseddol.

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn deall bod y gost eisoes yn rhwystr i ddioddefwyr a goroeswyr sy'n ystyried hawliad sifil. Wrth ystyried sut i ariannu gweithrediad yr argymhelliad hwn, mae'n rhaid i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sicrhau nad yw'r rhwystr hwn yn cynyddu ymhellach.

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell y dylai'r Pwyllgor Rheolau Gweithdrefnau Sifil yn diwygio'r Rheolau Gweithdrefnau Sifil i scirhau bod ynadon sy'n llywyddu achosion sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol yn ystyried y defnydd o amddiffyniadau i dystion sy'n agored i niwed.

Y Sector Iechyd (Pennod 5, adran 5.4.2)

Datblygu polisi cenedlaethol ar hyfforddi a defnyddio gwarchodwyr

10. Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn datblygu polisi cenedlaethol ar gyfer hyfforddi a defnyddio gwarchodwyr wrth drin plant mewn gwasanaethau gofal iechyd.

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod Y Comisiwn Ansawdd Gofal yn ystyried cydymffurfiaeth â pholisïau gwarchodwyr cenedlaethol (unwaith y gweithredir) yn ei asesiadau o wasanaethau.

11. Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu polisi cenedlaethol ar gyfer hyfforddi a defnyddio gwarchodwyr wrth drin plant mewn gwasanaethau gofal iechyd.

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ystyried cydymffurfiaeth â pholisïau gwarchodwr cenedlaethol (unwaith y gweithredir) yn ei asesiadau o wasanaethau.

Proffesiynol a gwleidyddol (Pennod 6, adran 6.2)

Cadarnhau Confensiwn Cyngor Ewrop ar Amddiffyn Plant yn erbyn Camfanteisio Rhywiol a Cham-drin Rhywiol (a elwir hefyd yn 'Confensiwn Lanzarote')

12. Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod Llywodraeth y DU yn cadarnhau Confensiwn Cyngor Ewrop ar Amddiffyn Plant yn erbyn Cam-fanteisio Rhywiol a Cham-drin yn Rhywiol ('Confensiwn Lanzarote') heb oedi pellach. Maent hefyd yn argymhell y dilynir y cadarnhad hwn, ac eto heb oedi pellach, gan gamau i roi Confensiwn Lanzarote ar waith.

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod y Swyddfa Gartref, fel adran arweiniol Llywodraeth y DU, yn cyhoeddi amserlen ar gyfer cadarnhau Confensiwn Lanzarote, gan gymryd unrhyw gamau ychwanegol sy'n ofynnol er mwyn i'r DU gydymffurfio'n llawn erbyn Mehefin 2018.

Newid diwylliant yn y gwasanaeth heddlu

13. Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell y dylai fod yn ofynnol i unrhyw swyddog heddlu (neu staff sy'n gyfwerth) sydd am symud ymlaen i gnewyllyn y Prif Swyddog yn gyntaf:

- gael profiad plismona gweithredol mewn atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, a
- chyflawni achrediad yn rôl y gwasanaeth heddlu wrth atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.

Dylai'r Swyddfa Gartref newid gofynion mynediad gan ddefnyddio ei bwerau o dan Reoliadau'r Heddlu 2003 i gyflawni hyn.

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod y Coleg Plismona'n datblygu cynnwys hyfforddiant a threfniadau achredu.

Strwythurol (Pennod 6, adran 6.3)

Sicrhau bod staff gofal sy'n gweithio mewn cartrefi plant wedi'u cofrestru'n broffesiynol

14. Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod yr Adran Addysg yn cyflwyno trefniadau ar gyfer cofrestru staff sy'n gweithio mewn rolau gofal mewn cartrefi plant.

Dylid cofrestru gyda chorff annibynnol sy'n gyfrifol am osod a chynnal safonau hyfforddiant, ymddygiad a datblygiad proffesiynol parhaus, ac sydd â'r grym i orfodi'r rhain drwy weithdrefnau addasrwydd i ymarfer.

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn cydnabod y gallai fod angen cyfnod o gyflwyno ac felly mae'n argymhell y dylid blaenoriaethu cofrestrriad proffesiynol rheolwyr cartrefi i blant.

Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol sy'n peri risg neu niwed i blant yn cael eu gwahardd rhag gweithio gyda phlant ar draws pob sector

15. Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod y Swyddfa Gartref yn sicrhau y caiff Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ei diwygio mewn modd lle, pan fydd gwrandawriad addasrwydd i ymarfer wedi'i gynnal gan geidwad cofrestr berthnasol gan arwain at dynnu'r ymarferydd oddi ar y gofrestr honno o ganlyniad i resymau sy'n ymwneud â niwed i blant neu'r risg ohono:

- mae gan geidwad y gofrestr ddyletswydd i anfon y wybodaeth i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), ac
- mae gan y GDG, ar ôl derbyn yr wybodaeth honno, ddyletswydd i wahardd yr ymarferydd yn awtomatig rhag gweithio gyda phlant, gan roi cyfle iddo gyflwyno sylwadau i'r GDG os yw'n ystyried y gwaharddiad i fod yn anghymesur neu'n annheg.

Sicrhau bod cwynion am y ffordd y mae'r heddlu wedi ymdrin ag achosion cam-drin plant yn rhywiol yn cael eu hystyried heb ystyried pryd ddigwyddodd y gamdriniaeth

16. Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu yn sicrhau na chaiff cwynion ynghylch cam-drin plant yn rhywiol eu trin yn 'anghymwys' mwyach gan heddluoedd ar sail y ffaith y digwyddodd mwy na 12 mis cyn cyflwyno'r gŵyn.

Ariannol (Pennod 6, adran 6.4)

Cadarnhau'r lefel gyfredol o gefnogaeth sydd ar gael i ddiodefwrwr a goroeswr a gwariant cyhoeddus ar y gwasanaethau hyn

17. Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell y dylai'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yr Adran Addysg, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref gydweithio er mwyn sefydlu lefelau cyfredol o wariant cyhoeddus ac effeithiolrwydd y gwariant hwnnw o ran gwasanaethau i blant sydd wedi dioddef ac oedolion sydd wedi goroesi cam-drin plant yn rhywiol yn Lloegr.

18. Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru a'r adrannau perthnasol yn Llywodraeth y DU gydweithio er mwyn canfod lefelau cyfredol o wariant cyhoeddus ac effeithiolrwydd y gwariant hwnnw o ran gwasanaethau i ddiodefwrwr sy'n blant a goroeswr sy'n oedolion o gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru.

Pennod 8

Rhaglen Waith yr Ymchwiliad ar gyfer 2018–19

8 Rhaglen Waith yr Ymchwiliad ar gyfer 2018-19


Hyd yn hyn, mae'r adroddiad hwn wedi disgrifio'r cynnydd sylweddol a wnaed gan yr Ymchwiliad, gan amlygu'r hyn a ddysgwyd, ei gasgliadau cynnar ac argymhellion cychwynnol. Mae'r adran hon yn pennu rhaglen waith yr Ymchwiliad ar gyfer y 12 mis nesaf.

8.1 Gwrandawiadau cyhoeddus

Cynhaliwyd sawl gwrandawriad cyhoeddus ar ymchwiliadau'r Ymchwiliad eisoes. Cyhoeddwyd adroddiadau ar yr astudiaeth achos ar blant mudol ¹³⁶ac ymchwiliad 'Cambridge House, Knowl View and Rochdale'¹³⁷, a chaiff adroddiadau ar astudiaeth achos y Gynulleidfa Fenedictaidd Saesnig a'r ymchwiliad 'Eglwys Anglicanaidd' eu cyhoeddi maes o law.

Cynhelir wyth gwrandawriad cyhoeddus yn 2018-19 (Ffigur 2). Mae Atodiad A i'r adroddiad hwn yn cynnwys adroddiad cynnydd ar gyfer holl ymchwiliadau'r Ymchwiliad.

Ffigur 2 Gwrandawiadau cyhoeddus a drefnwyd yn 2018-19



¹³⁶ *Child migration programmes: Investigation report*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/4265/view/Child%20Migration%20Programmes%20Investigation%20Report%20March%202018.pdf

¹³⁷ *Cambridge House, Knowl View and Rochdale: Investigation report*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/5322/view/Cambridge%20House%2C%20Knowl%20View%20and%20Rochdale%20Investigation%20Report%20April%202018.pdf

8.2 Ymchwil a seminarau

Mae gan yr Ymchwiliad sawl prosiect ymchwil sydd eisoes wedi cychwyn, gan gynnwys y rheiny ar ddiogelwch ar-lein mewn addysg, ysgolionpreswyl, sefydliadau diogel i bobl ifanc a chamfanteisio rhywiol ar blant gan rwydweithiau trefnedig. Mae Atodiad B yn amlinellu'r prosiectau hyn mewn mwy o fanylder.

Dros y flwyddyn i ddod, byddllai o seminarau yn digwydd oherwyddnifer y gwrandawiadau cyhoeddus a drefnwyd – fodd bynnag, cynhelir seminar ar adrodd mandadol ym Medi 2018.

8.3 Y Truth Project

Bydd yr Ymchwiliad yn parhau i ddatbygu'r Truth Project trwy gydol 2018–19. Bydd hefyd yn parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o Truth Project gan annog dioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant i ystyried os hoffent gymryd rhan.

Bydd yr Ymchwiliad yn cynyddu ymwybyddiaeth o Truth Project wrth fynd ag ef i rannau ychwanegol yng Nghymru a Lloegr ac wrth ymgysylltu â grwpiau dioddefwyr a goroeswyr perthnasol. Bydd yr Ymchwiliad hefyd yn parhau i alluogi dioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant yn rhywiol sydd yn y carchar i ddatgelu'r camdrin a ddioddefwyd ganddynt (boed yn ysgrifenedig neu yn bersonol yn y carchar). Mae'r Ymchwiliad yn ddiolchgar i Wasanaeth Carchar a Phrawf Ei Mawrhydi am ei gefnogaeth a'i gymorth wrth ddatblygu cyflwyniad Truth Project mewn carchardai.

Bydd yr Ymchwiliad yn parhau i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyfrannu at ei waith gan fod eu barn hwy'n helpu i nodi materion allweddol a'r hyn sy'n digwydd yn awr, a bydd yn cael effaith o ran cadw plant yn ddiogel rhag cam-driniaeth. Gan fod cyfranogaeth pobl ifanc dan 18 oed yn Truth Project yn gymhleth ac mae angen ymgymryd â hynny'n ofalus, mae'r Ymchwiliad yn gweithio gyda sefydliadau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i dreialu sesiynau Truth ar gyfer y grŵp hwn. Yn anad dim, diogelwch a lles y plentyn neu'r person ifanc sydd bwysicaf a bydd yr Ymchwiliad bob amser yn cymryd gofal mawr mewn perthynas ag unigolion dan 18 oed. Caiff hyn ei flaenoriaethu uwchben pob mater arall.

Yn 2018–19, bydd yr Ymchwiliad hefyd yn cyhoeddi mwy o wybodaeth am yr hyn mae'n ei ddysgu am gam-drin plant yn rhywiol. Bydd hefyd yn cynyddu nifer yr adroddiadau a chrynodebau dienw o Truth Project o'r profiadau y mae dioddefwyr a goroeswyr wedi rhannu.

Gellir gweld diweddariadau rheolaidd ar waith yr Ymchwiliad ar ei wefan.¹³⁸

¹³⁸ News. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk

Atodiadau

Atodiad A - Diweddariad ar ymchwiliadau

Atodiad B - Diweddariad ar brosiectau ymchwil

Atodiad A – Diweddariad ar ymchwiliadau

Amddiffyn plant y tu allan i'r DU

Yn yr ymchwiliad hwn, mae'r Ymchwiliad yn ystyried i ba raddau y mae sefydliadau wedi methu ag amddiffyn plant y tu allan i'r DU rhag camdriniaeth rywiol.

Mae'r ymchwiliad yn cynnwys astudiaeth achos ar y rhaglenni plant mudol. Parhaodd y gwrandawiadau cyhoeddus ar gyfer yr astudiaeth achos hon am bedair wythnos ac fe'u cwblhawyd ar 26 Gorffennaf 2017. Cyhoeddwyd y canfyddiadau mewn adroddiad ym mis Mawrth 2018.¹³⁹ Mae Pennod 4 yr adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r gwaith hwn.

Mae'r ail astudiaeth achos yn yr ymchwiliad hwn yn ystyried a yw'r fframwaith sifil yn ddigonol ar gyfer atal unigolion sy'n hysbys i awdurdodau'r DU o ran peri risg i blant rhag teithio dramor, a hysbysu awdurdodau estron. Cynhelir gwrandawriad cyhoeddus ar yr astudiaeth achos hon ym mis Chwefror 2019.

Cambridge House, Knowl View a Rochdale ('Rochdale')

Edrychodd ymchwiliad Rochdale ar gyhuddiadau o gam-drin a chamfanteisio ar blant yn rhywiol yn hostel Cambridge House ac ysgol Knowl View. Ystyriwyd sefydliadau eraill lle trefnwyd neu darparwyd gofal i blant gan Gyngor Bwrdeistrefol Rochdale hefyd.

Cynhaliwyd gwrandawiadau rhagarweiniol ar gyfer yr ymchwiliad ar 16 Mawrth 2016, 27 Gorffennaf 2016, 10 Mai 2017 a 20 Medi 2017.

Parhaodd y gwrandawriad cyhoeddus am dair wythnos ac fe'i cwblhawyd ar 27 Hydref 2017. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r ymchwiliad hwn ym mis Ebrill 2018.¹⁴⁰ Mae Pennod 4 yr adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r ymchwiliad hwn

Yr Eglwys Gatholig Rufeinig.

Yn yr ymchwiliad hwn, mae'r Ymchwiliad yn ystyried i ba raddau mae'r Eglwys Gatholig Rufeinig yng Nghymru a Lloegr wedi methu ag amddiffyn plant rhag camdriniaeth rywiol. Mae'n cynnwys dwy astudiaeth achos ar Y Gynulleidfa Fenedictaidd Saesneg (a rennir yn ddau wrandawriad ar wahân) ac Archesgobaeth Birmingham. Mae'r ymchwiliad hefyd yn ystyried y materion mewn perthynas â'r Eglwys Gatholig Rufeinig ehangach.

Cynhaliwyd gwrandawiadau cychwynnol yr ymchwiliad ar 28 Gorffennaf 2016, 6 Mehefin 2017 a 5 Hydref 2017.

¹³⁹ *Child migration programmes: Investigation report*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/4265/view/Child%20Migration%20Programmes%20Investigation%20Report%20March%202018.pdf

¹⁴⁰ *Cambridge House, Knowl View and Rochdale: Investigation report*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/5322/view/Cambridge%20House%2C%20Knowl%20View%20and%20Rochdale%20Investigation%20Report%20April%202018.pdf

Ystyriodd y gwrandawriad cyhoeddus cyntaf ar y Gynulleidfa Fenedictaidd Saesneg Abatai Ampleforth a Downside a'u hysgolion cysylltiedig. Parhaodd am dair wythnos ac fe'i cwblhawyd ar 15 Rhagfyr 2017. Mae Pennod 4 o'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar yr astudiaeth achos hon, a chaiff adroddiad ei gyhoeddi yn 2018.

Cynhelir yr ail wrandawriad ar astudiaeth achos y Gynulleidfa Fenedictaidd Saesneg ym mis Chwefror 2019 a bydd yn ystyried Abaty Ealing ac Ysgol St Benedict's. Cynhelir gwrandawriad cyhoeddus Archesgobaeth Birmingham ym mis Tachwedd 2018. Cynhelir gwrandawriad ychwanegol i ystyried materion sy'n ymwneud â'r Eglwys Gatholig Rufeinig ehangach maes o law.

Yn ogystal â'r gwrandawiadau cyhoeddus, mae'r Ymchwiliad wedi ystyried deunydd darllen ar gam-drin plant yn rhywiol yn yr Eglwys Gatholig Rufeinig sydd eisoes yn bodoli i gyd-fynd â'r ymchwiliad cyffredinol. Mae'r deunydd hwn yn rhoi trosolwg o themâu, gan gynnwys cyfrinachedd, clerigiaeth a hierarchaeth yn yr Eglwys.¹⁴¹

Y rhyngrwyd a cham-drin plant yn rhywiol

Mae'r ymchwiliad hwn yn ystyried ymatebion sefydliadol i gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio ar blant yn rhywiol a ddigwyddodd ar-lein. Mae hyn yn cynnwys ennyn ymddiriedolaeth plentyn cyn ymgymryd â cham-drin rhywiol cysylltiol a lawrlwytho, rhannu, edrych ar neu greu delweddau o gam-drin plant yn rhywiol.

Cynhaliwyd y gwrandawriad cyhoeddus cyntaf ar gyfer yr ymchwiliad dros gyfnod o wythnos ac fe'i cwblhawyd ar 26 Ionawr 2018. Darparodd gwell dealltwriaeth o sut y mae gwasanaethau gorfodi'r gyfraith yn ymateb i gam-drin plant yn rhywiol sy'n cynnwys defnyddio'r rhyngrwyd.

Clywodd yr Ymchwiliad dystiolaeth gan dystion a siaradodd am effaith cam-drin plant yn rhywiol ar-lein ar ddiodefwyr a'u teuluoedd. Clywodd yr Ymchwiliad hefyd dystiolaeth gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith a oedd yn gyfrifol am ymchwilio i'r ffurf hon o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, Arweinydd yr Heddlu Cenedlaethol dros Amddiffyn Plant ac Ymchwilio i Gam-drin a nifer o heddluoedd yn Lloegr a Chymru.

Cynhelir gwrandawiadau ychwanegol ar gyfer yr ymchwiliad ehangach wrth iddo fynd yn ei flaen.

¹⁴¹ *Child sexual abuse within the Catholic and Anglican Churches: a rapid evidence assessment*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/3361/view/IICSA%20REA%20Child%20sexual%20abuse%20in%20the%20Anglican%20and%20Catholic%20Churches%20Nov%202017.pdf

Mae'r Ymchwiliad hefyd wedi comisiynu tri adolygiad o lenyddiaeth bresennol i roi gwell dealltwriaeth i'r ymchwiliad. Ystyriodd yr adolygiadau hyn ymddygiad a nodweddion cyflawnwyr ar-lein,¹⁴² agoredrwydd i niwed a nodweddion dioddefwyr ar-lein¹⁴³, a natur a graddfa cam-drin plant yn rhywiol ar-lein.¹⁴⁴

Mae pennod 5 o'r adroddiad hwn yn ymchwilio i'r materion sy'n codi hyd yn hyn yn yr ymchwiliad.

Yr Eglwys Anglicanaidd

Yn yr ymchwiliad hwn, mae'r Ymchwiliad yn ystyried i ba raddau y mae'r Eglwys Anglicanaidd wedi methu ag amddiffyn plant rhag camdriniaeth rywiol, gan gynnwys Eglwys Lloegr a'r Eglwys yng Nghymru. Bydd yr ymchwiliad hwn yn edrych ar bolisiau diogelu ac amddiffyn plant blaenorol a phresennol a bydd yn asesu os oedd adolygiadau blaenorol ac adolygiadau o achosion nad ydynt yn ddiweddar yn Eglwys Lloegr a'r Eglwys yng Nghymru yn effeithiol. Mae'r ymchwiliad yn cynnwys dwy astudiaeth achos ar Esgobaeth Chichester ac achos cyn-Esgob Lewes, Peter Ball.

Mae astudiaeth achos Esgobaeth Chichester yn cynnwys ystyried diwylliant yr Eglwys, ac Esgobaeth Chichester yn benodol, er mwyn nodi'r effaith y mae wedi'i chael, ac yn parhau i'w chael, ar ddiogelu plant. Bydd yn edrych ar sut y mae arferion a gweithdrefnau ymateb i bryderon a diffygion o ran arferion diogelu wedi newid dros amser, sut y mae'r Eglwys yn rheoli recriwtio, dyrchafu, ymddiswyddo a chamau disgyblu, ac a yw dioddefwyr a goroeswyr wedi derbyn iawndaliadau.

Gan y cynhaliwyd y gwrandawriad cyhoeddus tair wythnos o hyd ar gyfer yr astudiaeth achos hon ym mis Mawrth 2018, sef ychydig wythnosau cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, nid yw ei ganfyddiadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Ymchwiliad maes o law.

Cynhaliwyd gwrandawriadau cychwynnol ar gyfer yr ymchwiliad hwn ar 28 Gorffennaf 2016, 6 Mehefin 2017, 5 Hydref 2017 a 30 Ionawr 2018. Cynhelir gwrandawriad cyhoeddus ar astudiaeth achos Peter Ball ym mis Gorffennaf 2018. Un o'r materion y bydd yn ei archwilio yw a gafwyd ceisiadau amhriodol gan bobl o bwysigrwydd i ymyrryd yn y broses cyfiawnder troseddol wedi i Peter Ball gael ei gyhuddo o drosedd rywiol. Bydd hefyd yn ystyried penderfyniad yr Eglwys i ganiatáu Peter Ball i ddychwelyd i offeiriadaeth yn dilyn ei euogfarn am drosedd rywiol.

¹⁴² *Behaviour and characteristics of perpetrators of online-facilitated child sexual abuse and exploitation: a rapid evidence assessment.* NatCen Social Research for the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/3720/view/Rapid%20Evidence%20Assessment%20Behaviour%20and%20Characteristics%20of%20Perpetrators%20of%20Online-facilitated%20Child%20Sexual%20Abuse%20and%20Exploitation.pdf

¹⁴³ *Characteristics and vulnerabilities of victims of online-facilitated child sexual abuse and exploitation: a rapid evidence assessment.* Lancaster University for the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/3719/view/Rapid%20Evidence%20Assessment%20Characteristics%20and%20Vulnerabilities%20of%20Victims%20of%20Online%20Facilitated%20Child%20Sexual%20Abuse%20And%20Exploitation.pdf

¹⁴⁴ *Quantifying online facilitated child sexual abuse.* University of Huddersfield for the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/3721/view/Annex%20to%20Rapid%20Evidence%20Assessment%20-%20Quantifying%20the%20Extent%20of%20Online-Facilitated%20Child%20Sexual%20Abuse.pdf

Mae'r Ymchwiliad hefyd wedi ystyried y dystiolaeth a'r llenyddiaeth sy'n bodoli ar gam-drin plant yn rhywiol mewn eglwysi Anglicanaidd er mwyn darparu trosolwg ar themâu sy'n cynnwys cyfrinachedd, clerigaeth a hierarchaeth.¹⁴⁵

Cam-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau carcharol

Mae'r ymchwiliad yn archwilio ehangder methiannau sefydliadol i amddiffyn plant rhag cam-drin a chamfanteisio rhywiol pan fyddant mewn sefydliadau carcharol, megis cartrefi i blant diogel, canolfannau hyfforddi diogel a sefydliadau i droseddwr ifanc.

Clustnododd yr Ymchwiliad Canolfan Cadw Pobl Ifanc Medomsley, Sir Durham fel astudiaeth achos gychwynnol yn yr ymchwiliad hwn. Er bod ehangder ymddangosiadol y cam-drin ym Medomsley yn mynnu ymchwiliad cadarn i sut nas ymchwiliwyd i sawl cyhuddiad, a sut y bu sawl cyflawnwr yn osgoi sylw am gyhyd, nid yw'r Ymchwiliad yn parhau â'r ymchwiliad ar hyn o bryd o ganlyniad i achosion troseddol cyfredol.

Yn ei gam cyntaf, mae'r ymchwiliad yn archwilio natur ac ehangder cam-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau carcharol, ymatebion sefydliadau carcharol ac effeithiolrwydd amddiffyniad sefydliadol a systemig cyfredol o ran cam-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau carcharol. Cynhaliwyd gwrandawriad cychwynnol ar yr ymchwiliad interim hwn ym mis Chwefror 2018 a chynhelir gwrandawriad cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2018.

Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, mae'r Ymchwiliad hefyd wedi asesu'r dystiolaeth a'r llenyddiaeth bresennol ar gam-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau carcharol. Mae hyn wedi darparu trosolwg o gam-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau carcharol, yn ogystal â nodweddion dioddefwyr a goroeswyr ac ymosodwyr a'r systemau diogelu sydd yn eu lle.¹⁴⁶

Cynghorau Sir Nottingham

Mae'r ymchwiliad hwn yn archwilio ehangder unrhyw fethiannau sefydliadol i amddiffyn plant mewn gofal Cynghorau Dinas a Sir Nottingham rhag cam-drin a chamfanteisio rhywiol. Diwygiwyd diffiniad cwmpas yr ymchwiliad hwn ym mis Mawrth 2017 i sicrhau ei fod yn cadw ffocws a'i fod yn gymesur.

Bydd y tair astudiaeth achos a gadarnhawyd yn canolbwyntio ar ofal maeth, cam-drin rhywiol ymhlith plant a chartref i blant Beechwood. Bydd pob astudiaeth achos yn archwilio ymatebion sefydliadau i honiadau o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys Cyngor Dinas Nottingham, Cyngor Sirol Sir Nottingham a Heddlu Nottingham. Bydd yr astudiaethau achos hyn hefyd yn ystyried y rhwystrau yr oedd plant yn eu hwynebu wrth ddatgelu'r gamdriniaeth a ddioddefwyd ganddynt.

Cynhaliwyd gwrandawriadau cychwynnol ar 11 Mai 2017 a 31 Ionawr 2018. Cynhelir y gwrandawriad cyhoeddus ar gyfer yr ymchwiliad ym mis Hydref 2018 yn Llundain ac yn Nottingham, a bydd yn canolbwyntio ar yr astudiaethau achos dethol.

¹⁴⁵ *Child sexual abuse within the Catholic and Anglican Churches: a rapid evidence assessment*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/3361/view/IICSA%20REA%20Child%20sexual%20abuse%20in%20the%20Anglican%20and%20Catholic%20Churches%20Nov%202017.pdf

¹⁴⁶ *Child sexual abuse in custodial institutions: a rapid evidence assessment*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/5197/view/Child%20sexual%20abuse%20in%20custodial%20institutions%20REA%20-%20Full%20report.pdf

Atebolrwydd a iawndaliadau

Mae'r ymchwiliad i atebolrwydd a iawndaliadau'n edrych ar ba mor effeithiol y mae prosesau cyfreithiol a gwasanaethau cefnogi presennol yn gwneud iawndaliadau i ddiodefwyr a goroeswyr camdrinieth rywiol yn blant.

Cychwynnodd yr ymchwiliad hwn broses ymgynghori ynghylch y system cyfiawnder troseddol a iawndal troseddol a chynhaliwyd seminarau cysylltiedig yn Nhachwedd 2016 a Chwefror 2017. Mae Pennod 5 yr adroddiad hwn yn trafod rhai o ganfyddiadau'r gwaith ymgysylltu hwn mewn mwy o fanylder.

Bydd yr ymchwiliad yn parhau i ystyried effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol a iawndaliadau troseddol wrth ddarparu atebolrwydd a iawndaliadau i ddiodefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant drwy ei astudiaethau achos a thystiolaeth ddogfenol.

Ceir pump astudiaeth achos yn yr ymchwiliad: Cartref Plant Gogledd Cymru, Ysgol Warchod Forde Park, Cartref Plant St Leonard, Cartrefi Plant St Aidan a St Vincent, ac Ysgol Warchod Castell Stanhope. Dynodwyd cyfranogwyr craidd.

Cynhaliwyd gwrandawiadau cychwynnol yr ymchwiliad ar 29 Gorffennaf 2016, a 28 Mawrth 2017. Cynhelir gwrandawriad cychwynnol pellach ar 8 Mai 2018 er mwyn ystyried y materion y dylid ymchwilio iddynt yn y gwrandawriad cyhoeddus ym mis Tachwedd 2018.

Camfanteisio'n rhywiol ar blant gan rwydweithiau trefnedig

Mae'r ymchwiliad hwn yn archwilio os yw argymhellion blaenorol parthed camfanteisio ar blant yn rhywiol gan rwydweithiau trefnedig wedi'u rhoi ar waith, ac os ydynt wedi arwain at strategaethau effeithiol i atal camfanteisio'n rhywiol ar blant gan rwydweithiau trefnedig yn y dyfodol.

Ymgwymerodd yr ymchwiliad ag adolygiad manwl o erlyniadau mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant gan rwydweithiau trefnedig, ac adroddiadau a chyhoeddiadau blaenorol a gyhoeddwyd yn y maes hwn.

Gan ddefnyddio themâu a nodwyd yn yr adolygiad hwn, mae'r ymchwiliad yn cynnal ymarfer meincnodi ar ymatebion sefydliadol i gamfanteisio'n rhywiol ar blant gan rwydweithiau trefnedig ar draws 13 ardal yng Nghymru a Lloegr. Fel rhan o'r broses feincnodi, mae'r ymchwiliad wedi gofyn am wybodaeth mewn perthynas â nifer o argymhellion a nodwyd gan fyrddau diogelu plant lleol, grwpiau comisiynu clinigol, prif gwnstablaid, awdurdodau lleol a Gwasanaeth Erlyn y Goron ym mhob ardal.

Bydd y wybodaeth hon yn helpu i bennu fframwaith ar gyfer yr ymchwiliad hwn. Caiff gwrandawriad cyhoeddus ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei drefnu maes o law.

Cyngor Lambeth

Mae'r ymchwiliad hwn yn ystyried methiannau sefydliadol i amddiffyn plant o dan ofal Cyngor Lambeth rhag camdriniaeth a chamfanteisio rhywiol. Mae'n gwneud hyn wrth ymchwilio i natur ac ehangder cam-drin plant yng nghofal Cyngor Lambeth, ac archwilio

ymatebion sefydliadol (er enghraifft, gan y cyngor a'r Heddlu). Mae'r cam-drin honedig yn cynnwys plant mewn gofal nifer o gartrefi i blant a gofalywyr maeth neu rieni mabwysiol dros sawl degawd.

Cynhaliwyd gwrandawiadau cychwynnol yr ymchwiliad ar 24 Mawrth 2016 a 27 Gorffennaf 2016. Yn ddiweddar, mae wedi gofyn am sylwadau gan gyfranogwyr ar gynigion i ganolbwyntio'r ymchwiliad ar dair astudiaeth achos ar y cartrefi canlynol: Angell Road, Canolfan Asesu Southvale a Shirley Oaks. Mae gwrandawriad cyhoeddus ar yr ymchwiliad i'w drefnu.

Ymatebion sefydliadol i honiadau parthed y diweddar Arglwydd Janner o Braunstone CF

Mae'r ymchwiliad hwn yn ymchwilio i ddigonolrwydd ymatebion sefydliadol i adroddiad am gam-drin plant yn rhywiol gan y diweddar Arglwydd Janner o Braunstone CF ('yr Arglwydd Janner') a bydd yn ystyried a gafodd yr ymateb sefydliadol ei ddylanwadu gan ei statws amlwg.

Cynhaliodd yr ymchwiliad wrandawiadau cychwynnol ar 9 Mawrth 2016 a 26 Gorffennaf 2016 ac hyd yma, derbyniwyd, adolygwyd a dadansodwyd deunydd helaeth gan Gyngor Sir Gaerlŷr, Heddlu Caerlŷr a Gwasanaeth Eryl y Goron.

Mae'r ymchwiliad wedi bod yn ofalus i beidio â bod yn anfantais i waith parhaus Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) a Heddlu Caerlŷr na'i ddyblygu. Mae hefyd wedi bod yn ofalus i beidio â datgelu hunaniaeth cyfranogwyr craidd sydd wedi gwneud honiadau i sawl proses ymchwilio. Am y rheswm hwn, mae'n rhaid i'r ymchwiliad aros am gynnydd gan yr IOPC a Heddlu Caerlŷr, a bydd yr ymchwiliad yn parhau i fod mewn cysylltiad â'r IOPC er mwyn adolygu'r amserlen ddisgwyliedig.

Yn y cyfamser, mae'r tîm ymchwilio'n parhau i dderbyn, dadansoddi ac archwilio agweddau eraill yr ymchwiliad (er enghraifft, mewn perthynas â Chyngor Sir Gaerlŷr a sefydliadau gwleidyddol).

Honiadau o gam-drin plant yn rhywiol sy'n gysylltiedig â San Steffan

Mae'r ymchwiliad hwn yn ymchwiliad trosfwaol i honiadau o gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant gan bobl o amlygrwydd cyhoeddus sydd neu a fu'n gysylltiedig â San Steffan

Bydd ymchwiliad yr Ymchwiliad yn ystyried honiadau o gam-drin plant yn rhywiol gan bobl o amlygrwydd cyhoeddus sy'n gysylltiedig â San Steffan a sut daethant i'r amlwg, canfyddiadau ymchwiliadau perthnasol (gan gynnwys ymchwiliadau'r IOPC a'r Heddlu ac adolygiadau ac ymchwiliadau eraill), os oes tystiolaeth o gynllwyn, cuddio, ymyrraeth neu oddef unrhyw gam-drin plant yn rhywiol a gyflawnwyd, os oedd sefydliadau llywodraethol, gwleidyddol a gorfodi'r gyfraith yn ymwybodol o unrhyw gam-drin plant yn rhywiol ac os cymerwyd unrhyw gamau priodol ganddynt o ganlyniad, ac os oes polisiâu diogelu ac amddiffyn plant digonol ar waith mewn pleidiau gwleidyddol ac adrannau ac asiantaethau'r llywodraeth.

Er mwyn gwneud hyn, bydd yr Ymchwiliad yn adolygu gwaith ymchwiliadau blaenorol ac mae wedi cychwyn cael tystiolaeth gan y llywodraeth, pleidiau gwleidyddol, yr asiantaethau cudd-ymchwil a diogelwch, asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac awdurdodau erlyn. Bydd yr ymchwiliad hefyd yn ystyried

tystiolaeth a gasglwyd gan ymchwiliadau eraill o fewn yr Ymchwiliad. Mae dogfennau perthnasol yn cael eu hystyried yn ofalus a chânt eu rhyddhau i gyfranogwyr craidd yr ymchwiliad maes o law.

Cynhaliwyd gwrandawriad cychwynnol ar 31 Ionawr 2018 a darparwyd sylwadau gan gyfranogwyr craidd ar gwmpas yr ymchwiliad ym mis Mawrth 2018. Cynhelir gwrandawriad cyhoeddus yr ymchwiliad ym mis Mawrth 2019.

Ysgolion preswyl

Mae'r ymchwiliad i ysgolion preswyl yn ymchwilio i natur ac ehangder cam-drin plant yn rhywiol mewn ysgolion preswyl a'r ffordd y mae ysgolion a sefydliadau eraill wedi ymateb. Bydd yr ymchwiliad yn ystyried ysgolion preswyl prif ffrwd ac arbennig yn sector y wladwriaeth a'r sector annibynnol.

Bydd yr ymchwiliad yn cymryd ymagwedd thematig wrth archwilio ysgolion preswyl yn hytrach na chanolbwyntio ar ysgolion unigol. Bydd yn edrych ar sawl thema, gan gynnwys llywodraethu, adrodd a chwythu'r chwiban, recriwtio a therfynu cyflogaeth, arolygu a monitro, a diwylliant. Caiff pob thema ei llywio gan dystiolaeth gan dystion achwynnol, y sawl sydd wedi chwythu'r chwiban a sefydliadau yn y sector. Y bwriad yw y bydd gwrandawriadau cyhoeddus ar bob un o'r themâu, a bydd angen mwy o amser ar gyfer gwrandawriad cyhoeddus ar rai nac eraill.

Mae'r ymchwiliad hefyd wedi nodi sawl maes lle mae angen ffocws penodol. Mae'r rhain yn cynnwys ysgolion preswyl i blant ag anghenion addysgol arbennig, ysgolion preswyl ag iddynt ffocws galwedigaethol, cam-drin nad yw'n ddiweddar mewn ysgolion preswyl neu baratoi i blant â phroblemau ymddygiad neu emosiynol sydd bellach wedi cau, plant y telir am eu haddysg breswyl gan gyrff llywodraethol neu y mae eu rhieni dramor, a cham-drin ymhlith cyfoedion. Bydd yr ymchwiliad yn cyhoeddi diweddariad ar ei ymagwedd yn y meysydd hyn maes o law.

Bydd yr ymchwiliad yn agor ei gyfnod am geisiadau i gyfranogwyr craidd ym mis Medi 2018. Cynhelir gwrandawriad cychwynnol ym mis Ionawr 2019 a chaiff gwrandawriadau cyhoeddus eu hamserlennu.

Atodiad B – Diweddariad ar brosiectau ymchwil

Adroddiadau Truth Project cyhoeddedig

Yn Hydref 2017, cyhoeddodd yr Ymchwiliad adroddiad ar leisiau dioddefwyr a goroeswyr o'r Prosiect Gwirionedd.¹⁴⁷ Dyma'r adroddiad cyntaf i roi dadansoddiad o'r profiadau a rannwyd gan ddioddefwyr a goroeswyr mewn sesiynau Truth preifat.

Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn tynnu ar ddeunydd o 249 o sesiynau preifat a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin 2016 a mis Mehefin 2017. Dim ond sesiynau lle rhoddwyd caniatâd i ddefnyddio'r wybodaeth mewn gwaith ymchwil a lle mynychodd y cyfranogwr y sesiwn yn bersonol a gafodd eu cynnwys.

Mae'r adroddiad yn disgrifio proffil y dioddefwyr a'r goroeswyr yn Truth Project, megis eu rhyw, eu hoedran, eu cefndir ethnig ac unrhyw anabledd. Mae hefyd yn darparu mwy o wybodaeth bersonol (lle y rhannwyd hon), gan gynnwys oedran y dioddefwr a'r goroeswr ar adeg y cam-drin, os dywedwyd wrth unrhyw un am y cam-drin ar yr adeg honno a'u rhesymau am fynychu'r Prosiect Gwirionedd. Caiff manylion am y cam-drin rhywiol, er enghraifft ble a phryd y digwyddodd, eu cynnwys hefyd. Yn ychwangeol at y data ystadegol hwn, mae'r adroddiad yn cynnwys disgrifiad yng ngeiriau'r dioddefwyr a'r goroeswyr eu hunain o'r gamdriniaeth a brofwyd ganddynt.

Adroddiadau Truth Project newydd a pharhaus

Bydd yr Ymchwiliad yn parhau i sicrhau y caiff dioddefwyr a goroeswyr eu clywed. Un o'r ffyrdd y bydd yn gwneud hynny yw wrth ddadansoddi'r wybodaeth sy'n deillio o'r Truth Project. Caiff canfyddiadau'r gwaith hwn eu cyhoeddi a gallai olygu cyhoeddi ar themâu penodol, megis y sefydliadau lle mae cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd.

Ymchwil gyhoeddedig

Wyth adolygiad o'r ymchwil a'r llenyddiaeth bresennol a gyhoeddwyd fel rhan o'r prosiect ymchwil. Mae'r rhain yn dod ynghyd â'r hyn y gwyddys eisoes am gam-drin plant yn rhywiol, ac maent yn helpu i gefnogi gwaith ac ymchwiliadau'r Ymchwiliad.

¹⁴⁷ *Victim and survivor voices from the Truth Project*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/3304/view/Victim%20and%20survivor%20voices%20from%20the%20Truth%20Project.pdf

Dysgu oddi wrth arfer gorau dramor

Ym mis Ebrill 2017, cyhoeddodd yr Ymchwiliad adolygiad o'r ymchwil presennol ar ddysgu oddi wrth awdurdodaethau eraill o ran atal cam-drin plant yn rhywiol ac ymateb iddo a gomisiynwyd gan Brifysgol Canolbarth Sir Gaerhirfryn (Lancashire).¹⁴⁸ Crynhodd yr adroddiad yr ymchwil ddiweddaraf ar sut y mae awdurdodaethau y tu allan i Gymru a Lloegr yn atal ac yn nodi cam-drin plant yn rhywiol ac yn ymateb iddo.

Effeithiau cam-drin plant yn rhywiol

Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd yr Ymchwiliad adolygiad o'r ymchwil presennol ar effeithiau cam-drin plant yn rhywiol.¹⁴⁹ Ystyriodd yr adroddiad effeithiau lluosog cam-drin plant yn rhywiol ar ddiodefwyr a goroeswyr. Ystyriodd hefyd unrhyw wahaniaethau o ran effeithiau yn ôl oedran a rhyw, yn ogystal â ffactorau risg neu amddiffynol sy'n gallu cynyddu neu leihau effeithiau cam-drin plant yn rhywiol. Adolygodd hefyd effaith cam-drin plant yn rhywiol ar aelodau teuluoedd y diodefwyr a'r goroeswyr, ac ar y gymdeithas yn ehangach.

Cam-drin plant yn rhywiol yn yr Eglwysi Anglicanaidd a Chatholig

Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd yr Ymchwiliad adolygiad o ymchwil presennol ar gam-drin plant yn rhywiol yn yr Eglwysi Catholig ac Anglicanaidd¹⁵⁰ Ystyriodd yr adroddiad:

- ehangder a natur y cam-drin plant yn rhywiol yn y ddwy Eglwys
- y ffactorau yn y sefydliadau hyn a allai fod wedi cyfrannu at gam-drin plant yn rhywiol yn digwydd, ac
- ymateb y ddwy Eglwys i gam-drin plant yn rhywiol.

Bydd negeseuon allweddol yr adroddiad yn parhau i lywio ymchwiliadau'r Ymchwiliad i'r Eglwysi Anglicanaidd a Chatholig.

Cam-drin plant yn rhywiol a gyflawnir (neu a hwylusir) ar-lein

Comisiynodd yr Ymchwiliad tri adolygiad o ymchwil presennol i lywio ei ymchwiliad i'r rhynggrwyd. Yn yr adolygiadau hyn, ymchwiliwyd i ymddygiad a nodweddion cyflawnwyr ar-lein (a gwblhawyd gan NatCen Social Research),¹⁵¹ agoredrwydd i niwed a nodweddion

¹⁴⁸ *What can be learnt from other jurisdictions about preventing and responding to child sexual abuse: a rapid evidence assessment.* University of Central Lancashire for the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/1370/view/Learning%20from%20best%20practice%20overseas%20-%20Rapid%20Evidence%20Assessment%20-%20Full%20Report%20%28English%29.pdf

¹⁴⁹ *The impacts of child sexual abuse: a rapid evidence assessment.* Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/1534/view/IICSA%20Impacts%20of%20Child%20Sexual%20Abuse%20Rapid%20Evidence%20Assessment%20Full%20Report%20%28English%29.pdf

¹⁵⁰ *Child sexual abuse within the Catholic and Anglican Churches: a rapid evidence assessment.* Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/3361/view/IICSA%20REA%20Child%20sexual%20abuse%20in%20the%20Anglican%20and%20Catholic%20Churches%20Nov%202017.pdf

¹⁵¹ *Behaviour and characteristics of perpetrators of online-facilitated child sexual abuse and exploitation: a rapid evidence assessment.* NatCen Social Research for the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/3720/view/Rapid%20Evidence%20Assessment%20Behaviour%20and%20Characteristics%20of%20Perpetrators%20of%20Online-facilitated%20Child%20Sexual%20Abuse%20and%20Exploitation.pdf

dioddefwyr ar-lein (a gwblhawyd gan Adran Gwaith Cymdeithasol Prifysgol Caerhirfryn),¹⁵² a natur ac ehangder cam-drin plant yn rhywiol ar-lein (a gwblhawyd gan Sefydliad Cymdeithasau Diogel ym Mhrifysgol Huddersfield)¹⁵³. Cyhoeddwyd y tri adroddiad ym mis Ionawr 2018.

Bydd negeseuon allweddol yr adroddiadau'n parhau i lywio ymchwiliad yr Ymchwiliad i'r 'Rhyngwrwyd a cham-drin plant yn rhywiol'.

Disgyrsiau cymdeithasol a gwleidyddol ynghylch cam-drin plant yn rhywiol

Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd yr Ymchwiliad adroddiad ar ddisgyrsiau cymdeithasol a gwleidyddol ynghylch cam-drin plant yn rhywiol a'u dylanwad ar ymatebion sefydliadol.¹⁵⁴ Comisiynodd yr Ymchwiliad hyn gan Uned Astudiaethau Cam-drin Plant a Menywod Prifysgol Fetropolitanaid Llundain.

Nododd ac adolygodd yr adroddiad lenyddiaeth bresennol a oedd yn ymchwilio i'r gwahanol ffyrdd y mae cam-drin plant yn rhywiol wedi'i drafod ac wedi'i ddeall o'r 1940au hyd at y presennol. Ystyriodd sut y mae'r disgyrsiau gwahanol hyn wedi llywio arferion amddiffyn plant ac ymatebion sefydliadol i gam-drin plant yn rhywiol dros amser.

Cam-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau carcharol

Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd yr Ymchwiliad adolygiad o ymchwil presennol ar gam-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau carcharol.¹⁵⁵ Adolygodd yr adroddiad ymchwil ac ehangder cam-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau diogel i bobl ifanc ac ymatebion sefydliadol i'r cam-drin hwn. Ystyriodd hefyd sut mae natur a diwylliant sefydliadau carcharol yn effeithio ar achosion o gam-drin plant yn rhywiol a'r ymateb iddo, ynghyd â rôl polisïau a threfniadau archwilio.

Bydd negeseuon allweddol yr adroddiad yn parhau i lywio ymchwiliadau'r Ymchwiliad i sefydliadau carcharol.

Ymchwil newydd a pharhaus

Plant mewn sefydliadau carcharol

Mae'r Ymchwiliad yn ymgymryd ag ymchwil i sefydliadau diogel i bobl ifanc i lywio ei ymchwiliad i sefydliadau carcharol. Bydd hyn yn cynnwys cyfweld â phlant a staff mewn tri math o sefydliad carcharol: sefydliadau troseddwr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel a chartrefi i blant diogel. Bydd hyn yn helpu'r Ymchwiliad i:

¹⁵² *Characteristics and vulnerabilities of victims of online-facilitated child sexual abuse and exploitation: a rapid evidence assessment*. Lancaster University for the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/3719/view/Rapid%20Evidence%20Assessment%20Characteristics%20and%20Vulnerabilities%20of%20Victims%20of%20Online%20Facilitated%20Child%20Sexual%20Abuse%20And%20Exploitation.pdf

¹⁵³ *Quantifying online facilitated child sexual abuse*. University of Huddersfield for the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/3722/view/Rapid%20Evidence%20Assessment%20Quantifying%20The%20Extent%20Of%20Online%20Facilitated%20Child%20Sexual%20Abuse.pdf

¹⁵⁴ *Deflection, denial and disbelief: social and political discourses about child sexual abuse and their influence on institutional responses*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) [www.iicsa.org.uk/key-documents/3848/view/Social%20and%20political%20discourses%20about%20child%20sexual%20abuse%20and%20their%20influence%20on%20institutional%20responses%20\(full%20report\).pdf](http://www.iicsa.org.uk/key-documents/3848/view/Social%20and%20political%20discourses%20about%20child%20sexual%20abuse%20and%20their%20influence%20on%20institutional%20responses%20(full%20report).pdf)

¹⁵⁵ *Child sexual abuse in custodial institutions: a rapid evidence assessment*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/5197/view/Child%20sexual%20abuse%20in%20custodial%20institutions%20REA%20-%20Full%20report.pdf

- ymchwilio i effeithiolrwydd polisiâu a gweithdrefnau sydd ar waith er mwyn amddiffyn plant mewn sefydliadau carcharol
- deall natur cam-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau carcharol
- deall y broses o ddatgelu cam-drin plant yn rhywiol mewn sefydliadau carcharol a digonolrwydd yr ymatebion, ac
- ystyried materion eraill, megis digonolrwydd hyfforddiant i staff.

Sicrhawyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer y gwaith hwn gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil yr Ymchwiliad a Phwyllgor Ymchwil Cenedlaethol Carchardai a Gwasanaeth Prawf Ei Mawrhydi. Bydd gwaith maes yn cychwyn yng nghanol 2018 a disgwylir adroddiad yn gynnar yn 2019.

Cam-drin plant yn rhywiol a gyflawnir (neu a hwylusir) ar-lein

Bydd yr addysg y mae plant yn derbyn ar risgiau cam-drin plant yn rhywiol ar-lein yn cael ei ymchwilio fel rhan o ymchwiliad yr Ymchwiliad i'r rhyngwyrdd. Gall y gwaith hwn gynnwys darn o ymchwil sy'n ystyried sut caiff addysg ar ddiogelwch ar-lein ei chyflwyno mewn ysgolion ar hyn o bryd. Gallai hefyd edrych ar ba mor effeithiol mae'r addysg hon wrth wella ymwybyddiaeth plant o risgiau cam-drin rhywiol ar-lein.

Mae'r Ymchwiliad wedi comisiynu astudiaeth o ddichonoldeb gychwynnol gan Alma Economics i ganfod sut y gallai gyflawni'r gwaith hwn. Gan ddibynnu ar y canfyddiadau, bydd yr Ymchwiliad yn ystyried ymgymryd â gwerthusiad llawn ar raddfa fawr.

Ysgolion preswyl

Bydd yr Ymchwiliad yn gwneud ymchwil ar ysgolion preswyl fel rhan o'i ymchwiliad i'r sefydliadau hyn. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys cyfranogaeth gan staff, plant a rhieni er mwyn archwilio ymwybyddiaeth a chanfyddiadau o ran cam-drin rhywiol mewn cyd-destun ysgolion preswyl. Bydd ymchwil hefyd yn canolbwyntio ar arferion diogelu i ddiben atal cam-drin plant yn rhywiol ac ymateb iddo.

Camfanteisio'n rhywiol ar blant gan gyflawnwyr mewn rhwydweithiau trefnedig

Mae ymchwiliad yr Ymchwiliad i gamfanteisio'n rhywiol ar blant gan gyflawnwyr mewn rhwydweithiau trefnedig yn ystyried methiannau sefydliadol i atal camfanteisio'n rhywiol ar blant ac ymateb iddo. O ganlyniad, bydd yr Ymchwiliad yn gwneud ymchwil i gael dealltwriaeth well o gefndir, nodweddion ac ysgogiadau'r cyflawnwyr hyn, sut y caiff rhwydweithiau trefnedig eu ffurfio a'u cynnal a sut maent yn targedu plant i ddiben camfanteisio rhywiol. Bydd hyn yn cynnwys cyfweld â chyflawnwyr troseddau camfanteisio'n rhywiol ar blant.

Bydd canfyddiadau o'r ymchwil hwn yn darparu mewnwelediadau newydd i'r camau y gall asiantaethau cenedlaethol a lleol eu cymryd i atal a rhwystro camfanteisio rhywiol.

Atodiadau

Atodiad 1: Rhaglenni mudo plant – Adroddiad astudiaeth achos

Atodiad 2: Cambridge House, Knowl View a Rochdale – Adroddiad ymchwiliad

Atodiad 1

Rhaglenni mudo plant: Adroddiad astudiaeth achos

Cafodd adroddiad ar y rhaglen mudo plant ei gyhoeddi ym Mawrth 2018 ac mae'n amlinellu canfyddiadau'r Ymchwiliad. Mae'r adroddiad hwn i'w weld ar wefan yr Ymchwiliad.¹⁵⁶

¹⁵⁶ *Child migration programmes: Investigation report*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/4265/view/Child%20Migration%20Programmes%20Investigation%20Report%20March%202018.pdf

Atodiad 2

Cambridge House, Knowl View a Rochdale: Adroddiad ymchwiliad

Cafodd adroddiad ymchwiliad 'Cambridge House, Knowl View a Rochdale' ei gyhoeddi yn Ebrill 2018 ac mae'n amlinellu canfyddiadau'r Ymchwiliad. Mae'r adroddiad hwn i'w weld ar wefan yr Ymchwiliad.¹⁵⁷

¹⁵⁷ *Cambridge House, Knowl View and Rochdale: Investigation report*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/5322/view/Cambridge%20House%2C%20Knowl%20View%20and%20Rochdale%20Investigation%20Report%20April%202018.pdf

